Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 11eg Mawrth, 2025 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom<br><br>Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sioned Mai Jones<br><br>01286 679665 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |
| Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| June Jones | Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| R Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
| Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid |
| Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Cyfreithiol |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 11 CHWEFROR | | | 4 - 15 |
| 6 | BIDIAU UN-TRO 2025/26 | Cyng. Nia Jeffreys | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr | 16 - 19 |
| 7 | DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - ASESIAD PERFFORMIAD PANEL | Cyng. Nia Jeffreys | Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor | 20 - 42 |
| 8 | PRYDLESU CYN SAFLE YSGOL ABERSOCH I MENTER RABAR | Cyng. Paul Rowlinson | Carys Fon Williams, Pennaeth Adran Tai ac Eiddo | 43 - 46 |
| 9 | CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL: DIWEDDARIAD | Cyng. Craig ab Iago | Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd | 47 - 80 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD | Cyng. Craig ab Iago | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran | 81 - 99 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Amgylchedd | |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC | Cyng. June Jones | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 100 - 111 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD | Cyng. Menna Trenholme | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | 112 - 116 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2025**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, Craig ab Iago, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Llio Elenid Owen a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen, (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd). |
| Eitem 7-8: | Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Adran Addysg). |
| Eitem 11: | Aled Davies (Pennaeth Adan Oedolion, Iechyd a Llesiant). |
| Eitem 12: | Gareth Jones (Pennaeth Adran Cynorthwyol) a Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) |
| Eitem 14: | Ian Jones (Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol) a Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol). |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod gan yr Arweinydd.

Talwyd teyrnged i Dafydd Elis-Thomas gan gydymdeimlo a'i deulu yn eu galar. Mynegwyd bod cyfraniad Dafydd i'r genedl a'r iaith wedi bod yn amhrisiadwy, yn ogystal â'i gyfraniad i Gymru. Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod hi'n adnabod Dafydd ers y 90'au a'i bod yn fraint i'w adnabod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Eitem 7: Datganodd y Cynghorwyr Llio Elenid Owen a Menna Trenholme eu bod nhw'n Llywodraethwyr a benodwyd gan yr awdurdod yn Ysgolion Llandwrog a Bontnewydd. Yn ychwanegol nodwyd bod gan y Cynghorydd Menna Trenholme blant yn Ysgol Bontnewydd. Nid oedd y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2025 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Croesawyd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd i'r cyfarfod a diolchwyd iddi am ei gwaith o reoli'r rhaglen ac am adroddiad cynhwysfawr. Darparwyd cefndir y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur gan nodi bod ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd yn un o 8 o flaenoriaethau gwella o fewn Cynllun y Cyngor (2023-28). Nodwyd mai'r adroddiad yma yw'r ail adroddiad blynyddol i gael ei gyflwyno ers bodolaeth y Cynllun ar ddechrau blwyddyn 2023/23 a bod yr adroddiad eisoes wedi bod ger bron y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Ionawr.

Tywyswyd Aelodau'r Cabinet drwy'r adroddiad gan nodi bod gostyngiadau allyriadau carbon wedi eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod 37% o leihad yn allyriadau carbon Cyngor Gwynedd os yn diystyru'r maes caffael. Ychwanegwyd bod y gostyngiad yn 16% ers 2019/20 os yn cynnwys caffael yn y ffigyrau. Nodwyd bod y gwahaniaeth yma yn wir i pob sefydliad ar draws y wlad.

Nodwyd bod nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill megis buddsoddi mewn bws mini trydan er mwyn darparu cludiant i ysgolion. Cyfeiriwyd at y dasg bwysig o newid ymddygiad sydd ddim wastad yn hawdd. Nodwyd er y cynnydd, bod llawer o waith yn parhau er mwyn sicrhau dyfodol wyrddech i Wynedd.

Cyfeiriwyd at y risg ariannol gan egluro bod cronfa Cynllun Hinsawdd gwerth £3m wedi ei sefydlu drwy'r broses bidiau refeniw un-tro. Ymhelaethwyd mai £792,015 sydd ar ôl yn y gronfa gyda £2,207984 wedi ei wario neu ei neilltuo i'w wario. Eglurwyd bod y Cyngor wedi ychwanegu arian o nifer o gronfeydd gwahanol tuag at y £3m dros y blynyddoedd yn ogystal â wedi bod yn llwyddiannus iawn efo grantiau oedd wedi arwain at £6m ychwanegol i'r Cynllun.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at benawdau am gynlluniau penodol eraill megis cynllun y Fflyd Werdd i drosi cerbydau'r Cyngor o gerbydau diesel i gerbydau trydan er mwyn arbed carbon ag arian i'r Cyngor. Cyfeiriwyd hefyd at gais grant llwyddiannus ble cafwyd cadarnhad ddoe am lwyddiant y cais i ymgymryd â gwaith ar gartref henoed Plas Ogwen. Nodwyd bod y Cyngor wedi denu £1.7 miliwn o arian grant tuag at drosi'r adeilad a gwella ei berfformiad ynni. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfrannu tuag at y cynllun hwn a llongyfarchwyd yr uned cadwraeth ynni.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Llongyfarchwyd y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma.

- Mynegwyd safbwynt fod y Cyngor wedi taclo'r newidiadau hawsaf yn gyntaf oedd wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yng nghychwyn y broses. Tynnwyd sylw bod y gostyngiad allyriadau wedi arafu ers 2022/23 gyda dim ond 1% o gynnydd yn cael ei wneud yn y gostyngiadau. Credwyd y bydd y cynnydd yn arafu wrth symud ymlaen i gynlluniau anoddach a gall hyn arwain at risg o beidio cyrraedd y targed o 0% erbyn 2030.
- Credwyd ei bod yn anodd i Awdurdodau Lleol flaenoriaethu'r gwaith hwn oherwydd nad oes unrhyw gyllid yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o ran refeniw tuag at y maes gwaith. Gobeithiwyd y bydd llwyddiant y Cyngor o allu denu grantiau yn parhau.
- Credwyd y bydd penderfyniadau anodd ar eu ffordd i'r Aelodau Cabinet pan ddaw'r amser i gwblhau adolygiad o'r cynllun sydd ar y gweill fydd yn adnabod y gost ac yn adnabod cyn lleied o arian sy'n cael ei dderbyn ar gyfer y maes hwn. Pryderwyd y bydd angen gwneud penderfyniad rhwng y maes hwn neu gyfrifoldebau eraill y Cyngor.
- Holiwyd pa brosiectau eraill sydd ar y gweill ac os oes modd cymharu â'r hyn mae Cynghorau eraill yn ei wneud.
  - Mewn ymateb nodwyd bod adolygiad ar y gweill i edrych ar bob prosiect sydd ar gofrestr Gwynedd a syniadau newydd sydd wedi eu cyflwyno gan Adrannau yn ogystal a syniadau newydd sydd wedi eu derbyn drwy edrych ar weithgaredd cyrff allanol eraill. Nodwyd bod angen asesu'r cynlluniau hyn er mwyn darganfod eu ymarferoldeb, cost a faint o garbon fyddent yn ei arbed. Bydd angen rhannu'r wybodaeth yma efo'r Aelodau Cabinet yn fuan er mwyn blaenoriaethu a gweld faint o'r cynlluniau all gael eu cyllido. Croesawyd unrhyw syniadau newydd.

## 7. ADOLYGU DALGYLCH YSGOL FELINWNDA

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar adolygu dalgylch Ysgol Felinwnda, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad. Penderfynwyd cymeradwyo'r opsiwn ffafriedig, sef: '*Opsiwn 2: Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd'*

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw at Atodiad 5 sef sylwadau'r Aelod Lleol. Nodwyd bod yr Aelod Lleol yn ymddiheuro na all fod yn bresennol ond yn awyddus iawn i gyfleu ei sylwadau. Atgoffwyd yr Aelodau Cabinet y bydd angen ystyried y sylwadau hyn wrth wneud y penderfyniad heddiw.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhan o gynllunio ymlaen gan nodi bod ymgynghoriad a gwerthusiad o'r holl opsiynau wedi eu cynnal. Yn dilyn hyn awgrymir Opsiwn 2 fel yr opsiwn ffafriedig gan nodi bod Swyddogion yr Adran Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg o'r farn mai'r opsiwn yma yw'r un fwyaf addas.

Nodwyd y bydd yr opsiwn hwn yn galluogi i holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda i aros gyda'u gilydd a bydd yr opsiwn yn cyd-fynd a dewis presennol mwyafrif o ddysgwyr

y ddalgylch gyda 57% eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd. Rhagwelir y bydd yr opsiwn yma yn cynnig costau cludiant is na'r holl opsiynau eraill ag eithrio opsiwn 3. Mynegwyd bod ystyriaeth briodol wedi ei roi i'r elfen ariannol er nad yr elfen ariannol oedd y brif ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad.

Cadarnhawyd, yn unol â Pholisi'r Cyngor, bod gan rieni hawl i gofrestru eu plant mewn unrhyw ysgol sydd â llefydd gwag. Nodwyd nad yw gosod dalgylch yn golygu bod y Cyngor yn mynnu bod unrhyw blentyn yn mynd i ysgol benodol. Gwnaethpwyd sylw bod yr addewid y byddai'r Cyngor yn darparu cludiant i gyn-ddisgyblion Ysgol Felinwnda i'r ysgol o'u dewis drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol gynradd yn parhau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd bod y penderfyniad hwn yn un anodd a'i bod yn anodd plesio pawb.
- Gofynnwyd am sicrwydd y bydd rhieni yn cael dewis i ba ysgol i anfon eu plant os yw'r ysgol o'u dewis mewn dalgylch arall.
    - Cadarnhawyd bod hyn yn gywir a bod gan rieni hawl i gofrestru eu plant mewn unrhyw ysgol ar yr amod bod llefydd gwag yn yr ysgol dan sylw.
- Mynegwyd siom nad trosglwyddo dalgylch Felinwnda i Ysgol Llandwrog ydi'r argymhelliad a mynegwyd anghytundeb cryf efo'r opsiwn sydd ger bron. Soniwyd am y cysylltiad sydd wedi bod rhwng Ysgol Felinwnda ac Ysgol Llandwrog ers blynyddoedd ac ategwyd pwyntiau'r Aelod Lleol oedd hefyd yn anghytuno â'r argymhelliad. Pryderwyd y byddai'r argymhelliad hwn yn arwain at effaith negyddol ar Gylch Meithrin Dinas a Llanwnda. Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet yn pleidleisio yn erbyn y penderfyniad heddiw ar sail y rhesymau hyn.
- Croesawyd addewid y Cyngor ar dudalen 59 o'r adroddiad i barhau i gynnig cludiant i blant yr ardal.
    - Pwysleisiwyd y bydd unrhyw gyn-ddisgybl yn parhau i dderbyn cludiant tra'n parhau yn yr ysgol gynradd.
- Mynegwyd bod yr Adran Addysg yn parhau i gefnogi Ysgol Llandwrog.
- Nodwyd bod rhaid rhoi addysg a phlant o flaen dyfodol unrhyw ysgol.
- Credwyd na fyddai unrhyw effaith negyddol ar y Cylch Meithrin gan ychwanegu bod yr Adran Addysg yn gefnogol iawn o'r Cylch Meithrin a'n dymuno ei weld yn parhau i lwyddo a'r berthynas agos rhwng Cylch Meithrin Llanwnda ac Ysgol Llandwrog yn parhau.

**8. YSGOL GYNRADD NEBO AC YSGOL BALADEULYN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Gynradd Nebo gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol.

Cytunwyd i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Baladeulyn gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgol.

**TRAFODAETH**

Cyfeiriwyd at ddifrifoldeb symudiadau demograffeg y Sir gyda'r boblogaeth yn heneiddio a nifer plant y Sir yn lleihau yn flynyddol. Cydnabuwyd bod ymdrechion llwyddiannus wedi bod gan y Cyngor i ddenu pobl ifanc yn ôl i Wynedd i fyw ond bod y broblem o leihad yn nifer plant y Sir yn parhau.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ofyn i'r Cabinet gychwyn trafodaethau ffurfiol yn ymwneud â dyfodol Ysgol Gynradd Nebo ac Ysgol Baladeulyn yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynaladwyedd yr ysgolion. Cadarnhawyd y bydd yr Adran Addysg yn edrych ar y ddwy ysgol ar wahân.

Cyfeiriwyd at y cefndir a beth sydd wedi arwain at gychwyn y trafodaethau hyn fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad. Mynegwyd mai 10 dysgwr llawn amser sy'n mynychu Ysgol Gynradd Nebo ar hyn o bryd gyda'r un plentyn yn y dosbarth meithrin. Golyga hyn bod canran o 80% o lefydd gweigion yn yr ysgol. Adroddwyd sefyllfa debyg yn Ysgol Baladeulyn gyda 13 dysgwr llawn amser yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd a dim un plentyn yn y dosbarth meithrin. Nodwyd bod hyn yn cyfateb â 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol wrth edrych ar gapasiti'r ysgol.

Cyfeiriwyd at gost y pen fesul dysgwr am ddwy ysgol, oedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd Sirol; bron i dair gwaith y gost.

Ychwanegodd y Pennaeth Addysg os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r penderfyniad a geisir heddiw yna bydd trafodaethau yn cael eu cynnal efo'r ysgolion dros y misoedd nesaf. Nododd y bydd asesiad effaith yn cael ei wneud yn dilyn y trafodaethau hynny ar bob un o'r opsiynau posib. Eglurwyd y bydd yr eitemau yn dod yn ôl ger bron y Cabinet ym mis Mehefin efo'r adborth lleol a chanlyniad y trafodaethau er mwyn trafod y camau nesaf.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**9. CYNLLUN ARBEDION A THORIADAU 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr arbedion a thoriadau a restrir yn Atodiad A (£519k) i'w defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2025/26, a chomisiynu'r Adrannau i symud ymlaen i weithredu'r cynlluniau gan ddal sylw at y materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Cymeradwywyd dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion a Thoriadau hwn o fewn y cyfansymiau Adrannol wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y Cyngor bellach yn gwybod beth fydd lefel y Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 ac y bydd yn sylweddol is na'r hyn fydd ei angen i gynnal lefel gwasanaethau presennol. Yn sgil hyn a ffactorau

eraill e.e. gorwario Adrannol a chynnydd yng nghostau staffio, adroddwyd bod gwaith manwl wedi ei gynnal i adnabod cyfleoedd i arbed neu dorri.

Cyfeiriwyd at y sesiynau briffio ariannol gafodd eu cynnal i holl aelodau etholedig ym mis Ionawr 2025 er mwyn blaenoriaethu cynlluniau toriadau ar gyfer 2025/26. Ychwanegwyd bod yr adroddiad hwn wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos diwethaf a bod y Pwyllgor wedi nodi cynnwys yr adroddiad.

Ymhelaethwyd bod y setliad yn well na'r hyn oedd wedi ei ddarogan y flwyddyn ddiwethaf ond bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau i fod yn wael iawn gyda bwlch sylweddol i'w lenwi. Nodwyd bod y £3.5 miliwn o doriadau gafodd eu penderfynu llynedd eisoes yn y system. Ychwanegwyd nad oes arbedion effeithlonrwydd pellach y gellir eu gwneud felly bod toriadau o £519,000 wedi eu hadnabod fel sydd wedi eu rhestru yn Atodiad A.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd pryder am y sylwadau negyddol y mae'r Cyngor, y staff a'r Aelodau yn ei dderbyn yn gyhoeddus e.e. ar gyfryngau cymdeithasol, gan bryderu am yr effaith mae'r sylwadau hyn yn eu cael ar swyddogion. Ychwanegwyd bod Cyngor Gwynedd yn lwcus ac mewn gwell sefyllfa na llawer o Gynghorau eraill ac yn gwneud eu gorau i warchod gwasanaethau i bobl y Sir.
- Cymerwyd y cyfle i ddiolch i staff y Cyngor sy'n gweithio'n galed ac yn ceisio cyflawni mwy ond efo llai o adnoddau.

**10. CYLLIDEB 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025) y dylid sefydlu cyllideb o £355,243,800 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £246,818,190 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 8.66%).

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025) y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £53,736,190 yn 2025/26 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y gyllideb yn ymgais i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer y bobl fwyaf bregus megis gwasanaethau cymdeithasol oedolion a gwasanaethau gofal i blant. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy fuddsoddi i leihau rhestrau aros a cheisio cywiro cyllidebau nad oedd modd buddsoddi ynddynt yn flaenorol. Diolchwyd i'r Adran Gyllid am eu gwaith caled yn paratoi'r gyllideb.

Rhannwyd cyflwyniad oedd yn crynhoi prif bwyntiau'r adroddiad. Cyfeiriwyd at y gorwariant oedd yn gyfanswm o £8.3 miliwn gyda bron i £7 miliwn yn deillio o'r gwasanaethau gofal sef Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phlant a Theuluoedd. Credwyd bod hyn yn rhannol am fod pobl yn byw yn hirach yn ogystal â chyflyrau mwy dwys, nodwyd bod cyfarch y gofynion hyn yn gostus.

Cyfeiriwyd at y bidiau refeniw gan nodi bod £6.8 miliwn eisoes wedi eu cymeradwyo a nifer hefyd sydd wedi derbyn cefnogaeth neu yn faterion newydd 2025/26. Nodwyd bod hyn yn golygu bod cyfanswm o £7.7 miliwn o adnoddau ychwanegol angen eu darganfod. Wrth ystyried y cynnydd yn yr ardollau, chwyddiant cyflogau a chynnydd yn yswiriant gwladol y cyflogwr, nodwyd bod cyfanswm gwariant ychwanegol y Cyngor yn £24 miliwn.

Cadarnhawyd drwy ystyried y gyllideb sylfaenol a'r gwariant ychwanegol a'r incwm o Grant Llywodraeth Cymru, bob bwlch ariannol o £109 miliwn i'w ariannu drwy arbedion a gan y Dreth Cyngor. Nodwyd ar ôl cynnwys yr arbedion fod y bwlch gweddilliol fydd i'w gyfarch drwy'r Dreth Cyngor yn £108,45,610. Ymhelaethwyd y byddai'n rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 8.66% er mwyn cwrdd â'r ffigwr hwn. Cydnabuwyd nad yw hyn yn newyddion da ond nad oes llawer o opsiynau eraill.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at Atodiad 10 sef datganiad swyddog cyllid statudol ar gadernid yr amcangyfrifon gan ymhelaethu ei fod yn hyderus bod y cyllidebau a gyflwynwyd yn gadarn ac yn ddigonol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am y cyflwyniad gan nodi bod y sleidiau a gyflwynwyd yn gymorth i ddeall y ffigyrau.
- Cyfeiriwyd at y gwasanaethau costus megis oedolion a chostau ysgolion gan nodi nad ydynt yn wasanaethau amlwg ond yn rhai costus iawn i'w cynnal.
    - Ategodd yr Aelod Cabinet nad yw'r Adran wedi amharu ar y gyllideb Addysg yn ormodol eleni. Pryderwyd nad yw trigolion y Sir yn gweld y gwaith gofal oni bai eu bod yn dderbynnydd gofal ac felly ddim yn deall pa mor gostus ydyw.
- Mynegwyd nad yw'n bleser awgrymu i gynyddu'r Dreth Cyngor. Ychwanegwyd bod cynlluniau gostyngiadau Treth Cyngor ar gael.
    - Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid bod cyfyngiadau i fod yn gymwys am y cynllun hwn ond cymerwyd y cyfle i nodi ei bod yn bwysig i'r sawl sy'n gymwys i hawlio unrhyw fudd-daliadau neu ostyngiadau.

## 11. ADDASIAD I GYNLLUN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ychwanegu prosiect Gofal Cartref i'r rhestr prosiectau o dan faes blaenoriaeth Gwynedd ofalgar yng Nghynllun y Cyngor 2023 – 2028.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y cais yn deillio o ganfyddiad ac argymhelliad yr Archwiliadau o'r Gwasanaethau Oedolion a gafodd eu cynnal dros y misoedd diwethaf. Ymhelaethwyd bod Arolygiaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal yr archwiliadau o wasanaethau gofal a ddarperir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2024. Yn ychwanegol i hyn soniwyd am yr archwiliad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd wedi cymryd lle yn ystod yr un cyfnod.

Manylwyd ar ganfyddiadau'r arolygon gan nodi bod y 3 sefydliad wedi amlygu y dylai materion gofal cartref dderbyn mwy o sylw yn rhaglenni strategol y Cyngor. Nodwyd hefyd y dylai'r pwnc yma dderbyn blaenoriaeth drwy gael ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Credwyd y byddai hyn yn helpu i gyflawni gan roi sylfaen i'r materion a'i bod yn bwysig ei gynnwys fel un o flaenoriaethau'r Adran. Nodwyd bod y maes blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar o fewn Cynllun y Cyngor yn un pwysig ac mai yma fyddai'r maes gofal cartref yn cael ei gynnwys. Amlygwyd y camau nesaf o gyflwyno'r addasiad hwn i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad gan groesawu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r maes pwysig hwn ynn Nghynllun y Cyngor.

**12. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL LLETY GWYLIAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Adran Cynorthwyol.

**PENDERFYNIAD**

Ystyriwyd y CCA Drafft: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr) a chynnig sylwadau ac unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol fel yn briodol.

Cymeradwywyd rhyddhau'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft: Rheoli'r Defnydd o Dai fel Llety Gwyliau (yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol) ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

Cymeradwywyd dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r CCA drafft.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi dod yn weithredol ar 1 Medi, 2024 yn dilyn ei gadarnhau yng nghyfarfod Cabinet 16 Gorffennaf, 2024. Cyfeiriwyd at oblygiadau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 gan nodi ei bod bellach yn ofynnol derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau newid defnydd penodol. Eglurwyd bod y penderfyniadau ar y ceisiadau hynny yn cael eu gwneud yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sef y cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer yr ardal. Esboniwyd mai hyn yw'r gofyn statudol o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol diweddar.

Nodwyd bod yr Adran yn y broses o baratoi cynllun newydd a bod y gwaith o greu polisïau newydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Eglurwyd mai'r bwriad efo'r Canllaw Cynllunio Atodol Drafft sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 yw rhoi arweiniad manwl o ran y defnydd o bolisïau cynllunio cyfredol yr Adran o gwmpas materion sydd yn deillio o gyfarwyddyd Erthygl 4. Credwyd y bydd y Canllaw hwn yn gymorth i'r Awdurdod wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Ychwanegwyd bod agen i'r Canllaw fod yn gyson efo polisïau cynllunio cyfredol y Cyngor ac yn rhoi arweiniad clir. Nodwyd bod y Canllaw drafft wedi cael ei adrodd

ddwywaith yn barod i'r Gweithgor Polisi Cynllunio gan gyfeirio at sylwadau'r Gweithgor sydd wedi eu cynnwys yn rhan 3.7 o'r adroddiad.

Nodwyd mai mesur dros dro i bob pwrpas ydi'r Canllaw nes bydd yr Adran wedi cwblhau'r broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a mabwysiadu'r Cynllun hwnnw. Cyfeiriwyd ar ran 3.8 o'r adroddiad sy'n amlinellu'r camau nesaf yn y broses a chynnal cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd i'r Pennaeth Adran Cynorthwyol ymhelaethu ar rôl y Gweithgor a'u mewnbwn.
  - Mewn ymateb eglurwyd bod fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei gyflwyno i'r Gweithgor ym mis Tachwedd, 2024. Nodwyd bod gan y Gweithgor bryderon am yr arweiniad oedd wedi ei gynnwys ar gyfer ceisiadau i newid defnydd tŷ i fod yn ail gartref; o ganlyniad i'r pryderon hyn gwnaethpwyd diwygiadau i'r Canllaw. Adroddwyd bod y Gweithgor yn hapus gyda'r newidiadau a adroddwyd iddynt ym mis Rhagfyr, 2024 ac yn gefnogol i ryddhau'r Canllaw ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 13. TROSGLWYDDO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU I GYD BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNIAD**

(1) Cytunwyd i lunio Cytundeb Partneriaeth a Chyllido (Atodiad 1) lle trosglwyddir rôl corff Atebol, cyfrifoldeb dros gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r trefniadau cyllido ar gyfer y Cynllun Twf i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar neu cyn 31 Mawrth 2025.

(2) Cytunwyd i amnewid a neilltuo yn ôl y galw, cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a hawliau a rhwymedigaethau ym mhob cytundeb cyllido a ddaw i mewn a ddelir gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran trosglwyddiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("y Bwrdd Uchelgais") i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ("y CBC");

(3) Cytunwyd i drosglwyddo ac amnewid a/neu neilltuo'r holl fuddiannau yn y portffolio o brosiectau a ariennir gan Gynllun Twf Gogledd Cymru ynghyd ag unrhyw gytundebau, taliadau a phrydlesi ategol gan Gyngor Gwynedd fel Corff Atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r CBC.

(4) Cytunwyd i drosglwyddo a / neu aseinio'r holl falansau ariannol, arian sy'n ddyledus ac asedau fel a ddelir ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Gyngor Gwynedd i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

(5) Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, i gytuno a gweithredu'r cytundebau, y gweithredoedd a phob dogfen gyfreithiol arall yn eu ffurf terfynol, sy'n angenrheidiol i weithredu'r trosglwyddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1), (2) a (3) uchod.

(6) Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Partneriaeth a Chyllido, cytunwyd i derfynu cytundeb GA2 a dirwyn Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ben.

(7) Cytunwyd i drosglwyddo atebolrwydd i'r CBC a bod y CBC yn derbyn cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn amodol ar amnewid y Cynllun Twf a chymeradwyo Rheolau Sefydlog Tud. 251 ychwanegol sy'n ymgorffori telerau allweddol y Cytundeb Cyd-weithio ("GA2") rhwng y 6 Cyngor Cyfansoddol a'r 4 parti Addysg.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu ei fod yn adroddiad technegol iawn. Darparwyd y cefndir gan gyfeirio at y penderfyniad i fuddsoddi arian cyhoeddus yn y rhanbarth nôl yn 2020 a sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn 2021. Eglurwyd bod gan y CBC dair swyddogaeth benodol ar hyn o bryd sef datblygu polisïau trafnidiaeth rhanbarthol, paratoi Cynllun Datblygu Strategol a gwaith Lles Economaidd. Nodwyd bod penderfyniad mewn egwyddor ar draws chwe awdurdod y Gogledd i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC.

Cyfeiriwyd at yr oedi wrth symud y prosiect yn ei flaen ac wrth sefydlu'r CBC a'r rhesymau dros yr oedi megis y rheoliadau ar drefn ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i ddatblygu. Amlygwyd bod tîm prosiect yn gweithio ar drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC; bydd hyn yn y pen draw yn golygu y bydd Gwynedd yn gallu camu nôl o'r rôl awdurdod lletyol. Eglurwyd y bydd y grantiau yn trosglwyddo i gyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor ond bydd Craffu yn parhau efo'r Cynghorau.

Esboniwyd bod adroddiad tebyg yn mynd ger bron Cabinet y Cynghorau eraill yn fuan a ger bron y ddwy brifysgol er mwyn cytuno i drosglwyddo ar 31 Mawrth 2025. Nodwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor cyntaf i wneud y penderfyniad.

Nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

**14. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Llio Elenid Owen.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi digwydd yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol yn ddiweddar. Mynegwyd bod yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar chwe phrosiect o fewn gwahanol feysydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 2023-28 sef Cadw'r Budd yn Lleol, Merched Mewn Arweinyddiaeth, Sicrhau Tegwch i Bawb, Cynllunio'r Gweithlu, Hybu Defnydd o'r Gymraeg gan Drigolion Gwynedd ac Adolygiad Strategol ar Reolaeth Iechyd a

Diogelwch. Darparwyd crynodeb ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma o fewn y prosiectau hyn.

Amlygwyd bod yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn perfformio'n dda a chyfeiriwyd at rai o'r uchafbwyntiau fel sydd wedi eu nodi yn rhan 5 o'r adroddiad. I gloi cyfeiriwyd at sefyllfa ariannol yr Adran.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cyfreithiol gan nodi ei bod yn galonogol gweld buddion o'r Cynllun Yfory.
- Mynegwyd pryder am y cyfeiriad at benodi locum ac allanoli gwaith, gofynnwyd am fwy o fanylion am niferoedd y locums sy'n cael eu defnyddio gan y Gwasanaeth ac os ydynt yn gallu'r Gymraeg. Holiwyd yn ogystal am yr heriau recriwtio gan ofyn a oes risgiau ariannol o ganlyniad i hyn.
    - Mewn ymateb cadarnhawyd bod y sefyllfa staffio wedi gweddnewid er gwell yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nodwyd bod swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd a gobeithir gallu penodi.
    - Cadarnhawyd bod y sefyllfa recriwtio wedi gwella a bod hyn wedi arwain at leihad yn nefnydd y Gwasanaeth o locums.
    - Nodwyd bellach bod y Gwasanaeth yn gallu recriwtio drwy gynnig cytundeb tymor byr yn hytrach na chyflogi locum.
    - Mynegwyd bod ymdrech yn cael ei wneud i ddefnyddio locums sy'n siarad Cymraeg er cydnabuwyd bod y rhain yn brin.
    - Esboniwyd bod llawer o faterion ac achosion ar agor gan y tîm Cyfreithiol a bod y defnydd o locums yn caniatáu i bontio bylchau er mwyn ymdopi efo'r gwaith. Ychwanegwyd bod natur y gwaith yn arbenigol gyda rhai meysydd technegol a bod dim digon o'r gwaith i benodi ond bod angen arbenigedd penodol am gyfnod felly bod elfen o ddefnydd o locums yn anorfod.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar yr ymdrech i geisio cael mwy o staff i ymuno â'r Fforwm Cydraddoldeb.
    - Mynegwyd bod y gwaith cychwynnol o ddarganfod beth yw'r diddordeb wedi ei gynnal a gwahoddiad wedi ei anfon i staff. Nodwyd bod diddordeb mawr ymysg staff a bod yr Adran yn aros i weld beth fydd yr ymateb yn dilyn i ail wahoddiad gael ei anfon wythnos diwethaf.
- Mynegwyd llongyfarchiadau ar lwyddiant y rhaglen Merched mewn Arweinyddiaeth gan nodi ei bod yn braf gweld y cynnydd. Amlygwyd y gwahaniaethau yn rhaniad dynion a merched rhwng Adrannau a rhwng haenau swyddi. Cwestiynwyd os yw'n amserol i werthuso'r rhaglen a chymharu'r gwahaniaethau rhwng Adrannau er mwyn gweld beth sy'n gweithio'n dda er mwyn parhau i ddysgu ac edrych ar ffyrdd newydd i wthio'r agenda hir dymor yma yn ei flaen.
    - Mewn ymateb nodwyd bod y data yn cael ei ddiweddaru'n gyson. Soniwyd am drefn newydd ers blwyddyn o geisiadau i swyddi lefel Rheolwr Gwasanaeth neu uwch gael eu cyflwyno yn ddienw er mwyn ceisio cael gwared ar unrhyw ragfarn ddiarwybod. Adroddwyd bod 50% o'r penodiadau sydd wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf i swyddi Rheolwr Gwasanaeth neu uwch wedi cael eu llenwi gan ferched sy'n galonogol iawn. Ychwanegwyd ymhellach bod mwy o ferched na dynion wedi cyflwyno ffurflen gais am y swyddi a bod hyn yn rhan holl bwysig o waith

y rhaglen Merched Mewn Arweinyddiaeth sef i annog merched i gyflwyno cais.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:00pm

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
11 MAWRTH 2025

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor

**Pwnc:** Bidiau Un Tro 2025/26

**Swyddog cyswllt:** Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Yn ddarostynedig ar benderfyniad y Gyllideb, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo y bidiau un-tro o £2,057,260 ar gyfer 2025/26 sydd i'w cyllido o'r:

- £1,557,260 o gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Chwefror 2025.
- £500,000 o Bremiwm Treth Cyngor at ddibenion llety dros dro i'r Digartref.

1.2 Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru y bydd arian ychwanegol i'r maes gofal, yn ddarostyngedig ar fanylion ac amodau y grant hwn, defnyddio'r ffynhonnell i ariannu y bidiau yn y maes gofal.

## 2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad

Mae'r bidiau am adnodd un-tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod ein cyllideb refeniw flynyddol nac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad hwn cyn dechrau y flwyddyn ariannol 2025/26 fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2025.

## 3. Cyflwyniad / Cefndir

3.1 Yn flynyddol gwahoddir adrannau'r Cyngor i gyflwyno bidiau am adnodd un tro ar gyfer materion megis ymdopi gyda phwysau dros dro, cyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor, trawsffurfio gwasanaethau neu arbrofi cyn dod i gasgliad os yw'n synhwyrol darparu cyllideb barhaol.

3.2 Er fod nifer o fidiau wedi eu cyflwyno gan yr adrannau, rhaid oedd blaenoriaethu a chyfyngu ar y bidiau oedd i dderbyn cymeradwyaeth i sicrhau eu bod o fewn y cyllid sydd ar gael.

3.3 Yn arferol Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor sydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r bidiau un-tro. Defnyddiwyd y gronfa hon yn llawn y llynedd ac felly nid oes arian o'r ffynhonnell yma ar gael i gyllido unrhyw fidiau eleni. Os am ariannu bidiau dros dro yn y dyfodol bydd angen ystyried sut i ail gyflenwi y gronfa trawsffurfio yma pan fydd cyfleon yn codi.

3.4 Yn ogystal, mae'r gronfa Strategaeth Ariannol, sef yr unig ffynhonnell arall o gronfeydd sydd heb ei ymrwymo ar gyfer materion penodol, eisoes wedi lleihau o £26M i £13.5M eleni gan fod galw ar y gronfa i gyfarch gorwariant adrannol.

3.5 Wrth fynd ati i osod ein cyllideb ar gyfer 2025/26, roeddem ar y pryd yn ymwybodol y byddem yn debygol o dderbyn cyllid ychwanegol i'r hyn gyhoeddwyd yn y setliad drafft i Lywodraeth leol cyn y Nadolig. Felly, yn hytrach na chynnwys gwariant refeniw un-tro yn y gyllideb refeniw ddrafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu ac yna i'r Cabinet am benderfyniad, ac felly cynyddu ein bwlch ariannol (ac yn sgil hynny gwthio'r dreth Cyngor yn uwch na fyddai ei angen) gadawyd y dasg o ystyried sut i gyllido y gofynion gwario un tro yma tan i ni dderbyn y setliad terfynol.

3.6 Erbyn hyn rydym wedi derbyn cadarnhad fod cyllid ychwanegol bellach wedi ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'r cyllid hwn ar gael fel cyfraniad tuag at gost cyllido'r bidiau un tro sydd yn yr adroddiad hwn.

3.7 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi y bydd grant ychwanegol tebygol i gynorthwyo gyda phwysau ychwanegol yn y maes gofal yn 25 / 26. Nid yw manylion faint o arian ychwanegol na'r amodau wedi ei rannu hyd yma ond petai'r cyfle yn codi, awgrymir ei ddefnyddio i ddisodli y bidiau yn y maes gofal. Gellir wedyn ryddhau arian at ddefnydd anghenion refeniw y flwyddyn i ddod.

3.8 Golyga hyn fod ein penderfyniad i beidio a chynnwys y gofynion hyn o fewn y gyllideb drafft, ac o ganlyniad cynyddu'r gofyn Treth Cyngor yn uwch nag oedd angen, wedi bod yn gyfrifol a synhwyrol. Mae'r arian ychwanegol wedi cael ei ymgorffori yn y Gyllideb a gyflwynir i'r Cyngor ar Fawrth y 6ed at y pwrpas penodol o ariannu bidiau un-tro (gyda gwaddol o tua £14,000 yn cael ei roi mewn cronfa risg).

## 4. Bidiau Un-tro 2025/26

4.1 Mae'r bidiau a dderbyniwyd wedi eu hasesu gennyf i, y ddau gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid a cyflwynir yn **4.2** fanylion y bidiau un-tro a argymhellir i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer 2025/26.

4.2 Argymhellir cymeradwyo 7 o fidiau gwerth £2,057,260 fel sydd wedi eu rhestru yn **Nhabl 1** isod. Mae'r arian ychwanegol y setliad i'w defnyddio fel ffynhonnell i gyllido gwerth £1,557,260 o'r bidiau yma.

**Tabl 1 Bidiau Refeniw Un-tro 2025/26**

| | **Teitl y Bid** | **Swm a argymhellir (£)** |
|---|---|---|
| **Adran Addysg** | | |
| Un Tro 1 | Cludiant addysg – bysus ysgolion, cludiant tacsis a threnau. | 939,160 |
| **Adran Gwasanaethau Corfforaethol** | | |
| Un Tro 2 | Profion ar hap alcohol a chyffuriau | 6,500 |
| Un Tro 3 | Sefydlu system diogelwch staff sy'n mynychu lleoliadau risg uchel ar ben eu hunain | 57,600 |
| Un Tro 4 | Cywiro cyfraddau tal cyfartalog (*equated pay*) | 339,000 |
| **Adran Tai ac Eiddo** | | |
| Un Tro 5 | Costau llety argyfwng Digartrefedd | 500,000 |

| | | |
|---|---|---|
| **Adran Plant** | | |
| Un Tro 6 | Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | 115,000 |
| **Adran Oedolion** | | |
| Un Tro 7 | Llety Cefnogol – Oedolion gydag Anableddau | 100,000 |
| **CYFANSWM** | | **2,057,260** |

4.3 Fel sydd eisoes wedi ei esbonio yn yr adroddiad hwn, mae ein cronfeydd wrth gefn wedi lleihau'n sylweddol ac mae angen ceisio eu sefydlogi. Bu sawl cyfeiriad at hyn gan Aelodau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth iddynt drafod toriadau a chyllideb 26/27 yn eu cyfarfod ar Chwefror 6ed, gyda sawl awgrym y dylem ystyried defnyddio unrhyw arian ychwanegol ar ben y setliad drafft er mwyn gwarchod ein cronfeydd wrth osod cyllideb am y flwyddyn i ddod. Mae'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r dyhead hwnnw felly.

4.4 Mae hynny'n gadael gwaddol o £500,000 lle bydd angen adnabod ffynhonnell gyllido ar ei gyfer. Mae bid ar gyfer y swm yma yn y maes digartrefedd, yn benodol i ariannu gorwariant ar gostau llety dros dro. Mae £3M y flwyddyn o'r Premiwm treth Cyngor eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ariannu'r costau hyn ac felly mae'n briodol ariannu'r £500K un tro o'r un ffynhonnell.

4.5 Bydd angen ystyried sgil effaith hynny wrth gynllunio gwariant ar ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio rheoli unrhyw effaith ar y cynlluniau sydd eisoes yn rhan o'r Cynllun. Mae gwaith yn mynd rhagddo i geisio sefydlu'r ffordd mwyaf synhwyrol o wneud hynny.

**5. Casgliad**

5.1 Yn dilyn cymeradwyaeth i'r bidiau a nodir yn Rhan 1 o'r adroddiad, bydd yr arian yn cael ei glustnodi ar gyfer y pwrpas fel bod Adrannau yn gallu gweithredu i wario ar y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26.

5.2 Wrth baratoi cyllideb y flwyddyn ddilynol (2026/27) bydd angen ail ymweld â'r meysydd hyn er mwyn sefydlu os fydd angen gwneud darpariaethau parhaol yntau oes modd rhyddhau'r swm fydd wedi ei ddynodi eleni ar gyfer blaenoriaethau eraill wrth gychwyn gosod cyllideb 2026/27.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Fe nodir yn yr adroddiad fod y penderfyniad a geisir yn adlewyrchu y setliad terfynol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar yr 20fed o Chwefror. Mae y gallu i gyfarch y bidiau yma felly yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor i fabwysiadu y Gyllideb a argymhellir.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio’n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor ar 6 Mawrth i ddyrannu’r arian setliad ychwanegol i gyllido’r bidiau un-tro, rwyf yn fodlon fod adnoddau digonol wedi eu hadnabod, fel sydd wedi ei ddangos yn rhan 3.5, i ariannu’r bidiau un-tro a welir yn Tabl 1.

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Asesiad Perfformiad Panel |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys |
| **Swyddog perthnasol:** | Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Mawrth 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Cytuno ar amserlen ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel yn ystod wythnos 9fed o Fawrth 2026.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad gan Banel unwaith o fewn cylch etholiadol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2022.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Fel y nodir uchod mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad gan Banel unwaith o fewn cylch etholiadol.

Nodir fod rhyddid i'r Cyngor benderfynu ar bwy ddylai gynnal a chydlynu'r asesiad panel ac ar ei amseriad felly mae angen arweiniad ar hynny. Mae'n angenrheidiol dilyn tair dyletswydd statudol wrth gynnal asesiad panel:

- Paratoi (pennu'r cwmpas, cylch gorchwyl, aelodaeth ayyb)
- Asesu (cynnal yr asesiad, cyflwyno canfyddiadau)
- Cam dilynol (llunio'r adroddiad terfynol, ymateb y cyngor)

Yn dilyn mabwysiadu newidiadau i'r Cyfansoddiad ynglŷn ag Asesiad Perfformiad Panel gan y Cyngor Llawn ar y 28ain o Fedi 2023 gosodwyd y swyddogaeth i drefnu a phenodi panel gyda'r Cabinet ond fod yr ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cadw i'r Cyngor Llawn.

Mae'r ddyletswydd hon yn gysylltiedig gyda'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad. Yn yr un modd bydd yr asesiad gan banel yn edrych yn benodol ar y graddau y mae'r Cyngor:

- yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol:
- yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol: ac
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

Fe'ch atgoffir bod y Cabinet eisoes wedi trafod yr Asesiad Perfformiad Panel yn ei gyfarfodydd ar y 7fed o Dachwedd 2023 a'r 17eg o Fedi 2024 a bod nifer o benderfyniadau eisoes wedi eu gwneud. Dyma restr o'r penderfyniadau hyn:

- Cynnal Asesiad Perfformiad Panel yn ystod tymor yr Hydref 2024 gan gomisiynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi'r gwaith.
- Cymeradwyo cynnwys y Ddogfen Gwmpas Asesiad Perfformiad Panel drafft a'r meysydd sydd wedi eu hadnabod i'r Panel edrych arnynt.
- Dirprwyo'r hawl i benderfynu ar aelodaeth o'r Panel gan ddal sylw ar gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr.

Gan nad oedd Arweinydd mewn lle a'r ffaith fod nifer o seddi gwag ar y Cabinet ym mis Tachwedd 2024 penderfynwyd gohirio'r Asesiad Perfformiad gan Banel gyda'r bwriad o'i gynnal ar amser cyfleus yn ystod 2025/26.

O ganlyniad, mae angen i'r Cabinet gytuno ar amserlen newydd ar gyfer cynnal yr asesiad. Wrth wneud hyn bydd angen ystyried yr ymrwymiadau sydd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eisoes i gefnogi cynghorau ar draws Cymru a'r angen i'r adroddiad terfynol fod wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn o leiaf 6 mis cyn dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yng Nghymru ym mis Mai 2027.

**3.2 Beth fydd yr Asesiad Panel yn edrych arno?**

Mater i'r Cyngor fydd penderfynu ar gwmpas y gwaith gan ystyried unrhyw heriau sydd wedi eu hamlygu mewn hunanasesiadau, archwiliadau gan archwilwyr allanol a materion sydd ar ein cofrestr risg.

Bydd yr asesiad yn edrych ar dystiolaeth er mwyn galluogi aelodau'r panel i ddod i gasgliad ynghylch y graddau y mae'r Cyngor yn cyfarch y 3 gofyn perfformiad isod. Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion perfformiad ynghyd a'r egwyddorion arweiniol ar gyfer y gofynion a nodir yn y Fethodoleg Drafft sydd wedi ei chyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd cyfres o gwestiynau wedyn o dan wahanol themâu y bydd angen i'r Panel roi ystyriaeth iddynt.

| |
|---|
| **Gofyniad Perfformiad Un: Y graddau y mae'r cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.** |
| **Egwyddor Arweiniol: Mae'r cyngor yn hunanymwybodol ac yn gallu dangos ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Lle mae angen gwella, mae ymyraethau addas wedi'u dynodi heb oedi, a dylent gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaeth<br>• Rheoli Perfformiad |
| **Gofyniad Perfformiad Dau: Y graddau y mae'r cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon.** |

| |
|---|
| **Egwyddor Arweiniol: Mae adnoddau'n cael eu halinio'n effeithiol i gynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei amcanion a'i swyddogaethau statudol ac mae'r cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Gwasanaeth<br>• Digidol a data.<br>• Cynllunio Ariannol<br>• Y Gweithlu<br>• Caffael<br>• Risg a Sicrwydd<br>• Asedau |
| **Gofyniad Perfformiad Tri: Y graddau y mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad un a dau.** |
| **Egwyddor Arweiniol: Mae trefniadau llywodraethu clir a chadarn, sy'n annog diwylliant agored a thryloyw sy'n croesawu prosesau craffu a herio adeiladol.** |
| **Ystyriaethau i'r Panel**<br>Cwestiynau ar y themâu:<br>• Gwerthuso<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant sefydliadol<br>• Llywodraethu Ariannol<br>• Y Gallu i Wella |

Yn ogystal, mae cyfle i'r Cyngor adnabod meysydd lle byddai ystyriaeth gan y Panel yn cael ei groesawu. Ceir rhestr isod o'r meysydd y mae'r Cabinet eisoes wedi penderfynu y byddai o fudd i'r Panel fod yn edrych arnynt fel rhan o'r asesiad (Noder fod y Grŵp Llywodraethu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi bod yn rhan o'r broses o adnabod y meysydd hyn). Er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf o ymweliad y Panel a'u bod yn ychwanegu gwerth i'n gwaith awgrymir eu bod yn canolbwyntio yn bennaf ar y materion sydd wedi eu lliwio mewn melyn ar y rhestr:

- Capasiti/gallu i fod yn cyflawni ein blaenoriaethau i'r dyfodol – ydi adnoddau wedi eu halinio hefo'n blaenoriaethau?
- Arweinyddiaeth a llywodraethiant sefydliadol - pa mor effeithiol yw hyn yn wleidyddol a rheolaethol ac a yw'n cael ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau cryf? A ydynt yn caniatáu i'r Cyngor ymateb i sialensiau gan newid a thrawsffurfio er mwyn ymateb i'r sialensiau?
- Oes gennym drefniadau addas yn eu lle i fesur sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid/trigolion?
- Profi effeithiolrwydd ein cynlluniau neu brosiectau o fewn Cynllun y Cyngor presennol
- Cynnal asesiad o'r materion craidd o fewn gofynion y Ddeddf:
    - Gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol
    - Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a
    - Trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod
- Edrych ar y graddau y mae diwylliant y Cyngor ac ein ffordd o weithio (Ffordd Gwynedd) wedi treiddio o fewn y sefydliad a'r gwahaniaeth y mae wedi ei wneud.
- I ba raddau yr ydym wedi ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein gwaith?

- Hunanasesiadau'r Cyngor a threfniadau er mwyn ymateb i'r materion sydd angen eu gwella.
- Edrych ar ein gwaith a chynlluniau ym meysydd cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol gan awgrymu unrhyw welliannau

Ceir copi drafft o'r Ddogfen Gwmpas i'r Asesiad Perfformiad Panel Statudol yn **Atodiad** 1. *(Noder mae hon yw'r ddogfen a baratowyd ar gyfer yr asesiad yn Tachwedd 2024 felly bydd angen ei diweddaru ar ddiwedd 2025).*

Os bydd y Cabinet yn cytuno hefo'r amserlen a awgrymir o ran cynnal yr asesiad awgrymir ein bod yn ailymweld hefo'r meysydd uchod ar ddiwedd 2025 er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.

Bydd yr asesiad yn gyfuniad o waith pen desg ynghyd â chyfweliadau a gwaith ar safle. Fel rhan o'r asesiad mae'n debyg y bydd y Panel yn awyddus i gwrdd ag ystod eang o aelodau, swyddogion a rhanddeiliaid megis yr Arweinydd, Holl Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid, Grwpiau Ffocws amrywiol a swyddogion o sefydliadau partner.

Nodir nad oes disgwyliad i'r Cyngor baratoi unrhyw ddeunydd ychwanegol ar gyfer yr asesiad ond bydd y panel angen mynediad i nifer o ffynonellau gwybodaeth a dogfennau sydd eisoes yn bodoli megis yr Adroddiadau Perfformiad, Hunanasesiadau a'r Datganiad Llywodraethu blynyddol.

Yn ystod cyfnod yr asesiad bydd adborth dyddiol yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ar gynnydd y gwaith.

Ar ddiwedd yr asesiad bydd cyflwyniad ar y prif ganfyddiadau a'r argymhellion yn cael ei gyflwyno. Yn ogystal, bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei chyflwyno (lle bydd cyfle i'r Cyngor wirio ei gywirdeb ffeithiol) a'r Cyngor sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Bydd angen i'r Cyngor hefyd baratoi ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion fel y nodir yn y canllawiau statudol.

**3.3 Y Panel ac amseriad yr adolygiad**

Fel y soniwyd eisoes bu'n rhaid gohirio cynnal yr asesiad yn ystod mis Tachwedd 2024. Mae argaeledd y tîm o fewn Cymdeithas Llywodraeth Cymru (fydd yn cefnogi'r gwaith) yn eithaf cyfyngedig dros y misoedd nesaf o ganlyniad i ymrwymiadau sydd ganddynt eisoes i gefnogi cynghorau eraill ar draws Cymru. O ganlyniad, awgrymir cynnal yr asesiad yn ystod yr ail wythnos ym Mawrth 2026 (wythnos yn cychwyn 9fed o Fawrth).

Byddwn wedi paratoi 4 hunanasesiad erbyn hynny ac fe ddylem fod mewn sefyllfa i allu cyflwyno'r adroddiad terfynol ynghyd ac ymateb y Cyngor i gyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2026.

Mae'r panel yn debygol o gynnwys 4 person fydd yn cynnwys Cadeirydd annibynnol; cymar o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach; uwch swyddog llywodraeth leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd (lefel PW neu Gyfarwyddwr) ac uwch aelod etholedig (o'r tu allan i'r Cyngor).

Mae trafodaethau eisoes wedi'i gynnal hefo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch aelodau arfaethedig ar gyfer y Panel gyda rhai aelodau posibl wedi'i hadnabod sydd hefo'r arbenigeddau a'r sgiliau fydd eu hangen. Bydd angen sicrhau bod yr unigolion ar gael ar y dyddiadau sydd gennym dan sylw a bod eu harbenigeddau yn parhau i fod yn berthnasol i'r meysydd y bydd yr asesiad yn edrych arno. Awgrymir felly ein bod yn aros hyd y byddwn wedi cadarnhau'r sgôp terfynol ar gyfer yr asesiad cyn cadarnhau aelodau'r Panel.

Rydym wedi derbyn sicrwydd gan y bydd aelodau o'r Panel ar ein cyfer ni yn medru'r Gymraeg (er mae'n debyg y bydd dipyn yn llai o aelodau posibl). Bydd y Swyddog Gwelliant/Cyswllt yn medru'r Gymraeg hefyd.

Bydd gwaith paratoi yn digwydd cyn cyfnod y Panel 'ar safle' hefo'r Cyngor er mwyn casglu'r holl dogfennau gofynnol a gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae'n debyg y bydd aelodau'r Panel yn awyddus i gynnal cyfweliadau/sesiynau trafod gydag aelodau etholedig a swyddogion allweddol.

**3.4 Camau nesaf**

Wedi derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r amserlen ddiwygiedig byddwn yn hysbysu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gallu symud ymlaen hefo'r gwaith. Dros y misoedd nesaf byddwn yn cadarnhau'r sgôp terfynol ar gyfer yr asesiad ac ar aelodau'r Panel.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Mae cynnal asesiad panel fel a ddisgrifir yn yr adroddiad yn ofyn statudol. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**4.2 Swyddog Monitro**

Mae'r asesiad Panel cyntaf ar gyfer Cyngor Gwynedd yn cynrychioli un brif elfennau y gyfundrefn berfformiad newydd a grëwyd yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gallaf gadarnhau fod yr addasiadau i'r Cyfansoddiad a nodwyd yn yr adroddiad yn weithredol. Gyda'r oediad a fu ac ail drefnu amserlen mae'n briodol fod y Cabinet yn cael cyfle i adolygu y trefniadau ac yn benodol dyddiad yr asesiad Fe nodir yn yr adroddiad fod penderfyniadau ar gyfer trefnu y Panel eisoes wedi eu gwneud.

**Rhestr Atodiadau:**
**Atodiad 1** - Dogfen Gwmpas i'r Asesiad Perfformiad Panel Statudol

Dogfen Gwmpas i'r Asesiad Perfformiad Panel Statudol

Cyngor Gwynedd 2024/25

DRAFT

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o Le
    - Poblogaeth a Demograffeg
    - Amddifadedd ac iechyd
    - Iaith Gymraeg
    - Demograffig Busnes
    - Diwydiant
    - Heriau Hinsawdd Lleol

3. Gweledigaeth ar gyfer yr Ardal a Blaenoriaethau Lleol
    - Cynllun y Cyngor
    - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
    - Datganiad Llywodraethu
    - Cofrestr Risg y Cyngor

4. Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sefydliadol

5. Llywodraethu

6. Rheoli Adnodd a Diwylliant
    - Cyllid
    - Dylunio Sefydliad a Gweithlu

7. Blaenoriaethau Gwella a Chamau Gweithredu Cynlluniedig


DRAFT

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad Panel **unwaith** o fewn cylch etholiadol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2022.

Mae'n angenrheidiol dilyn tair dyletswydd statudol wrth gynnal asesiad panel:

- Paratoi (pennu'r cwmpas, cylch gorchwyl, aelodaeth ayyb)
- Asesu (cynnal yr asesiad, cyflwyno canfyddiadau)
- Cam dilynol (llunio'r adroddiad terfynol, ymateb y cyngor)

Mae'r ddyletswydd hon yn gysylltiedig gyda'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad. Yn yr un modd bydd yr asesiad gan banel yn edrych yn benodol ar y graddau y mae'r Cyngor:

- yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol:
- yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol: ac
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

Bydd yr asesiad yn edrych ar dystiolaeth er mwyn galluogi aelodau'r panel i ddod i gasgliad ynghylch y graddau y mae'r Cyngor yn cyfarch y 3 gofyn perfformiad a nodir uchod.

Yn dilyn ymgynghori hefo Tîm Rheoli'r Cyngor ac Aelodau'r Cabinet penderfynodd y Cabinet y dylid cynnal Asesiad Perfformiad Panel Statudol Cyngor Gwynedd yn ystod Hydref 2024. Erbyn hynny byddwn wedi cynnal 3 cylch o hunanasesiadau erbyn hynny a bydd yr amseriad yn rhoi amser i ni gynnal yr asesiad a rhoi camau yn eu lle i ymateb a gweithredu ar unrhyw argymhellion a wneir erbyn yr etholiad llywodraeth leol nesaf yn 2027.

Bydd yr adolygiad gan Banel yn edrych ar yr hunanasesiadau sydd eisoes wedi eu paratoi gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf. Fel rhan o baratoi ar gyfer yr asesiad mae ystyriaeth wedi ei roi i'r meysydd yr ydym fel Cyngor yn awyddus i gael barn neu adborth diduedd gan banel annibynnol yn ei gylch. Ceir rhestr o'r materion hyn yn rhan 7 o'r ddogfen hon.

Y gobaith yw y bydd yr asesiad yn arwain at nifer o argymhellion fydd yn ychwanegu gwerth ac yn arwain at welliannau yng ngwaith y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y Sir.  Rydym yn croesawu'r sialens allanol ac annibynnol fel un o'r ffyrdd y gallwn sicrhau ein bod yn gwneud gwelliant parhaol.

O ystyried y sialensau presennol yr ydym yn eu hwynebu rydym yn awyddus i'r asesiad ganolbwyntio ar y cwestiynau craidd a amlinellir uchod. Mae Cynllun y Cyngor (Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru) wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod 2023-28 (adolygwyd 2024) a Strategaeth Ariannol (Strategaeth ariannol (llyw.cymru) yn ei lle (gyda Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei datblygu) ond rydym yn awyddus i daro y balans cywir rhwng ein uchelgais a'r cyfyngiadau sy'n bodoli a byddem yn gwerthfawrogi adborth ar sut y gellir gwneud hynny mewn modd cynaliadwy i'r dyfodol.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi wynebu nifer o sialensau mawr digynsail fel y pandemig, Brexit, argyfwng costau byw a'r wasgiad ariannol sydd arnom fel awdurdodau lleol a rhagwelir y bydd y sefyllfa hyn yn debygol o barhau i'r dyfodol.

## 2. Trosolwg o Le

Mae Gwynedd yn un o ardaloedd mwyaf amrywiol a phrydferth Cymru, ac mae'n gadarnle i'r iaith Gymraeg.

Mae'n cynnwys ardal o 2,535 $km^2$ sy'n ei gwneud yr ail sir fwyaf yng Nghymru yn ôl arwynebedd tir. Mae'n rhannu ffiniau gyda siroedd Conwy, Dinbych, Powys, Ceredigion ac Ynys Môn.
Mae 80% o Barc Cenedlaethol mwyaf Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, yn ardal Gwynedd.

**Poblogaeth a Demograffeg**
Yn 2021, roedd yna 117,393 o bobl yn byw yng Ngwynedd – gostyngiad o 3.7% ar y boblogaeth yn 2011 (121,874). Dros Gymru gyfan gwelwyd cynnydd o 1.4% yn y boblogaeth dros yr un cyfnod.

| Ardal | Poblogaeth 2021 | Poblogaeth 2011 | +/- % |
|---|---|---|---|
| Ardal Pen Llŷn | 7,796 | 8,524 | -8.5% |
| Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth | 9,759 | 10,323 | -5.5% |
| Bro Ardudwy | 6,331 | 7,157 | -11.5% |
| Bro Dysynni | 6,946 | 7,514 | -7.6% |
| Bro Ffestiniog | 6,077 | 6,479 | -6.2% |
| Bro Lleu / Nantlle | 9,659 | 9,665 | -0.1% |
| Bro Ogwen | 8,213 | 8,351 | -1.7% |
| Bro Peris | 11,374 | 11,685 | -2.7% |
| Dalgylch Bala / Penllyn | 4,422 | 4,362 | 1.4% |
| Dalgylch Bangor | 20,486 | 21,092 | -2.9% |
| Dalgylch Caernarfon | 11,082 | 10,777 | 2.8% |
| Dalgylch Dolgellau | 5,234 | 5,477 | -4.4% |
| Dalgylch Pwllheli | 9,994 | 10,468 | -4.5% |
| **Gwynedd** | **117,393*** | **121,874** | **-3.7%** |

* *Ffigyrau'r ardaloedd unigol ddim yn adio i union gyfanswm Gwynedd oherwydd dull y Swyddfa Ystadegau Gwladol o addasu rhywfaint ar ffigyrau ardaloedd bychan i warchod cyfrinachedd*

Mae 15.3% o bobl Gwynedd o dan 15 oed, o'i gymharu ag 16.5% drwy Gymru gyfan. Mae 23.3% o bobl Gwynedd yn 65 oed neu hŷn, o'i gymharu â 21.3% drwy Gymru gyfan. Rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol (42%) yn y nifer o bobl 75+ oed ar draws y Sir erbyn y flwyddyn 2043 sy'n golygu fod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yn debygol o fod yn ardaloedd Y Bala a Penllyn sef (57.5%) ac ardal Tywyn gyda'r cynnydd canrannol lleiaf sef 17%.

**Iaith Gymraeg**
Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3+oed) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 65.4%.

**Tai**
Mae prisiau a fforddiadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y sir ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd. Pryder arall sydd wedi ei amlygu gan gymunedau yw'r sefyllfa ail dai / tai haf. Amlygwyd hyn gan drigolion y sir yn ystod ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus Ardal Ni 2035 gyda'r materion hyn wedi eu nodi fel un o'r o'r pum prif flaenoriaeth sy'n ymddangos ymhob un o'r 13 ardaloedd adfywio lleol a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymarferiad.

**Twristiaeth**
Yn seiliedig ar ffigyrau model STEAM (Scarborough Tourism Economic Assessment Model), cyn y cyfnod Covid-19, roedd y sector twristiaeth wedi tyfu i fod yn cyfrannu dros £1.35bn i economi Gwynedd ac yn cyflogi dros 18,200 o bobl gyda 7.81m o ymwelwyr yn ymweld yn flynyddol. Heb os felly mae'r sector dwristiaeth yn bwysig i economi Gwynedd, fodd bynnag, mae twristiaeth hefyd yn gallu creu pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus a byd natur.

Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar y sector llety a bwyd yn y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.

**Heriau Hinsawdd Lleol**
Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon.


Bwriad y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yw amlinellu pa gamau y byddwn yn eu cymryd rhwng 2022 a 2030 er mwyn cyrraedd ein nod o fod yn gyngor carbon sero net.

Mae rhannau o Wynedd yn wynebu dyfodol ansicr iawn wrth i lefel y môr gynyddu, a rhagwelir y bydd rhai cymunedau yn gorfod ail-leoli dros y blynyddoedd nesaf oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd, tra y bydd bygythiadau cyson yn wynebu eraill.


Gyda chyfran lawer uwch o arfordir o'i chymharu â siroedd eraill yng Nghymru, un o sgìl effeithiau fwyaf amlwg newid hinsawdd yw llifogydd. Yng Ngwynedd, mae 11,285 o eiddo mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd / sy'n cael eu hamddiffyn rhag llifogydd.

### Economi

Dengys ystadegau diweddaraf yr ONS (2023) fod cyflogau Gwynedd ymysg yr isaf ym Mhrydain:




Yn ogystal, mae incwm blynyddol cartrefi yng Ngwynedd ymysg yr isaf ym Mhrydain (£17,430) Data diweddaraf ONS 2021:



## 3. Gweledigaeth ar gyfer yr Ardal a Blaenoriaethau Lleol

### Cynllun y Cyngor

Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 2ail o Fawrth 2023. Y Cynllun yw'n datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n datgan ein gweledigaeth a'n huchelgais am 5 mlynedd ynghyd a'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni. Adolygwyd y Cynllun ar gyfer 2024/2025. Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl blwyddyn o weithredu, yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn. Bu i'r Cyngor Llawn gytuno ar adolygiad y Cynllun yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth, 2024. Ceir manylion llawn yr adolygiad ar ein gwefan.

Yn dilyn ymgynghoriad eang gyda phobl Gwynedd fel rhan o gynllun Ardal Ni 2035, ynghyd â nifer o drafodaethau ac adborth gan drigolion y sir a thu hwnt, lluniwyd cyfres o flaenoriaethau a phrosiectau a fydd yn galluogi i ni ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd ymhellach. Wrth gwrs, dim ond rhan o weithgareddau'r Cyngor a welir yn Cynllun y Cyngor, ac mae'r gwaith dyddiol o ddarparu gwasanaethau yn parhau ledled y sir.

Rydym yn anelu'n uchel dros y pum mlynedd nesaf ac yn gweithio'n galed er mwyn cyrraedd pob uchelgais sydd wedi ei gosod ar gyfer y blaenoriaethau yn y cynllun. Er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu'r cynllun yn gyson ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer pob prosiect er mwyn caniatáu i ni fesur ein cynnydd yn flynyddol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd 2023-2028 o dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  *Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc*
- **Gwynedd Lewyrchus**
  *Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*
- **Gwynedd Glyd**
  *Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau*
- **Gwynedd Ofalgar**
  *Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau*
- **Gwynedd Gymraeg**
  *Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*
- **Gwynedd Werdd**
  *Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd*
- **Gwynedd Effeithlon**
  *Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon*

Y meysydd blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae hi'n gyfnod anodd yn ariannol, a does dim dwywaith y bydd hi'n her i'r Cyngor gyflawni pob un o'r prosiectau ar amser. Fodd bynnag, byddwn yn anelu'n uchel dros



DRAFT

y pum mlynedd nesaf ac yn gweithio'n galed er mwyn cyrraedd pob uchelgais sydd wedi ei gosod ar gyfer y blaenoriaethau yn y Cynllun. Er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu'r Cynllun yn gyson ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer pob prosiect er mwyn caniatáu i ni fesur ein cynnydd yn flynyddol.

Mae trefniadau herio a chefnogi perfformiad yn eu lle i adrodd ar gynnydd y prosiectau bob deufis i'r Aelod Cabinet perthnasol a'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol. Yn ogystal cyhoeddir adroddiad perfformiad gan Aelodau Cabinet unigol ddwywaith yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys cynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor[*atodi dogfen yn cynnwys gwybodaeth am ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad]*

Nodir ei bod yn ddyddiau cynnar o safbwynt gweithredu Cynllun y Cyngor ond dengys adroddiad trosolwg o gynnydd yr holl brosiectau a gyflwynwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 23ain o Ebrill 2024 fod 24 prosiect allan o 36 (67%) wedi cyflawni'r hyn a nodwyd ar gyfer y flwyddyn gyda'r 12 arall wedi cyflawni'n rhannol [linc i'r adroddiad trosolwg]. Mae camau yn eu lle eisoes er mwyn cytuno ar gerrig milltir ar gyfer blwyddyn 2 a gweddill cyfnod y Cynllun er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r hyn a nodir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.

Yn dilyn y broses ymgysylltu Ardal Ni mae 13 cynllun adfywio unigol wedi eu datblygu sydd yn adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol Gwynedd. Mae'r Cynlluniau i'w gweld ar wefan Ardal Ni 2035. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Cynlluniau Adfywio Lleol wedi eu selio ar:
*"Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, llewyrchus ac egnïol gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i anghenion lleol ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd"*

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**
Mae gan y Bwrdd weledigaeth bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i sicrhau bod ein cymunedau yn ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor. Mae Cynllun Llesiant 2023-2028 yn amlinellu sut bydd hyn yn cael ei gyflawni a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd a Môn.

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant lleol yn 2022 (gwaith ymchwil wnaethpwyd i ddeall a dysgu mwy am lesiant ardaloedd o fewn Gwynedd a Môn), yn ogystal â cynnal gweithdai ac ymgynghori yn lleol dyma dri Amcan Llesiant y Bwrdd ar gyfer 2023-2028:

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.

Yr Iaith Gymraeg
Mae'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac yn cael ei hyrwyddo ym mhob maes o'r gwaith. Mae'r Bwrdd yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg.

DRAFT

Gweler copi o'r Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-2028 ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ers lansio'r Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-2028 mae'r Bwrdd wedi cychwyn ar y gwaith o baratoi cynlluniau cyflawni sydd yn dilyn methodoleg System Gyfan a Pwysau Iach/Cymru Iach i fynd i'r afael â'u tri amcan llesiant. Yn ogystal, mae gwaith yn parhau gyda'r flaenoriaeth barhaol bod y iaith Gymraeg yn treiddio drwy holl waith y Bwrdd, a penodwyd IAITH Cyf gan is-grŵp iaith Gymraeg y Bwrdd i ymchwilio i heriau a llwyddiannau cynllunio gweithlu dwyieithog ymhlith sefydliadau sy'n rhan o'r tri Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru ar draws Gogledd Cymru.

Mae gwaith wedi cychwyn ar gydweithio ar y Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach gan weithio ar Ddull System Gyfan, hyrwyddo a gweithredu ar Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru, a treialu digwyddiadau yn ein cymunedau a sut gellir ymateb i heriau cysylltiedig i'r amcan sero net carbon.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n gweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth. Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Twf, gyda'r bwriad o gynhyrchu buddsoddiad o dros £1 biliwn ar gyfer Gogledd Cymru.

Yn ogystal mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Sefydlwyd hwn fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i wella lles y boblogaeth a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'n dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

DRAFT

## 4. Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sefydliadol

Mae Cyngor Gwynedd wedi'i lunio o 69 o Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd. Mae'r 69 Cynghorydd yn eistedd ar y Cyngor Llawn ac mae'r Cyngor yn gweithredu drwy drefn Cabinet a Phwyllgorau Craffu. Mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan Plaid Cymru. Isod mae cyfansoddiad gwleidyddol presennol y Cyngor:

Plaid Cymru: 46
Annibynnol: 21
Grŵp Llafur – Rhyddfrydol: 2
Cyfanswm: 69

Mi gafwyd newid i'r nifer wardiau etholiadol o flaen llaw Etholiad 2022 gan leihau nifer y wardiau o 75 i 69. Mae hyn wedi golygu newid ffiniau wardiau, yn ogystal â chynyddu faint o wardiau sydd â mwy nag un aelod.

**Y Cyngor Llawn:** Cyfarfod ffurfiol o'r holl Gynghorwyr yw'r Cyngor Llawn. Yn y cyfarfodydd maent yn gosod y gyllideb bob blwyddyn ac yn cymeradwyo nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol sydd yn ffurfio Fframwaith Polisi cyffredinol y Cyngor. Bydd y Cyngor yn cyfarfod 5 gwaith y flwyddyn ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gwe ddarlledu yn fyw er mwyn sicrhau mynediad i bawb.

**Y Cabinet:** Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd ac yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor. Mae gan bob un o'r Aelodau bortffolio penodol o gyfrifoldeb am feysydd o fewn gwasanaethau'r Cyngor (Economi a Chymuned, Cefnogaeth Gorfforaethol, Addysg, Cyllid, Amgylchedd, Oedolion Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Tai, Priffyrdd Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd.) Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Nia Jeffreys (Porthmadog: Dwyrain). Mae Cynghorydd Menna Trenholme yn Ddirprwy Arweinydd (Bontnewydd).

**Cadeirydd y Cyngor:** Mae Cyngor Gwynedd yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd bob 12 mis yn ei gyfarfod blynyddol. Mae'r Cadeirydd yn llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor ac mae'n cynrychioli Cyngor Gwynedd mewn digwyddiadau dinesig a seremonïol. Yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Gwynedd ar 9 Mai, 2024 etholwyd y Cynghorydd Beca Roberts (Tregarth a Mynydd Llandygai) yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Ioan Thomas (Menai (Caernarfon)) yn Is-Gadeirydd.

**Pwyllgorau Craffu:** Mae 3 Pwyllgor Craffu yng Ngwynedd, sydd i gyd yn cyfarfod o leiaf 5 gwaith y flwyddyn:

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Gofal

**Tîm Rheoli Corfforaethol**
Y Tîm Rheoli Corfforaethol yw haen reolaethol uchaf y Cyngor. Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Penaethiaid Adran a'r Swyddog Monitro, ac mae'n gyfrifol am wireddu blaenoriaethau strategol y Cyngor yn ogystal â sicrhau llywodraethiant effeithiol.

Dafydd Gibbard yw’r Prif Weithredwr, y swyddog uchaf ac mae’n gyfrifol am yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Penodwyd i’w swydd yn mis Mai, 2021. Mae rôl y Prif Weithredwr yn cynnwys:

- **Arweinyddiaeth:** Gweithio gydag Aelodau Etholedig y Cyngor i sicrhau arweinyddiaeth a chyfeiriad cryf a gweladwy. Annog a galluogi rheolwyr i gymell ac ysbrydoli eu staff i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.
- **Cyfeiriad strategol:** Gwireddu’r blaenoriaethau strategol a osodwyd gan Aelodau Etholedig y Cyngor a rhanddeiliaid, trwy sicrhau fod staff yn eu deall a’u dilyn.
- **Cyngor polisi:** Gweithredu fel y prif gynghorydd polisi i Aelodau Etholedig y Cyngor.
- **Partneriaethau:** Arwain a datblygu partneriaethau cryf gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau a grwpiau gwirfoddol ar draws Gwynedd a thu hwnt i wella ansawdd bywyd yn y Sir.
- **Llywodraethiant:** Goruchwylio a chydlynu rheolaeth ariannol a pherfformiad, rheoli risg a rheoli newid o fewn y Cyngor.

Mae pedwar adran ym mhortffolio’r Prif Weithredwr. Yn y meysydd hyn, mae’r Prif Weithredwr yn arwain ar waith strategol yn ogystal â threfniadau herio perfformiad.

- Economi a Chymuned
- Amgylchedd
- Tai ac Eiddo
- Addysg

Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn dirprwyo ar gyfer a chefnogi'r Prif Weithredwr. Maent yn gyfrifol am yr adrannau a nodir isod. Yma, mae’r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn arwain ar waith strategol yn ogystal â threfniadau herio perfformiad.

Huw Dylan Owen yw’r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Gwasanaethau Cymdeithasol).
Penodwyd i’w sydd ym mis Hydref 2022.
Mae'r adrannau isod ym mhortffolio'r Cyfarwyddwr yma:

- Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Oedolion, Iechyd a Llesiant

Geraint Owen yw’r ail Gyfarwyddwr Corfforaethol, penodwyd i’w swydd ym mis Awst 2022.
Mae'r adrannau isod ym mhortffolio'r Cyfarwyddwr yma:

- Cefnogaeth Gorfforaethol
- Cyllid a TG
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

## 5. Llywodraethu

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefn llywodraethu addas yn ei le. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae canllaw yn cael ei ddarparu er mwyn yn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd y Pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.

Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a 6 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government. Ceir copi o'r fersiwn ddiweddaraf o Ddatganiad Llywodraethu'r Cyngor yma – [angen cynnwys linc i'r ddogfen]

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol [linc i'r gofrestr neu gopi ohoni] yn cynnwys 25 o risgiau Llywodraethu. Dengys sgoriau y risgiau hyn fod 2 faes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, 4 yn risg uchel ac 11 yn risg canolig. Ceir crynodeb o'r risgiau lefel uchel iawn ac uchel isod:

Risg uchel iawn

- Cyllid – Gwendidau wrth reoli arian cyhoeddus.
- Diogelu – Methu amddiffyn plant rhag camddefnydd o rym-rhesymol mewn ysgolion.

Risg uchel

- Diwylliant - Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn.
- Gwybodaeth - Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol.
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant - Trefniadau a gweithredu anniogel gan Wasanaethau y Cyngor i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol.
- Cyswllt Cwsmer - Diffyg ymateb yn amserol i ymholiadau.

Mae camau gweithredu yn eu lle er mwyn ymateb i'r risgiau hyn.



DRAFT

Bu i hunanasesiadau yn y gorffennol ac adroddiadau diweddar gan Archwilio Cymru adnabod ymgysylltu a gwella cyfranogiad fel maes i dderbyn sylw a mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb.  Mae hyn yn cynnwys ceisio gwella sut yr ydym yn rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am waith y Cyngor ynghyd a chael mwy a gwell amrywiaeth o gynrychiolaeth (gan gynnwys unigolion a grwpiau hefo nodweddion gwarchodedig) pan fyddwn yn ymgysylltu ac ymgynghori.

Fel rhan o'n hymateb cyhoeddwyd Strategaeth Cyfranogiad yn 2023 sy'n egluro sut yr ydym yn annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.
Mae strategaeth gyfranogi'r cyhoedd y Cyngor yn disgrifio sut fydd y Cyngor yn:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut all pobl ddod yn Gynghorydd a beth mae'r rôl yn ei olygu;
- hwyluso mynediad at wybodaeth ynghylch y penderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y Cyngor;
- hyrwyddo'r trefniadau lle y gall pobl wneud sylwadau i'r Cyngor ynghylch y penderfyniadau y mae wedi'u gwneud neu y bydd yn eu gwneud yn y dyfodol;
- sicrhau fod barn y cyhoedd yn cael ei ddwyn i sylw ei Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg Cynghorwyr o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Rydym hefyd yn croesawu cwestiynau ffurfiol gan y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn. Mae trefniadau penodol ar gyfer hynny, gan gynnwys rhoi rhybudd ysgrifenedig digonol o flaen llaw.

## 6. Rheoli Adnodd a Diwylliant

**Cyllid**

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth, 2024 sefydlwyd cyllideb Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25. Mae'r gyllideb refeniw o £331,814,710 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £233,316,780 a £98,497,930 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 9.54% ar incwm aelwydydd unigol). Yr un pryd, sefydlwyd rhaglen gyfalaf o £85,224,800 yn 2024/25 ac roedd penderfyniad y Cyngor yn cynnwys cymeradwyo'r dulliau o ariannu'r rhaglen.

Mae'r gyllideb hon wedi ei gosod mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 a 2023/24 na gwelwyd ei debyg ers degawdau, ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllideb 2024/25.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor yn amlygu byddai angen cynyddu ein gwariant o £22.7m erbyn 2024/25 dim ond er mwyn "sefyll yn llonydd". Fodd bynnag, cynnydd o £5.1m a dderbyniwyd mewn ariannu allanol (gyda £639k ychwanegol i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).

Gwelwyd yn yr adroddiad fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25. Mae cyllideb 2024/25 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, a penderfyniad y Cyngor oedd cynnydd 9.54% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn, byddwn angen chwilio am arbedion ychwanegol a defnyddio cronfeydd i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

Mae arbedion sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Hydref 2023. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2024, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Chwefror 2024 cyn i'r Cabinet ystyried ei argymhelliad i'r Cyngor ar 20 Chwefror 2024.

Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfran sylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, rhai gafodd eu hadnabod wrth osod cyllideb 2023/24 yn ogystal ag arbedion newydd.

**Blaenoriaethau Caffael**

Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn cadw at ei Reoliadau Caffael. Nod y tîm yw cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol. Mae hefyd trefniadau Rheolaeth Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn ei le er mwyn edrych ar gaffael yn strategol a rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad, gan annog fwy o gydweithio.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y sir.

**Dylunio Sefydliad a Gweithlu**

Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf bob amser. Ein huchelgais yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 ar gyfer Gwynedd Effeithlon yw:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Prif nod y prosiect Cynllunio'r Gweithlu o fewn Cynllun y Cyngor ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg.

Mae gweledigaeth y Cyngor am y cyfnod 2023-28 yn adnabod yr angen i sefydlu a gweithredu Cynllun Digidol fel un o'r prif amcanion gwella ym maes blaenoriaeth "Gwynedd Effeithlon". Mae'r maes blaenoriaeth hwnnw yn un o'n saith amcan llesiant am y cyfnod dan sylw, ac mae rôl greiddiol gan y Cynllun Digidol er mwyn gosod y seiliau ar gyfer gwireddu pob un o'r chwe amcan arall hefyd. Mewn cyfnod heriol yn ariannol, bydd ein defnydd o dechnoleg ddigidol a'n gallu i gyflawni prosiectau'r Cynllun hwn yn mynd i chwarae rhan allweddol yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i bobl Gwynedd yn y dyfodol.

Mae rhagor o fanylion am brosiectau eraill Gwynedd Effeithlon sy'n mynd i'r afael â dylunio'r sefydliad a'r gweithlu o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 ar gael yma.

**Ffordd Gwynedd** yw'r enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym ni yng Cyngor Gwynedd wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl y Sir yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Nid proses na syniad damcaniaethol mohono ond yn hytrach casgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn edrych ar y gwasanaeth trwy lygaid y defnyddiwr.

Mae datblygu'r diwylliant yma yn golygu bod angen cael gwared a'r rhwystrau sy'n atal ein gweithwyr rhag gwireddu a bod hynny'n arwain at her barhaus i'r ffordd y byddwn yn gweithio. Mae'n golygu gweithio ar draws ffiniau strwythurol mewnol y Cyngor er mwyn cyflawni'r hyn sydd ei angen, gan greu a chynnal amgylchedd gwaith sy'n cynnwys pawb. Mae o hefyd yn hyrwyddo a chefnogi llesiant meddyliol a chorfforol ein gweithwyr yn

ogystal â pharchu egwyddorion gweithredu allweddol yng nghyd-destun cydraddoldeb ac iaith.

Ceir rhagor o wybodaeth ar gael yn y llyfryn hwn: Ffordd Gwynedd 2023-2028

DRAFFT

## 7. Blaenoriaethau Gwella a Chamau Gweithredu Cynlluniedig

Bob blwyddyn rydym fel Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol er mwyn esbonio, yn glir ac yn gytbwys, beth yr ydym wedi ei gyflawni dros y flwyddyn flaenorol.

Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 yn pwyso a mesur sut yr ydym wedi ymateb i'r blaenoriaethau oedd wedi eu cyhoeddi yn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23: Adolygiad 2022/23 (Cynllun y Cyngor). Ceir copïau o adroddiadau perfformiad blynyddol blaenorol [yma].

Fel y nodwyd eisoes rydym yn mesur ein perfformiad yn barhaus drwy'r flwyddyn ac mae Aelodau'r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd y Cabinet dwywaith y flwyddyn (yn ychwanegol i'r Adroddiad Blynyddol) yn disgrifio'r cynnydd. Mae aelodau o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor hefyd yn rhan o'r broses barhaus hon o herio perfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn dod â'r adroddiadau cynnydd yma at ei gilydd ac yn pwyso a mesur y llwyddiant dros y flwyddyn.

Mae gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn golygu fod angen i'r Cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad ac mae ein Hunanasesiad ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Rhan 3 o'r Adroddiad.

Erbyn yr amser y bydd yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn cael ei gynnal fe fyddwn wedi cwblhau 3 hunan asesiad ac wedi adnabod gwelliannau fel rhan o'r broses hynny gan hefyd roi camau yn eu lle er mwyn ymateb i'r materion a amlygwyd.

Yn flynyddol cynhelir sesiwn Sicrwydd ac Asesu Risg rhwng y Cyngor a'r prif gyrff rheoleiddio (Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn). Mae'r sesiwn yn gyfle i drafod sicrwydd, risgiau ac unrhyw bynciau ar gyfer ystyriaeth pan fydd y rheoleiddwyr yn llunio eu rhaglenni ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ceir rhestr o'r prif faterion (sicrwydd a risg) a amlygwyd yn y sesiwn a gynhaliwyd ar y 4ydd o Chwefror 2025 yma – [linc i'r ddogfen sicrwydd a risg].

Gwelwyd nifer o newidiadau mawr dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys Brexit, y pandemig, argyfwng costau byw a'r wasgfa ariannol sydd wedi golygu blynyddoedd heriol iawn i'r Cyngor, sefyllfa sy'n debygol o barhau i'r dyfodol. Teimlir ei bod yn amserol i ni gymryd stoc o lle'r ydym arni ac i dderbyn adborth annibynnol ar gynnydd ein gwaith yn erbyn ein blaenoriaethau ac argymhellion ynghyd a'r hyn y gallwn ei wneud i wella.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yr hyn y dylai'r Asesiad gan Banel edrych arno ac o'r farn y dylid edrych ar y meysydd canlynol gan ganolbwyntio ar y rhai mewn melyn:

- Capasiti/gallu i fod yn cyflawni ein blaenoriaethau i'r dyfodol – ydi adnoddau wedi eu halinio hefo'n blaenoriaethau?
- Arweinyddiaeth a llywodraethiant sefydliadol – pa mor effeithiol yw hyn yn wleidyddol a rheolaethol ac a yw'n cael ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau cryf? A ydynt yn caniatáu i'r Cyngor ymateb i sialensau gan newid a thrawsffurfio er mwyn ymateb i'r sialensau?

- Oes gennym drefniadau addas yn eu lle i fesur sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid/trigolion?
- Profi effeithiolrwydd ein cynlluniau neu brosiectau o fewn Cynllun y Cyngor presennol
- Cynnal asesiad o'r materion craidd o fewn gofynion y Ddeddf:
    - Gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol
    - Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol; a
    - Trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod
- Edrych ar y graddau y mae diwylliant y Cyngor ac ein ffordd o weithio (Ffordd Gwynedd) wedi treiddio o fewn y sefydliad a'r gwahaniaeth y mae wedi ei wneud.
- I ba raddau yr ydym wedi ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein gwaith?
- Hunanasesiadau y Cyngor a threfniadau er mwyn ymateb i'r materion sydd angen eu gwella.
- Edrych ar ein gwaith a chynlluniau ym meysydd cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol gan awgrymu unrhyw welliannau. (Awgrym Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

DRAFT

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11/03/2025** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Paul Rowlinson** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Carys Fon Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **3436** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Prydlesu cyn safle Ysgol Abersoch i Menter Rabar** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle Ysgol Abersoch yn uniongyrchol i Fenter Rabar am lai na rhent y farchnad, er mwyn gwireddu buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.

### 3 CYFLWYNIAD

Yn dilyn adroddiadau a gyflwynwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd ar yr 28ain o Fedi 2021 a’r 9fed o Dachwedd 2021, bu i Ysgol Abersoch gau ar y 31ain o Rhagfyr 2021. O ganlyniad, ac yn unol a’r Polisi Ôl-Ddefnydd Ysgolion, sefydlwyd Menter Rabar fel grŵp cymunedol (nid-er-elw) er mwyn creu cyfleuster er budd y gymuned leol, gyda'r dyhead o sicrhau defnydd cymunedol o’r safle.

Mae cais wedi ei gyflwyno gan Fenter Rabar i gymryd prydles hir dymor o Ysgol Abersoch, a hynny am swm enwol er mwyn sefydlu Hwb Cymunedol amlbwrpas. Mae’r Fenter wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau arian grant ar gyfer ymgymryd â gwedd gyntaf y gwaith adnewyddu, ac yn awyddus i symud ymlaen i wireddu’r cynllun.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Yn ei gyfarfod ar y 15fed o Fedi 2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Adeiladau Ysgolion. Cydnabyddai'r Polisi fod cynlluniau ad-drefnu yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn cael eu gwaredu yn unol â'r egwyddorion, polisïau gwaredu a'r gofynion statudol arferol.

Fodd bynnag, mae'r Polisi Ôl-ddefnydd hefyd yn rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd trosglwyddiad o'r eiddo.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gan Menter Rabar er mwyn casglu barn y gymuned ar yr hyn y byddent yn dymuno ei weld yn yr Ysgol. Mae canlyniadau'r arolwg hwnnw, ynghyd a chanlyniadau ymatebwyr o Abersoch i arolwg 'Ardal Ni 2035' Cyngor Gwynedd (2022), arolwg Anghenion Gofal Plant Cyngor Gwynedd (Gorffennaf 2023) a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid, wedi eu hystyried wrth i'r Fenter fynd ati i ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y safle.

Derbyniwyd cynllun busnes gan y Fenter yn ystod 2024, ynghyd a chais i gymryd prydles o'r safle'r ysgol am gyfnod o 99 mlynedd am swm enwol er mwyn datblygu HWB Cymunedol Aml-bwrpas fyddai'n ymgorffori'r canlynol:

- Caffi cymunedol.
- Arddangosfa dreftadaeth.
- Ystafell aml-ddefnydd i gynnal gweithgareddau a chyrsiau.
- Unedau busnes i'w gosod.
- Gardd gymunedol.

Roedd y cais yn amodol ar allu'r Fenter i sicrhau ffynonellau ariannu a hawl cynllunio er eu galluogi i wireddu'r cynllun.

Mae hawl cynllunio wedi ei sicrhau ers mis Rhagfyr 2024, a rhagwelir y bydd cyfanswm y gost o wireddu'r datblygiad yn ei gyfanrwydd yn oddeutu £595,000. Mae'r Fenter wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am £300,000 o gronfa Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae £100,000 yn ychwanegol wedi ei gasglu trwy ffynonellau amrywiol. Bydd y swm yma o £400,000 yn ddigonol i gyfarch costau adnewyddu'r adeilad, ac i ariannu costau rhedeg cychwynnol y fenter. Mae'r fenter yn y broses o ymgeisio am gyllideb bellach i wireddu'r ail wedd o'r gwaith datblygu, sef gosod y gofod treftadaeth ac unedau busnes.

Mae parodrwydd Llywodraeth Cymru i ryddhau'r arian grant o £300,000 yn amodol ar fod Menter Rabar yn derbyn Prydles hirdymor gan Gyngor Gwynedd, ac fe ddengys Cynllun Busnes y Fenter na fyddai'r prosiect yn hyfyw pe codir rhent masnachol am yr adeilad.

Mae hawl gyfreithiol gan y Cyngor yn unol â phwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Ebrill) 2003 i waredu am lai na rhent y farchnad mewn achosion lle mae buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn cael eu darparu.

Ystyrir y byddai gwaredu yn uniongyrchol i Fenter Rabar ar gyfer datblygu'r HWB yn hwyluso'r buddiannau canlynol:-

Buddion Economaidd:
- Hybu a hyrwyddo'r economi leol gan greu gofod i fusnesau fydd yn cefnogi entrepreneuriaid.
- Creu swyddi newydd parhaol a thymhorol yn yr ardal.
- Potensial i ddenu ymwelwyr ac incwm o du allan i'r ardal.
- Bydd unrhyw elw fydd yn weddill yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau pellach gan greu cylch economaidd cadarnhaol.

Buddion Cymdeithasol:
- Darparu cyrchfan i'r gymuned gan gynnig cyfleoedd i rwydweithio a datblygu sgiliau newydd trwy'r gweithgareddau a gynigir.
- Potensial i gefnogi cenedlaethau amrywiol o'r gymuned drwy gynnig gwasanaethau fydd yn cefnogi teuluoedd, hybu cynhwysiant, a chefnogi iechyd a llesiant.
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth yr ardal a hybu'r iaith Gymraeg.

Buddion Amgylcheddol:
- Cyfrannu tuag at amgylchedd lleol iachach, gwarchod bioamrywiaeth ac annog arferion bwyd cynaliadwy drwy ddarparu gardd gymunedol yng nghanol y pentref.
- Lleihau ôl-troed Carbon drwy wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad, darparu pwyntiau gwefru i geir trydan, a chreu lleoliad canolog i'r gymuned ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau amrywiol.

Byddai derbyn yr argymhelliad a defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Ebrill) 2003 er mwyn amrywio oddi wrth y Polisi Gwaredu Cyffredinol ac Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn golygu hepgor y cyfle i werthu'r eiddo a chynhyrchu derbynneb gyfalaf.

Pe bai'r eiddo yn cael ei werthu ar y farchnad agored, rydym o'r farn fod y gwerth marchnad agored oddeutu £150,000.

Felly mae angen i aelodau'r Cabinet gloriannu'n ofalus y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn erbyn y golled ariannol posib.

Dylid nodi mai prydlesu'r eiddo ydi'r bwriad. Mae Menter Rabar yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn yr eiddo, a phe bai'r cynllun yn methu am unrhyw reswm, bydd yr eiddo yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor. Bryd hynny byddai modd i'r Cyngor gymryd penderfyniad i waredu ar y farchnad agored pe bai'n dymuno gwneud hynny.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn cyfarwyddo'r Gwasanaeth Cyfreithiol i roi prydles mewn lle rhag blaen. Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ryddhau'r

arian grant i Menter Rabar er eu galluogi i addasu'r ysgol a gwireddu'r cynllun gyda'r bwriad o agor y ddarpariaeth yn ystod 2026.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

**Prif Swyddog Cyllid:**

"Yn sylweddoli y bydd llai o dderbyniadau cyfalaf, ond wrth bwyso yn erbyn y budd i'r gymuned drwy'r fenter gymdeithasol, dim gwrthwynebiad i'r hyn sy'n cael ei gynnig".

**Swyddog Monitro:**

"Rwy'n fodlon fod y penderfyniad a geisir yn ddefnydd priodol o'r hawl sydd ar gael dan y Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Ebrill) 2003 i waredu eiddo am lai na gwerth y farchnad . Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi y safbwynt yma".

**Sylwadau'r Aelod Lleol – John Brynmor Hughes:**

"Yn fy marn i, mae'r Fenter yn wych i be rydym ni eisiau ei wneud yn Abersoch. Dw i'n meddwl y bydd yn rhywbeth llwyddiannus i bobl leol, tebyg i be mae Nefyn wedi wneud yn Yr Heliwr. Mae tim cryf wedi dod at ei gilydd i'w sefydlu ac maent wedi gwneud yn dda iawn hyd yma i ddod a'r pentref at ei gilydd yn barod drwy weithgareddau codi arian a thynnu sylw at y Fenter.

Dw i'n meddwl fod posibilrwydd ehangach byth i'r hyn sy'n cael ei drafod hyd yma, ac mae'r grantiau a'r arian perthnasol mewn lle erbyn hyn, ond ni all llawer mwy gael ei wneud heb sicrwydd fod yr adeilad yn cael ei drosglwyddo".

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol: Diweddariad** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Adran Amgylchedd** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Mawrth 2025** |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Cydnabyddiaeth o ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) drafft a'r prosesau cysylltiedig â hyn.

1.2 Cymeradwyo yr ymateb **[Atodiad 5]** i'r ymgynghoriad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae angen statudol i'r Cydbwyllgor Corfforedig (CbC) gynhyrchu CTRh. Mae Cyngor Gwynedd yn aelod o'r CbC. Mae manylder pellach wedi ei ddarparu ymhellach yn yr adroddiad.

**3. Cyflwyniad - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)**

**Y CTRh a chynnyrch ategol**

3.1. Mae'r CTRh yn ddogfen strategol sy'n amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer system trafnidiaeth y rhanbarth, yn cynnwys y nodau, yr amcanion a'r polisïau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r rhwydwaith a'r gwasanaethau trafnidiaeth.

3.2 Bydd y CTRh hwn yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu Llwybr Newydd, strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a chyfrannu at lwyddiant, adfywio a datblygiad ein rhanbarth.

**Yr angen am CTRh**

3.3 Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth wedi'i nodi yn Neddf Trafnidiaeth 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Trosglwyddwyd y ddyletswydd hon i CbCs ar 30 Mehefin 2022, gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Felly, mae gan CbC y Gogledd ddyletswydd i gynhyrchu CTRh i ogledd Cymru. Rhaid i'r CbC ddatblygu polisïau awdurdodau lleol weithredu Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Rhaid i'r polisïau hyn gynnwys cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth lle mae:

- Angen cwrdd ag anghenion pobl sy'n byw neu'n gweithio yn y rhanbarth, sy'n ymweld neu sy'n teithio drwy'r rhanbarth;
- Angen ar gyfer cludo llwythi; a
- Chyfleusterau a gwasanaethau i gerddwyr.

3.4 Rhaid i CTRh ystyried anghenion trafnidiaeth personau anabl (o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a phersonau sy'n hŷn neu sydd â phroblemau symudedd, ac ystyried goresgyn rhwystrau yn fwy ehangach.

**Perchnogaeth y CTRh a chynnyrch ategol**

3.5 Y CbC sy'n berchen ar yr CTRh, sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac ar gyfer ei ddatblygu a'i fabwysiadu.

**Cefnogaeth gweithredu y CTRh**

3.6 Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae o ran gweithredu'r CTRh. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau sy'n cael eu hadnabod yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

3.7 Mae gweithrediad y CTRh yn cael ei gefnogi gan Drafnidiaeth Cymru, fydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu cyflawni. Hefyd, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi cyflawniad ein dyheadau rheilffordd, ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adnabod gwelliannau i'r rhwydwaith bws wrth i ni symud tuag at fasnachfreinio.

3.8 Bydd Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) yn cefnogi cyflwyniad ein dyheadau rhwydwaith ffyrdd strategol, fel y cyrff sy'n gyfrifol am reoli, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol.

**Cymeradwyo’r CTRh a’r camau dilynol**

3.9 Mae'r is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gyfrifol am baratoi a datblygu'r CTRh, gyda’r cyfrifoldeb am ei gymeradwyo wedi'i gadw i'r CbC yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yr amserlen ar gyfer cymeradwyo yw mis Gorffennaf 2025.

3.10 Unwaith y bydd y CTRh yn cael ei gymeradwyo, bydd yn siapio'r gwelliannau trafnidiaeth sy'n cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Ni fydd grantiau ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth ond ar gael ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi amcanion yr CTRh. Disgwylir y bydd unrhyw welliannau trafnidiaeth fydd yn cael eu cyflawni yng Ngogledd Cymru yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Sut mae'r arian Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gweithredu**

3.11 Ar hyn o bryd, mae bidiau yn cael eu cyflwyno gan bob awdurdod lleol bob blwyddyn. Mae bidiau yn cael eu hasesu a'u dyfarnu gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau yn cael eu derbyn. Cyflwyno’r cynllun ac fe wneir hawliadau chwarterol sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso. Ar hyn o bryd, mae saith cronfa gyda phrosesau yn gofyn am fidiau ar wahân.

3.12 Bellach, mae rhaglen moderneiddio grantiau ar y gweill i adolygu'r broses hon.

**Beth yw'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol**

3.13 Mae Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh) drafft yn amlinellu'r camau penodol sydd eu hangen i weithredu'r amcanion a'r polisïau ehangach a nodir yn ein CTRh.

3.14 Mae ein CCTRh yn nodi'r ymyraethau y bydd ein hawdurdodau lleol yn bwrw ymlaen â nhw dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n cynnwys ein blaenoriaethau dros amser, yn ystyried y costau a'r effeithiau tebygol, a'n cyfraniadau at ein hamcanion rhanbarthol.

3.15 Mae'r CCTRh ar ffurf rhestr o gynlluniau sy'n cael eu gosod (rancio) yn nhrefn blaenoriaeth o ran yr effaith o gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau. Rhain yw'r cynlluniau y mae awdurdodau trafnidiaeth lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r CTRh. Nid yw'n cynnwys cynlluniau 'cefnffyrdd' strategol, na phrosiectau rheilffyrdd, a fyddai'n cael eu darparu gan gyrff eraill fel Llywodraeth Cymru a Network Rail.

3.16 Mae’r cynlluniau yn y CCTRH wedi ei rancio ar y sail ganlynol:

- Blaenoriaeth Uwch
- Blaenoriaeth Ganolig
- Blaenoriaeth Is

Mae hyn yn seiliedig ar allbwn o system oedd yn ystyried a mesur y cynlluniau o safbwynt:

- Ardrawiad Amgylcheddol
- Ystyriaethau Tir
- Ystyriaethau Cynllunio a Cyfreithiol
- Derbyniad Rhanddeiliad
- Ymgynghori
- Aflonyddwch
- Adeiladadwyedd

3.17 Mae’r cynlluniau yn gymysgedd o gynlluniau sydd yn adlewyrchu dyheadau lleol a/neu hanesyddol, cynlluniau a gynigwyd gan Drafnidiaeth Cymru a chynlluniau penodol sydd wedi cyrraedd lefel o aeddfedrwydd. Maent yn cynnwys amrediad o gynlluniau gwahanol o ran maint, natur, sgôp a chost gyda rhai yn benodol/lleol yn ogystal â rhai mwy cyffredinol. Gweler **Atodiad 1.**

**Yr Arfarniad Llesiant Integredig**

3.18 Mae gofyn cael Asesiad Llesiant Integredig (ALlI) fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae ein ALlI yn dangos sut fydd ein polisïau yn cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth asesiadau effaith sydd wedi cael eu gwneud i ystyried materion megis yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

3.19 Nid dim ond ymarferiad 'ticio bocs' yw'r ALlI. Rhaid defnyddio'r wybodaeth yn yr ALlI i gynnwys buddion yn y dyluniad ac eithrio unrhyw effeithiau niweidiol posib o'r dyluniad. Rhaid i'r ALlI ddangos sut yr ymdriniwyd â llesiant a dylai adnabod yr effeithiau positif a negyddol a dangos sut mae unrhyw effeithiau negyddol wedi'u hosgoi neu eu lliniaru.

3.20 Dylai'r ALlI ymdrin â phedwar cwestiwn allweddol, yn seiliedig ar y pedair uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

- Sut fydd y rhaglen neu'r prosiect yn elwa pobl a chymunedau? (cydraddoldeb, iechyd, diogelwch a hyder)
- Sut fydd hyn o fudd i'r amgylchedd? (lleihau allyriadau carbon, buddiol i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff)
- Sut fydd hyn o fudd i lefydd a'r economi? (creu lleoedd, arloesi, cludo)
- Sut fydd hyn o fudd i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg? (y celfyddydau a chwaraeon a'r amgylchedd hanesyddol)

3.21 Wrth helpu i ateb y cwestiynau hyn, mae'r ALlI yn cael ei gefnogi gan amrediad o asesiadau effaith, yn cynnwys rhai sy'n statudol, megis Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Y Cynllun Monitro ac Arfarnu**

3.22 Rhaid i'r CTRh gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn rhanbarthol o ran cyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (STC) yn cael ei fonitro, ei fesur a'i werthuso. Rhaid i hyn gynnwys cyfraniad y rhanbarth i dargedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.

3.23 Mae ein Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys cyfres o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un. Mae’r mesurau yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr Arfarniad Lles Integredig (ALlI) ac maent yn tynnu ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a addaswyd ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gwaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro STC ac mae hwn yn cael ei ddiweddaru gan Drafnidiaeth Cymru yn barhaus.

3.24 Rhaid i CbC gyflwyno adroddiadau perfformio blynyddol ar CTRh i Lywodraeth Cymru pob blwyddyn. Bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu p'un a yw'r CTRh yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a p'un a oes unrhyw ganlyniadau na fwriadwyd. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn bwydo i mewn i'r CTRh dilynol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (CCTC) dilynol.

**Beth mae'r rhaglen CTRh wedi'i gyflawni hyd yma**

3.25 Yn ystod 2024, mae'r rhaglen wedi cyflawni:

- Y Cynllun Gweithredu CTRh sy'n diffinio'r tasgau, adnoddau a chyllideb sydd ei hangen i ddatblygu a chyflawni CTRh i Ogledd Cymru.
- Yr Achos dros Newid a'r Cynllun Ymgysylltu Rhan-ddeiliaid ategol sy'n darparu'r sail tystiolaeth a'r ymdriniaeth tuag at ymgysylltu.
- Cyflwynwyd adroddiad cwmpasu ALlI i ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) am gyfnod o 5 wythnos.
- Cynhyrchion drafft ar gyfer ymgynghori gan gynnwys: CTRh; Cynllun Monitro a Gwerthuso; CCTRh; ALlI; deunyddiau ymgynghori.

Mae **Atodiad 2** yn darparu crynodeb o’r prif cerrig milltir a llinyn amser yn gysylltiedig â’r CTRh.

**Ymgynghori ar y CTRh - Estyn Allan ac Ymgysylltu**

3.26 Gellir gweld a chynnig adborth ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft, ynghyd a'r dogfennau ategol, ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru:

[Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft) - Ymgynghoriad Cyhoeddus]

3.27 Fe wnaeth cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft agor ar yr 20 o Ionawr 2025 a fydd yn agored tan y 14 Ebrill 2025. Gweler copi o'r ddogfen Ymgynghori yn **Atodiad 3.**

3.28 Mae tîm canolog y CbC wedi cydlynu a chydweithio gyda'r ymgynghorwyr a gomisiynwyd i ddatblygu'r CTRh ar waith estyn allan ac ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth ac ennyn cyfranogiad fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CTRh.

3.29 Mae hyn wedi cynnwys cyd-weithio gyda swyddogion yn y maes cyfathrebu, yn ogystal â thrafnidiaeth, o fewn chwe awdurdod lleol y Gogledd. Mae esiamplau o'r hyn sydd wedi ei wneud i'r perwyl yma wedi ei gynnwys fel **Atodiad 4** sydd yn cynnwys:

- Datganiad i'r Wasg
- Cyfathrebu uniongyrchol gyda Gwleidyddion
- Rhannu gwybodaeth ar rwydweithiau cymdeithasol
- Cyfathrebu cyffredinol gydag Aelodau Etholedig

## 4. Ystyriaethau

4.1 Mae yna nifer o ystyriaethau yn gysylltiedig â datblygiad y CTRh. Yn y cyfnod byr gellir ystyried y canlynol fel crynodeb o'r prif rai.

4.2 Yn gyfansoddiadol fydd angen i awdurdodau lleol ystyried:

- Sut maent yn ymgysylltu gyda gwaith fel y CTRh o safbwynt ymgynghori a darparu mewnbwn i rywbeth maent eisoes wedi cyfrannu at ei ddatblygiad.
- Sut mae gweithrediad y CbC yn rhyngweithio gyda'r Awdurdodau Lleol hyn yn cynnwys ystyriaeth a chymeradwyaeth o waith fel y CTRh.
- Sut fydd y CbC yn gweithredu a neud penderfyniadau fydd yn aml yn ymwneud a materion lleol ar sail ranbarthol.

4.3 Mae'n gyfnod trawsnewidiol ym maes trafnidiaeth sydd yn cynnwys y canlynol:

- Newidiadau yn digwydd yn strwythurol yng nghyd-destun trafnidiaeth gyda, er enghraifft, dyfodiad y CbC a Thrafnidiaeth Cymru.
- Newidiadau yn digwydd o safbwynt dulliau, rhaglenni a ffynonellau cyllido Llywodraeth Cymru.
- Newidiadau posib yn flaenoriaethau a ffocws Llywodraeth Cymru ym maes trafnidiaeth.
- Newidiadau yn ddeddfwriaeth a modelau yn gysylltiedig â darpariaeth ym meysydd penodol sydd yn cynnwys bysiau.

## 5. Casgliadau

5.1 Mae'r sefyllfa strwythurol yn debygol o gymryd peth amser i ymsefydlu a gwir dweud nad yw'n ymddangos fod pob peth yn gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau yma yn hollol glir na wedi ei chadarnhau. Mae hyn yn debygol o arwain at sefyllfa ble bydd ansicrwydd o ran rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn perthnasedd a materion trafnidiaeth yng Nghymru. Esiampl o hyn fyddai oblygiadau ac effeithiau symud at fodel o fasnachfraint i gynnal a darparu gwasanaethau bws lleol yng Nghymru. Y tebygolrwydd yw mai Trafnidiaeth Cymru fydd yn arwain gydag awdurdodau lleol yn bartneriaid. Mae hyn eisoes wedi digwydd ar y cyfryw o safbwynt y rhwydwaith TrawsCymru.

5.2 Yng nghyd-destun y CTRh y CbC sydd yn gyfrifol am ei ddatblygiad fel cynnyrch yn ei hunan ond bydd y disgwyliad i wireddi'r dyheadau, disgwyliadau, amcanion a nodau yn debygol o ddisgyn, ar y cyfan, ar awdurdodau lleol. Bydd beth mae'r awdurdodau lleol yn medru ei gyflawni, i ran helaeth, yn dibynnu ar y cyllid fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

5.3 Fe fydd angen fod yn ofalus felly fod 'na gyswllt crediniol rhwng yr uchelgais strategol a be ellir ei gyflawni yn ogystal â rhwng y rhai fydd yn gyfrifol am osod y fframwaith a'r rhai fydd yn cael ei gweld fel bod yn gyfrifol am wireddi.

5.4 Mae angen fod yn ymwybodol a byw i'r ystyriaethau a gyfeiriwyd. Tra bydd y gallu i ddylanwadu yn uniongyrchol o bosib wedi ei gyfyngu bydd angen edrych i optimeiddio cyfleoedd er budd cymunedau Gwynedd.

5.5 Mae hyn yn debygol o olygu cyd-weithio agos gyda rhanddeiliaid allweddol eraill sydd yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru. Mae enghreifftiau llwyddiannus diweddar o hyn yn digwydd yn barod sydd yn cynnwys yr adolygiad traws sirol o'r rhwydwaith bysiau lleol ynghyd a phrosiectau Porth Caernarfon a Llanbedr.

5.6 Mae'r CTRh drafft yn cwrdd â'r gofynion a osodwyd yn y canllawiau. Mae'n cyd-fynd, cefnogi ac wedi ei alinio gyda Llwybr Newydd sydd yn hanfodol er mwyn datgloi ac ennill grantiau i weithredu cynlluniau..

5.7 Mae'r pryderon ehangach yn parhau fod strategaeth a dyraniad adnoddau Llywodraeth Cymru ddim yn cydnabod heb sôn am gyfarch deinamig, anghenion a dyheadau ardaloedd gwledig fel Gwynedd.

5.8 Mewn cyfnod lle bydd y CbC yn parhau i ymsefydlu fe fydd cyfrifoldeb sylweddol ar y corff hwnnw i gytuno ar flaenoriaethau cynlluniau a gwariant ar lefel rhanbarthol fydd yn parhau i ymwneud a gwireddi gynlluniau, ar y cyfan, lleol.

## 6. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

6.1 Mae angen statudol i'r CbC gynhyrchu CTRh. Mae Cyngor Gwynedd yn aelod o'r CbC.

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.1 Mae'r broses a gwaith o ddatblygu'r CTRh yn ddarostyngedig o Asesiad Llesiant Integredig (ALlI) fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).

**8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

8.1 Mae'r broses a gwaith o ddatblygu'r CTRh yn ddarostyngedig o Asesiad Llesiant Integredig (ALlI) fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).

**9. Argymhelliad**

9.1 Bod Aelodau'r Cabinet yn nodi dyfodiad Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i rôl yn datblygu a chyflwyno'r CTRh.

9.2 Bod Aelodau'r Cabinet yn awdurdodi'r Aelod Cabinet Adran Amgylchedd i ysgrifennu at Cadeirydd y CbC yn:

- cydnabod a llongyfarch y gwaith sydd wedi ei wneud yn paratoi'r CTRh drafft.
- cydnabod fod y CTRh drafft yn cwrdd a chanllawiau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu CTRh.
- nodi pryderon am faterion ehangach sydd yn dylanwadu ac effeithio darpariaeth trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig.

Gweler yr ymateb drafft **[Atodiad 5]**

**10. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**a. Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes ymrwymiad ariannol yn deillio o'r penderfyniad a geisir, ond mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddogfen allweddol a bydd yn effeithio ar brosiectau trafnidiaeth yn ardal Gwynedd pan ddaw'n weithredol.

**b. Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yma yn cynrychioli ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Er fod cynrychiolaeth o Wynedd ar y Cyd Bwyllgor Corfforedig a'r Is Bwyllgor Trafnidiaeth mae'r ymgynghoriad yma yn gyfle i Wynedd roi ymateb corfforaethol ar y Cynllun arfaethedig. Mater i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig yn arddel ei bwerau statudol dan Reoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig Y Gogledd f(Cymru) 2021 fydd cloriannu yr ymatebion a mabwysiadu y Cynllun mewn ffurf derfynol .

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cynlluniau Gwynedd |
| Atodiad 2: | Cerrig Milltir a Llinyn Amser yr CTRh 2025 |
| Atodiad 3: | Dogfen Ymgynghori |
| Atodiad 3: | Ymgynghori ar y CTRh - Estyn Allan ac Ymgysylltu |
| Atodiad 4: | Ymateb Drafft Aelod Cabinet Amgylchedd |

**Atodiad 1 -** Rhestr o'r cynlluniau

## A.1 Cynlluniau blaenoriaeth Uwch

| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 74 | Llwybrau Diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol, Gwynedd | Llwybrau diogel mewn cymunedau/ cludiant o'r cartref i'r ysgol ar draws y sir | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | <1m | <0.1m | Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau | Uwch |
| 100 | Gweithredu rhwydwaith trawsnewid bysiau Gwynedd | Byddai gan y Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau a gefnogir gan gyllid aml-flwyddyn amlderau uwch ac oriau gweithredu hwy, a fydd yn caniatáu nifer uwch o deithiau sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion teithio pobl a bydd hynny'n fwy deniadol ar gyfer teithio bob dydd. Gwneir gwelliannau i lwybrau Traws Cymru, amlder gwasanaeth ac oriau gweithredu yn y tymor byr | Bws a Choets | Gwynedd | Tymor byr | <1m | 5m-10m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Uwch |
| 105 | Rhwydwaith bysiau a choetsis gwledig rhanbarthol Gwynedd | Cyflwyno rhwydwaith o wasanaethau Fflecsi gwledig rhanbarthol gydag amlder gwasanaeth bob awr yn ymestyn i mewn i'r nosweithiau sy'n cysylltu aneddiadau gwledig ac sy'n cael eu gweithredu gan fflyd o fysiau a choetsis Fflecsi sy'n gyfforddus ar gyfer teithiau hwy. | Bws a Choets | Gwynedd | Tymor byr | 1-5m | 1m - 5m | Anhysbys | Uwch |
| 147 | Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr | Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda phartneriaid i nodi datrysiadau trafnidiaeth i wella mynediad a lliniaru problemau trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae hyn yn cael ei ddatblygu drwy'r broses WelTAG. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor byr | 15m - 50m | 0.1m - 0.25m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Uwch |
| 154 | Prosiect Porth Caernarfon | Fel rhan o raglen adfywio ehangach, adolygu seilwaith yn ardal Penllyn, Caernarfon i gynnwys trosffordd, maes parcio aml-lawr a chyfnewidfa fysiau. Y bwriad yw gweithredu prosiect sy'n ail-ddiffinio'r ardal fel porth allweddol, deniadol, cyfoes i gael mynediad i'r dref. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | 0.5m-1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Uwch |
| 162 | Cynnal a gwella priffyrdd, Gwynedd | Cynnal a Gwella Priffyrdd: Ystod o gynlluniau sy'n cynnwys gwella capasiti a diogelwch / gwella mannau cul a gwella cydnerthedd y Rhwydwaith Trafnidiaeth, gyda mesurau penodol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i adnewyddu goleuadau stryd a lliniaru perygl llifogydd. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor byr | 5m-15m | 1m - 5m | Cydnerthedd Ffyrdd | Uwch |

| Rhif Cynllun | Enw’r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 165 | Gwella pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus a chydlynu gwybodaeth, Gwynedd | Llunio strategaeth a phwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus, a fydd yn edrych ar ddarparu cynlluniau o bwyntiau gwefru. Cydlynu rhwng Awdurdodau Lleol i rannu gwybodaeth am ble mae pwyntiau gwefru, p'un a ydynt yn weithredol a faint maen nhw'n ei gostio. Gallai hyn fod trwy ddiweddariadau rheolaidd mewn cydweithrediad â darparwyr trydydd parti, fel Zap Maps. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor byr | <1m | 0.1m - 0.25m | Cronfa Allyriadau Isel Iawn | Uwch |
| 207 | Gwella Teithio Llesol Lleol mewn prif aneddiadau (Bethesda, Porthmadog, Caernarfon, Pwllheli, Tywyn, Y Bala, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Y Felinheli, Bethesda, Abermaw) | Gwella darpariaeth cerdded a beicio o fewn yr anheddiad dynodedig. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 15m - 50m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Uwch |
| 218 | Gwella'r Lôn Las. Gwella llwybrau beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn las Ogwen, Lôn Las Menai a Lôn Eifion | Parhau â'r rhaglen waith arfaethedig i wella'r rhwydwaith cerdded a beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn Las Menai, Lôn Las Eifion a Lôn Las Ogwen. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cyllid Llywodraeth y DU | Uwch |
| 220 | Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Gaernarfon | Creu llwybr aml-ddefnydd 6.4km ochr yn ochr â phriffordd bresennol rhwng Caernarfon a Llanrug. Bydd y cynllun yn cwblhau'r llwybr teithio llesol rhwng Llanberis a'r anheddiad dynodedig. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Uwch |
| 239 | Llwybr Teithio Llesol Chwilog i Afonwen | Creu llwybr 1KM Aml-ddefnydd sy'n cysylltu Chwilog gyda'r rhwydwaith teithio llesol ehangach | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor byr | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Uwch |
| 250 | Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Aberdyfi | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr newydd 3Km i gwblhau'r llwybr cerdded a beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor byr | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Uwch |

**A.2 Cynlluniau blaenoriaeth Canolig**

| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Gwella Mynediad i Eryri | Gwelliannau Mynediad i Eryri trwy ystod o fesurau gan gynnwys: Cynllun peilot arosfan dros nos i gartrefi modur a champerfaniau; darparu llwybrau teithio llesol gan gynnwys Glan Conwy i Gyffordd Llandudno, Betws y Coed i Lanrwst a Bethesda i Zip World, a gwelliannau i Ben-y-pas, Ogwen, Nant Gwynant a Geirionnydd. | Integ. | Gwynedd / Conwy | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cyllid Llywodraeth y DU | Canolig |
| 113 | Teithiau tacsi â chymhorthdal mewn ardaloedd gwledig i lenwi "bylchau" mewn trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd | Gwasanaethau tacsi â chymhorthdal i lenwi bylchau yn y gwasanaeth, fel system wrth gefn sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at dacsis am gost isel iawn i ddarparu ar gyfer "bylchau" gofod ac amser. Gall y bylchau fod yn adegau o'r dydd pan nad yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael neu ardaloedd gwledig anghysbell nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus eto. | Trafnidiaeth gymunedol a thacsis ar alw | Gwynedd | Uchelgeisiol | <1m | 1m - 5m | Anhysbys | Canolig |
| 119 | Gwelliannau Cydnerthedd Rhwydwaith Trafnidiaeth: Cryfhau pontydd mewn mannau cyfyng yng Ngwynedd | Mae'r cynllun arfaethedig yn golygu ail-ddecio, ailwampio a chryfhau'r pontydd sydd â chapasiti pwysau is-safonol ac sy'n destun mesurau monitro i leihau aflonyddu ar y cymunedau lleol. Bydd hyn yn cael ei weithredu fesul cam yn unol â blaenoriaeth | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | 1m - 5m | Cydnerthedd Ffyrdd | Canolig |
| 122 | Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Safleoedd Clwstwr Gwrthdrawiadau yng Ngwynedd | Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys dadansoddiad blynyddol o ddata gwrthdrawiadau i nodi safleoedd a choridorau clwstwr i nodi unrhyw angen am gynlluniau unigol yn y dyfodol i leihau nifer y damweiniau yn y safleoedd hyn ac yn gyffredinol, yn y rhanbarth. Dylai ffocws penodol fod ar leoliadau sydd â niferoedd anghymesur o anafiadau, yn benodol cynlluniau sy'n targedu grwpiau agored i niwed fel y nodwyd yn fframwaith diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cymru. Dylai cynlluniau penodol gynnwys arwyddo rhyngweithiol a lliniaru perygl llifogydd ar gysylltiadau lle mae mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau yn cael eu heffeithio. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd | Canolig |

| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 129 | Gwelliannau capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: Gwelliannau i'r B4366 Pengelli i Ffordd Bethel | Cynllun lledu'r ffordd rhwng Caernarfon a chylchfan Tyddyn Hen. Byddai'r cynllun yn gwella darn bychan o'r B4366 yn unol â safonau dylunio gweddill y ffordd. Gall hyn gynnwys darpariaeth llwybr aml-ddefnyddiwr fel rhan o'r cynllun | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Canolig |
| 152 | Gwell cysylltiadau â chyflogaeth: Adolygiad tagfeydd a pharcio yng Ngwynedd | Adolygiad o drefniadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd y telir amdanynt ac sy'n rhad ac am ddim i wneud y gorau o'r adnoddau, i gefnogi a hwyluso mynediad a'r newid moddol. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | <1m | 0.5m-1m | Anhysbys | Canolig |
| 170 | Gwella Seilwaith Bysiau Gogledd Cymru - mesurau blaenoriaethu bysiau yng Ngogledd Cymru | Darparu seilwaith blaenoriaethu bysiau ar draws chwe awdurdod lleol i gefnogi'r llwybrau a gynlluniwyd fel rhan o'r rhwydwaith trawsnewid bysiau. Nodi mannau problemus lle ceir a nodi cynigion ar gyfer seilwaith blaenoriaethu bysiau yn y lleoliadau hyn i leihau amseroedd teithio, gwella dibynadwyedd, a lleihau oedi. Mae astudiaeth yn cael ei chynnal ar hyn o bryd a fydd yn nodi lleoliadau tagfeydd posibl a fydd yn effeithio ar rwydwaith bysiau arfaethedig yn y dyfodol, gan bennu achosion tebygol yr oedi hyn a datblygu opsiynau i fynd i'r afael â nhw, a gwerthuso'r opsiynau hyn a darparu argymhellion y dylid bwrw ymlaen â nhw. Mae mathau posibl o ymyrraeth yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gwelliannau i ddarpariaeth safleoedd a llochesi bws, lôn fysiau, llwybrau ar wahân, gorchmynion rheoleiddio traffig ategol, a gwelliannau technolegol (e.e. technoleg signal). | Bws a Choets | Pawb - cefnogaeth TC | Tymor canolig | 1-5m | 0.25m-0.5m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Canolig |

| Rhif Cynllun | Enw’r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 171 | Bws Cyflym Gogledd Cymru - darparu gwasanaeth bws cyflym ar hyd coridor yr A55 rhwng Porthladd Caergybi a Lerpwl | Darparu gwasanaeth bws cyflym rhwng Porthladd Caergybi a Lerpwl a nodwyd yn yr Union Connectivity Review a Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Mae astudiaeth yn cael ei chynnal ar hyn o bryd i nodi patrwm/dyluniad gwasanaeth a ffafrir, gyriant cerbyd a manylebau, mesurau blaenoriaethu bysiau sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag oedi, a gwelliannau i gyfnewidfeydd mewn 19 o leoliadau aros posibl i wasanaethu'r gwasanaeth arfaethedig, gwella profiad y cwsmer, a gwella cyfnewidfeydd amlfoddol. Mae seilwaith ategol posibl yn cynnwys mesurau blaenoriaethu bysiau, seilwaith i gefnogi gyriant/depos cerbydau, a chyfnewidfeydd newydd neu well mewn lleoliadau aros. | Bws a Choets | Pawb - cefnogaeth TC | Tymor canolig | 1-5m | 0.5m-1m | Arall | Canolig |
| 219 | Llwybr Teithio Llesol Bethel i Gaernarfon | Creu llwybr aml-ddefnydd 2.1km ochr yn ochr â phrifffordd bresennol rhwng ffordd osgoi Caernarfon a Chanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Bydd y cynllun yn cwblhau'r llwybr teithio llesol rhwng Bethel a'r setliad dynodedig. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 224 | Llwybr Teithio Llesol Llanrug i Fethel | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Bethel a Llanrug. | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 225 | Llwybr Teithio Llesol Nantlle i Benygroes | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu cymunedau ar hyd coridor Nantlle â Chaernarfon | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 226 | Llwybr Teithio Llesol Caeathro i Gaernarfon | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Caeathro a Chaernarfon. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 228 | Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Fangor | Creu llwybr teithio llesol i gwblhau'r cynnig teithio llesol rhwng Llanberis a Bangor. | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 229 | Gwella Teithio Llesol ym Mynydd Llandygai | Gwelliannau Teithio Llesol Lleol yn ardal Mynydd Llandygai | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 231 | Llwybr Teithio Llesol Edern i Nefyn | Creu llwybr teithio llesol rhwng Edern a Nefyn | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 235 | Llwybr Teithio Llesol Pwllheli i Mynytho | Creu llwybr cerdded sy'n cysylltu Mynytho â'r llwybr Teithio Llesol arfaethedig rhwng Llanbedrog a Phwllheli | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |

| Rhif Cynllun | Enw’r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 236 | Llwybr Efailnewydd i Bwllheli | Creu llwybr aml-ddefnydd rhwng Efailnewydd a Phwllheli | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 238 | Gwella llwybrau Teithio Llesol ar yr A499 o Bwllheli i Borthmadog | Gwella'r llwybr cerdded a beicio presennol rhwng Pwllheli a Phorthmadog | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 240 | Gwella Teithio Llesol Cricieth | Gwella'r ddarpariaeth teithio llesol yng Nghricieth | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor byr | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 242 | Llwybr Teithio Llesol Porthmadog i Lanfrothen | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr 2K sy'n cysylltu'r Garreg Llanfrothen â Phenrhyndeudraeth ar hyd yr A4085 ac yn gwella'r ddarpariaeth gerdded a beicio bresennol rhwng Boston lodge a Minffordd. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 248 | Llwybr Teithio Llesol Corris Uchaf i Gorris | Gwella'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol rhwng Corris Uwch a Corris | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 249 | Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Fachynlleth | Creu 1 newydd. Llwybr aml-ddefnyddiwr 3Km rhwng Cwrt a Phennal a llwybr aml-ddefnyddiwr 3Km rhwng Esgairgoch a Machynlleth ar hyd yr A493 i gwblhau'r llwybr cerdded a beicio rhwng Tywyn Machynlleth. | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Canolig |
| 281 | Cyfnewidfa Bws Dolgellau | Cyflwyno cyfleuster cyfnewid bysiau yn Nolgellau i wella diogelwch, integreiddio a chydlynu gwasanaethau bysiau | Bws a Choets | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Canolig |

## A.3 Cynlluniau blaenoriaeth Is


| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Integreiddio Trafnidiaeth Ardal Gorsaf Porth Bangor | Mae TC wedi nodi cyfle yng ngorsaf Bangor i wella'r croeso i ddinas Bangor a gwella'r gyfnewidfa gyda dulliau teithio ymlaen. Mae astudiaeth Ardal yr Orsaf yn cael ei chynnal i ddeall y problemau a'r rhwystrau presennol sy'n wynebu pobl wrth deithio i ac o Orsaf Bangor a'i defnyddio | Integ. | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | 0.1m - 0.25m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 12 | Integreiddio â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus strategol: Gwelliannau isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd | Gwelliannau parhaus i'r isadeiledd bysiau, gan gynnwys mesurau blaenoriaeth bysiau, gwelliannau lletya bysiau, arwyddion, arosfannau bysiau a darpariaeth lloches. | Integ. | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 20 | Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus i dwristiaid/ymwelwyr am ddim | Cerdyn Konus sy'n rhoi cludiant cyhoeddus am ddim i dwristiaid/ymwelwyr ac y telir amdano (yn rhannol) trwy dreth dwristiaid | Integ. | Gwynedd/ Conwy | Uchelgeisiol | <1m | 1m - 5m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Isaf |
| 29 | Hwb Symudedd ym Mangor | Hwb symudedd sy'n dod â chyfnewidfa aml-ddull teithio at ei gilydd ar un safle canolog, a fydd dros amser yn cael ei staffio, gyda gwybodaeth amser real, caffi a thoiledau | Integ. | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | 0.25m-0.5m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 116 | Clybiau Ceir | Bydd Awdurdodau Lleol yn cydweithio i gydlynu a hyrwyddo clybiau rhannu ceir ar draws gogledd Cymru'n rhanbarthol. Gall hyn gynnwys dull cydgysylltiedig o weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr allanol, er enghraifft defnyddio llwyfannau fel Lift share a TrydaN | Trafnidiaeth gymunedol a thacsis ar alw | Pawb - cefnogaeth TC | Tymor canolig | 1-5m | 1m - 5m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 126 | Gwella capasiti a diogelwch / gwelliannau mannau cyfyng: adnewyddu goleuadau stryd | Adnewyddu colofnau goleuadau stryd ar draws y rhanbarth, gan eu gwneud yn addas i gael eu gosod gyda llusernau newydd LED ynni isel | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Pawb | Tymor canolig | 15m - 50m | 5m-10m | Arall | Is |

| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 140 | Mynediad i Wasanaethau: Cyswllt yr A499 i Nefyn (B4417) | Gwelliannau i ffordd y B4417 rhwng tref Nefyn a'r A499 yn Llanaelhaearn. Bydd y cynllun yn cynnwys lledu ac ail-alinio'r ffordd, a fyddai'n darparu gwell cysylltiadau mwy diogel i gerbydau ac ar gyfer teithio llesol, i Nefyn a hefyd i gymuned Llithfaen i'r A499. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | 15m - 50m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 141 | Mynediad i Wasanaethau: Gwelliannau i ffordd yr A4086 Cibyn i Bontrug | Gwelliannau i'r A4086 rhwng Llanrug a Chaernarfon. Byddai'r cynllun yn cynnwys lledu ac ail-alinio'r ffordd a gwella'r gyffordd. Byddai hyn yn darparu gwell cysylltedd i gynllun arfaethedig ffordd osgoi Caernarfon ar gyfer y pentrefi yn y cyffiniau. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 142 | Mynediad i Wasanaethau: Cyswllt Dinas Dinlle i'r A499 | Uwchraddio'r ffordd trydydd dosbarth bresennol sy'n ffurfio cyswllt rhwng maes awyr Caernarfon a'r A499, ac ar y cyd â chynllun arfaethedig Allt Goch, byddai'n creu gwell cyswllt trafnidiaeth o'r A487(T) ger Penygroes. Byddai'r cynllun yn cynnwys lledu'r ffordd a'i hail-alinio gyda gwelliannau cyffordd ar yr A499. | Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cronfa Trafnidiaeth Leol (LTF) | Is |
| 206 | Gwelliannau Mynediad Bangor Uchaf | Adolygu cyfleoedd i ailsefydlu cyswllt aml-foddol rhwng yr A487 a Belmont Avenue i wella mynediad ar gyfer opsiynau teithio lleol a phellter hirach a lliniaru tagfeydd. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 15m - 50m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 218 | Gwella'r Lôn Las. Gwella llwybrau beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn las Ogwen, Lôn Las Menai a Lôn Eifion | Parhau â'r rhaglen waith arfaethedig i wella'r rhwydwaith cerdded a beicio oddi ar y ffordd presennol, Lôn Las Menai, Lôn Las Eifion a Lôn Las Ogwen. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 1-5m | <0.1m | Cyllid Llywodraeth y DU | Is |
| 219 | Llwybr Teithio Llesol Bethel i Gaernarfon | Creu llwybr aml-ddefnydd 2.1km ochr yn ochr â phriffordd bresennol rhwng ffordd osgoi Caernarfon a Chanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Bydd y cynllun yn cwblhau'r llwybr teithio llesol rhwng Bethel a'r setliad dynodedig. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 220 | Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Gaernarfon | Creu llwybr aml-ddefnydd 6.4km ochr yn ochr â phriffordd bresennol rhwng Caernarfon a Llanrug. Bydd y cynllun yn cwblhau'r llwybr teithio llesol rhwng Llanberis a'r anheddiad dynodedig. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |

| Rhif Cynllun | Enw'r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 221 | Llwybr Teithio Llesol Rhosgadfan i Gaernarfon | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Rhosgadfan â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 222 | Llwybr Teithio Llesol Caernarfon i Rhyd ddu | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Rhydd ddu â Chaernarfon, rhan o Wella Mynediad Eryri | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 223 | Llwybr Teithio Llesol Llanberis i Nant Peris | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Nant Peris â Llanberis, rhan o Wella Mynediad Eryri | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 227 | Llwybr Teithio Llesol Rhiwlas i Fangor | Creu llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Rhiwlas a Bangor. | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 230 | Llwybr teithio llesol Pistyll i Nefyn | Creu llwybr teithio llesol rhwng Pistyll a Nefyn | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 232 | Llwybr teithio llesol Aberdaron | Creu llwybr teithio llesol lleol yn Aberdaron | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 233 | Llwybr Teithio Llesol Sarn Mellteyrn | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr, sy'n cysylltu ystâd o dai gwledig gyda chanol Pentref Sarn Mellteyrn | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 234 | Llwybr Teithio Llesol Pwllheli i Abersoch | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr ar hyd yr A499 rhwng Abersoch a Llanbedrog a darpariaeth cerdded a beicio oddi ar y ffordd rhwng Llanbedrog a Phwllheli | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor hir | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 237 | Llwybr Teithio Llesol A499 Caernarfon i Bwllheli | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr 11km ar hyd yr A499 i gwblhau'r llwybr cerdded a beicio 32Km rhwng Caernarfon a Phwllheli. | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 241 | Gwella Teithio Llesol Beddgelert | Gwella'r ddarpariaeth teithio llesol ym Meddgelert | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 243 | Llwybrau Teithio Llesol Coridor Gwyrdd Ardudwy | Creu llwybr cerdded a beicio sy'n cysylltu'r cymunedau ar hyd coridor yr A496 rhwng Penrhyndeudraeth ac Abermaw | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 15m - 50m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 244 | Llwybr Teithio Llesol Trawsfynydd | Gwella darpariaeth cerdded a beicio yn Nhrawsfynydd | Teithio Llesol | Gwynedd | Tymor canolig | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 245 | Llwybr Teithio Llesol Frongoch i'r Bala | Creu llwybr cerdded a beicio newydd sy'n cysylltu'r ganolfan dŵr gwyn yn Frongoch â'r Bala ar hyd yr hen reilffordd | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 246 | Llwybr Teithio Llesol Rhos y Gwaliau i'r Bala | Gwella'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol rhwng Rhos y Gwaliau a'r Bala | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | <1m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |
| 247 | Llwybr Teithio Llesol Llandderfel i'r Bala | Creu llwybr Teithio Llesol newydd sy'n cysylltu Llandderfel â'r Bala | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 5m-15m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |

| Rhif Cynllun | Enw’r Cynllun | Disgrifiad o'r Cynllun | Thema Polisi | Awdurdod(au) Lleol Arweiniol | Amserlen Cyflawni Disgwyliedig | Amcangyfrif Lefel Cost CAPEX | Amcangyfrif Lefel Cost OPEX | Ffynhonnell Ariannu Bosibl | Blaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 251 | Llwybr Teithio Llesol Tywyn i Lanegryn | Creu llwybr aml-ddefnyddiwr 3Km rhwng Llanegryn a Bryncrug i wella'r ddarpariaeth teithio llesol bresennol yn yr ardal. | Teithio Llesol | Gwynedd | Uchelgeisiol | 1-5m | <0.1m | Cronfa Teithio Llesol (ATF) | Is |

**Atodiad / Appendix 2**
**Cerrig Milltir a Llinyn Amser yr CTRh 2025 / RTP Milestones and Timeline 2025**



**CYFLWYNWCH EICH YMATEBION DRWY'R HOLIADUR AR-LEIN SYDD I'W GAEL AR Y BWRDD ARDDANGOS 'DWEUD EICH DWEUD' YN EIN HYSTAFELL ARDDANGOS RITHWIR. FEL ARALL, GALLWCH LAWRLWYTHO Y COPI HWN I'W GWBLHAU A'I DDYCHWELYD DRWY E-BOST NEU'R POST.**

# Ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru Holiadur

**Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 20 Ionawr 2025 am 12 wythnos. Anfonwch eich ymateb atom erbyn 23:59pm ar 14 Ebrill 2025.**

## Dweud eich dweud

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio'ch barn ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig Gogledd Cymru a'i ddogfennau ategol, sy'n cynnwys cynllun monitro a gwerthuso, cynllun cyflawni ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol, ac arfarniad llesiant integredig.

Gallwch weld ein cynlluniau ac ymateb i'n hymgynghoriad drwy lenwi holiadur ar-lein, sydd ar gael yn ein hystafell arddangos rithwir yma: **https://northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com/**

Fel arall, gallwch e-bostio ymatebion i **northwalesregionaltransportplan@arup.com**

Neu, ysgrifennwch atom a phostiwch gopïau argraffedig o'r holiadur at: **FREEPOST UGC / ANW**

Os hoffech siarad â ni am ein cynlluniau, gallwch hefyd ein ffonio ar: **01172 405 350**

Gellir darparu copïau papur neu amgen i chi ar gais drwy anfon e-bost atom neu adael neges i ni ar ein gwasanaeth ffôn (manylion uchod).

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a gawn yn ofalus, a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru a chwblhau ein cynlluniau. Ein nod yw cyhoeddi a mabwysiadu ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Haf 2025.

## Amdanoch chi

Mae'n ddewisol i chi ddarparu'r wybodaeth isod ond trwy ddarparu'r data hwn i ni, bydd yn ein helpu i ddeall pwy sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, a fydd yn rhoi cipolwg p'un a yw'r sylwadau a dderbynnir yn gynrychioliadol o'r gymuned yng Ngogledd Cymru. Bydd hefyd yn ein helpu i ystyried sut i gynnal ymgynghoriadau tebyg yn y dyfodol. Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i gysylltu â chi os oes gennym unrhyw faterion technegol annisgwyl gyda'ch ymatebion.

Os nad ydych am gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen, rhowch eich cod post i ni yn unig, a fydd yn ein helpu i ddeall o ble mae pobl yn cael dweud eu dweud.

**Cod post**

**Enw Cyntaf / Cyfenw**

**Oedran**

- [ ] o dan 25
- [ ] 25-39
- [ ] 40-60
- [ ] 60+

**Rhyw**

- [ ] gwryw
- [ ] benyw
- [ ] anneuaidd
- [ ] well gennyf hunan-ddisgrifio
- [ ] mae'n well gen i beidio â dweud

arall

**Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

**Ydych chi mewn cyflogaeth?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

**Ydych chi mewn addysg neu hyfforddiant?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

**Cyfeiriad e-bost**

## Diogelu data

Mae Arup yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Gellir gweld polisi data Uchelgais Gogledd Cymru yma: Diogelu data (llyw.cymru) . Mae Arup yn gweithredu fel Prosesydd Data ar ran Uchelgais Gogledd Cymru. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad mae'r holl wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Pan fyddwn yn storio eich gwybodaeth dros dro, caiff ei storio'n ddiogel yn ein hisadeiledd cwmwl sydd wedi'i leoli yn yr UE.

Bydd eich adborth gan gynnwys unrhyw sylwadau yn ddienw ac yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i gwblhau ein cynigion. Gellir llunio cofnod o sylwadau y gellid eu cyhoeddi. Ni ellir priodoli sylwadau i unrhyw unigolyn neu sefydliad os bydd hyn yn digwydd.

# Cwestiynau

Mae'r holl gwestiynau yn ddewisol.

## 1. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

B. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

C. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r polisïau a'r ymyraethau a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

D. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

## 2. Cynllun Monitro a Gwerthuso

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Monitro a Gwerthuso drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

### 3. Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

### 4. Arfarniad Llesiant Integredig

A. I ba raddau ydych chi'n cefnogi'r dull a ddilynwyd gennym yn ein Hasesiad Llesiant Integredig drafft?

- Cefnogi'n gryf
- Cefnogi
- Niwtral
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

B. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein Harfarniad Llesiant Integredig drafft neu gwnewch awgrymiadau eraill yma . . .

### 5. Unrhyw sylwadau eraill

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn neu ein cynigion?

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau

**Atodiad 4 - Ymgynghori ar y CTRH - Estyn Allan ac Ymgysylltu**

**Datganiad i'r wasg**

**Llun 20 Ionawr 2025**

**Dweud Eich Dweud ar Ddyfodol Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru**

Gall teithio o amgylch Gogledd Cymru fod yn her. Fel rhanbarth wledig gyda rhwydweithiau rheilffyrdd a ffyrdd yn aml o dan bwysau, nid oes llawer o amheuaeth bod angen gwella trafnidiaeth a chysylltedd lleol. Heddiw, mae ymgynghoriad cyhoeddus 12-wythnos yn cael ei lansio, sy'n rhoi'r cyfle i breswylwyr, busnesau, ac ymwelwyr siapio dyfodol teithio yn y rhanbarth.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru, sydd hefyd yn gwasanaethu fel Cyd-Bwyllgor Corfforedig y rhanbarth – gyda chyfrifoldeb dros gynllunio trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir strategol a gwella lles economaidd, yn gwahodd adborth ar gynllun drafft Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae'r ddogfen yn nodi polisïau ac ymyriadau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gwmpasu pob dull o deithio, gan gynnwys rheilffordd, ffyrdd, bws, cerdded a beicio, gyda'r nod o ddarparu gwell opsiynau teithio, gwella cysylltedd digidol, a lleihau effeithiau amgylcheddol.

Mae'r ymgynghoriad yn cynrychioli ymdrechion ac arbenigedd Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru, ei Is-bwyllgor Trafnidiaeth a'i bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Dywedodd y Cynghorydd Goronwy Edwards, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth:** "Mae hwn yn gyfle i bobl ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut y gallwn ni wella cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y rhanbarth. Mae systemau trafnidiaeth effeithiol yn cysylltu pobl â gwasanaethau hanfodol, yn cysylltu busnesau â gweithwyr a chwsmeriaid, ac yn cefnogi economi ffyniannus. Rwy'n annog preswylwyr i gymryd rhan a dweud eu dweud."

**Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Is-gadeirydd y Pwyllgor y canlynol:** "Mae cysylltiadau trafnidiaeth dda yn hanfodol i'n cymunedau. Maen nhw'n lleihau unigedd mewn ardaloedd gwledig, yn gwella mynediad at wasanaethau fel gofal iechyd ac addysg, ac yn rhoi hwb i economïau lleol drwy ddenu ymwelwyr a chefnogi busnesau bach. Dyna pam rydyn ni'n awyddus i gael cymaint o fewnbwn â phosibl fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gweithio i bawb ar draws y rhanbarth."

Nod y cynllun yw llunio polisi a buddsoddiad trafnidiaeth hyd at 2030, gan ddisodli cynlluniau trafnidiaeth leol presennol er mwyn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'n cael ei ystyried yn hanfodol i sicrhau bod Gogledd Cymru yn cwrdd â heriau economaidd yn y dyfodol, yn cefnogi teithio cynaliadwy, ac yn cyfrannu at amcanion hinsawdd.

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan 14 Ebrill 2025 – gyda chais i drigolion Gogledd Cymru i beidio â cholli'r cyfle i ddylanwadu ar ddyfodol trafnidiaeth yn y rhanbarth drwy ymweld â: https://bit.ly/CTRhGCymgysylltu-rhithwir.

**Diwedd**

Ar gyfer ymholiadau  cyfryngau cysylltwch â: Bethan Angharad Airey

BethanAngharadAirey@uchelgaisgogledd.cymru/ media@uchelgaisgogledd.cymru / 07385 223271

**Gwybodaeth i olygyddion**

1. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 20fed o Ionawr 2025 am 12 wythnos. Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 23:59pm ar yr 14eg o Ebrill 2025.
2. Uchelgais Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi cyflawni Cynllun Twf y rhanbarth a nhw hefyd yw Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CJC) - gyda chyfrifoldebau am gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio defnydd tir strategol, a gwella lles economaidd.
3. Mae'r CJC yn cynnwys aelodau cynrychioliadol o chwe chyngor Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio. Fel y CJC, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio barn ar ddrafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n amlinellu ein polisïau a'n hymyriadau strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar draws gwahanol ddulliau teithio. Y nod yw cyhoeddi a mabwysiadu ein Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn ystod Haf 2025.
4. Mae'r cynllun drafft a'r holiadur ymgynghori ar gael ar-lein mewn ystafell arddangos rithiol. Gall ymatebion hefyd gael eu hanfon ar e-bost i northwalesregionaltransportplan@arup.com neu eu hanfon drwy'r post i: FREEPOST UGC / ANW.

   Mae copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ym mhob sir. Mae posib gofyn am fformatau hygyrch trwy e-bostio northwalesregionaltransportplan@arup.com neu drwy ffonio 01172 405 350.

**Ymgysylltu a Gweleidyddion**

**Oddi wrth:** Uchelgais Gogledd Cymru | Ambition North Wales <info@uchelgaisgogledd.cymru>
**Anfonwyd:** Dydd Llun, 20 Ionawr 2025 14:26
**Pwnc:** Gwybodaeth am lansiad yr ymgynghoriad trafnidiaeth | Information regarding the public consultation on the future of transport

Er gwybodaeth – for your information.
Mae'r gwybodaeth canlynol a'r dogfennau atodedig wedi'u rhannu ag ASau ac ASau San Steffan perthnasol yn ogystal â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr cyfathrebu o fewn awdurdodau lleol.
The following information and attached documents have been shared with relevant MSs and MPs as well as partners and stakeholders, including local authority communications leads.

| | |
|---|---|
| Annwyl [Enw], | Dear [Name], |
| Rydym yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft ar gyfer Gogledd Cymru ar yr 20fed o Ionawr. Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos yn gyfle i drigolion, busnesau ac ymwelwyr gael mewnbwn i ddyfodol trafnidiaeth yng ngogledd Cymru. | We are launching an important public consultation on the draft Regional Transport Plan for North Wales on the 20th of January. This 12-week consultation offers residents, businesses, and visitors the opportunity to shape the future of transport in north Wales. |
| O ystyried eich rôl yn cynrychioli ein cymunedau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi a'ch tîm rannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad gyda'ch etholwyr er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael cyfle i gyfrannu. | Given your role in representing our communities, I would be grateful if you and your team could share information about this consultation with your constituents to ensure as many people as possible have the chance to contribute. |
| Er mwyn hwyluso hyn, rwy'n atodi graffeg a chynnwys posib ar gyfer eich rhwydweithiau cymdeithasol, ynghyd â datganiad i'r wasg. | To help you do this, I attach graphics and suggested wording for your social media channels and a press release. |
| Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan 14 Ebrill 2025, ac mae modd darparu adborth ar-lein, ar e-bost, neu drwy'r post. Mae copïau papur hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ym mhob sir. | The consultation runs until 14th April 2025, and feedback can be provided through an online virtual exhibition, via email, or by post. Paper copies are also available at public libraries in each county. |
| I gael rhagor o fanylion, mae croeso i chi gysylltu neu, gallwch fynd i wefan yr ymgynghoriad: https://bit.ly/CTRhGCymgysylltu-rhithwir. | For more details, please don't hesitate to get in touch with us or visit the consultation website: northwalesregionaltransportplan.virtual-engage.com. |

Diolch ymlaen llaw.

Cofion cynnes,

**Cyng. Goronwy Edwards**
**Cadeirydd Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol**

**Cyng. Dafydd Rhys Thomas**
**Is-Gadeirydd Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol**

Thank you for considering this request.

Warm regards,

**Cllr. Goronwy Edwards**
**Chair Strategic Transport Sub-Committee**

**Cllr. Dafydd Rhys Thomas**
**Vice-Chair Strategic Transport Sub-Committee**

**Bwletin Aelodau (31/01/2025)**

**Ymgynghoriad Trafnidiaeth**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

Gallwch weld y cynigion a chyflwyno eich adborth drwy ystafell ymgysylltu rithwir drwy ddilyn y ddolen yma: https://bit.ly/CTRhGCymgysylltu-rhithwir

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 23:59pm ar 14 Ebrill 2025.



**Cyfryngau Cymdeithasol**



**Atodiad 5**

**Ymateb Drafft Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad ar Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru**

Annwyl Cyng. Cadeirydd y Cydbwyllgor Corfforedig neu Cadeirydd yr Is Bwyllgor Trafnidiaeth.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh): Adborth Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn gwerthfawrogi yn fawr y cyfle i ddarparu mewnbwn i'r gwaith o gynhyrchu'r CTRh 2025-2030 ac yn y cyd-destun yma y broses ymgynghori.

I gychwyn, hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch yn ddiffuant y Cydbwyllgor Corfforedig (CbC) am y Gogledd, am arwain ar a chydlynu'r gwaith o gynhyrchu' CTRH drafft a'r dogfennau ategol. Yn ogystal a staff y CbC hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i'r aelodau etholedig a staff y chwech awdurdod lleol yn y Gogledd am gydweithio i ddatblygu'r cynllun rhanbarthol yma ynghyd a'r ymgynghorwyr ARUP sydd wedi cefnogi a hwyluso hyn. Angen hefyd cydnabod rôl a cyfraniad Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith.

Mae'r CTRh drafft yn cyd-fynd ac alinio gyda canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer creu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Gyda hyn mae'n anodd dadlau gyda'r weledigaeth a amcanion ynddo nag ychwaith y polisïau a'r ymyraethau a nodir gyda'r bwriad o wireddi a cyflawni rhain.

Mae Cyngor Gwynedd yn llwyr gefnogol o, ac am weld, rhwydwaith gludiant integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant a lles yng Ngogledd Cymru. Fel rhan o hyn rydym am weld cyfleoedd a opsiynau atyniadol sydd yn cynnig dewis go iawn a dulliau amgen o deithio'n hytrach na'r car. Rydym yn awyddus gweld rhwydwaith sydd yn hygyrch a cyfarch dyheadau ehangach i gefnogi grwpiau penodol o fewn cymdeithas sydd yn cynnwys bobl bregus, anabl, ifanc, hen a sydd hefyd yn mynd i'r afael a effeithiau tlodi gwledig.

Mae'r ystod eang o gynlluniau sydd wedi ei cynnwys yn y Cynllun Cyflawni yn adlewyrchu pa mor heriol ydyw i asesu a blaenoriaethu cynlluniau pan fod rhain mor wahanol o safbwynt ei cyrhaeddiad, os ydynt yn cyfarch galw rhanbarthol neu lleol iawn, cost a beth byddant yn ceisio, neu yn gyflawni. Y gwirionedd yw mae nid y cynllun yn ei hun sydd yn bwysig ond faint o'r cynlluniau yma fydd yn cael ei cyflawni yn ystod cyfnod y CTRh. Tra'n llwyr ddeall yr angen i flaenoriaethu a graddio'r cynlluniau, mae angen cydnabod hefyd y bydd y cynlluniau sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Cyflawni i gyd a blaenoriaeth uchel i'r cymunedau sydd yn gysylltiedig a nhw.

**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Rydym o'r farn fod y Cynlluniau Monitro a Gwerthuso yn bwrpasol a perthnasol. Er, fel gyda'r CTRh a dogfennau ategol yn gyffredinol, rydym yn pryderu, er mwyn cwrdd a disgwyliadau a canllawiau Llywodraeth Cymru, os ydi'r dogfennau yma yn or-dechnegol a rhy fanwl i'r mwyafrif llethol o boblogaeth y rhanbarth i'w fedru ei deall a dilyn a gyda hynny cyfranogi mewn ffordd ystyrlon yn prosesau fel yr ymgynghoriad cyhoeddus yma.

Mae'r Arfarniad Llesiant Integredig yn ystyried y cwestiynau cywir o safbwynt sut fydd y rhaglen neu prosiectau o fudd i gymunedau, amgylchedd, lleoedd a economi, diwylliant a'r Gymraeg a'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn y cyd-destun yma.

Mae'r Cyngor yma yn cydnabod ei fod yn gyfnod trawsnewidiol ym maes trafnidiaeth sydd yn cynnwys o safbwynt, ymysg ffactorau eraill, y canlynol:

- Newidiadau yn digwydd yn strwythurol yng nghyd-destun trafnidiaeth gyda, er enghraifft, dyfodiad y CbC a Thrafnidiaeth Cymru.
- Newidiadau yn digwydd o safbwynt dulliau, rhaglenni a ffynonellau cyllido Llywodraeth Cymru.
- Newidiadau posib yn flaenoriaethau a ffocws Llywodraeth Cymru ym maes trafnidiaeth.
- Newidiadau yn ddeddfwriaeth a modelau yn gysylltiedig â darpariaeth ym meysydd penodol sydd yn cynnwys bysiau.

Yn ogystal a'r uchod ffactor holl allweddol mewn perthnasedd a gwireddi amcanion a dyheadau yn cynllun fydd darpariaeth cyllid digonol wrth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys o safbwynt arian cyfalaf a refeniw. Mae'r trefniadau presennol yn creu heriau amlwg i awdurdodau lleol ac mewn nifer o achosion mae gweinyddu grantiau ar sail flwyddyn i flwyddyn yn gosod risg sylweddol ar Awdurdodau Lleol, yn maes darparu bysiau cyhoeddus er enghraifft ble mae cytundebau yn aml wedi ei gosod am gyfnod o rhwng 5-7 mlynedd.

Rydym yn parhau yn bryderus nad yw strategaeth na gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn ddigonol deinamig unigryw trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys o safbwynt ein dyheadau, dymuniadau a'r cyfleoedd a heriau yng nghyd-destun trafnidiaeth. Gyda hyn nid yw'r mecanwaith am ddosrannu cyllid yn ddigonol na theg gyda'r ddarpariaeth a chyfleoedd teithio yn gwahaniaethu'n sylweddol rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Rydym hefyd o'r farn fod mewnbwn a dylanwad awdurdodau lleol yn maes trafnidiaeth yn erydi yn bellach sydd yn amddifadu ein cymunedau o ymgysylltiad teilwng a teg mewn materion sydd yn effeithio.

Fe fydd y Cyngor yma yn parhau a'r ymagwedd agored a chadarnhaol tuag at cyd-weithio fel aelod o'r CbC ond hefyd gyda'r rhanddeiliaid allweddol arall sef Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ddarparu a cynnal y gwasanaethau a cyfleusterau gorau posib i gymunedau Gwynedd ynghyd a rhai gweddill Gogledd Cymru.

Yn gywir iawn,

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Dafydd Wyn Williams,<br>Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Mawrth 2025** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma ydi diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Amlinellir yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn ymrwymiadau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; a lle mae'r mesurau perfformiad arni.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod y materion yma eisoes wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Prif Weithredwr a chynrychiolaeth o uwch swyddogion yr Adran Amgylchedd fis Ionawr.

3.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon iawn gyda'r cynnydd ar y prosiectau y mae'r Adran yn arwain arnynt yng Nghynllun y Cyngor ynghyd a gwaith swyddogion yng ngwaith dydd i ddydd ar draws Gwasanaethau'r Adran Amgylchedd.

**4. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028**

4.1 Mae'r Adran yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Gwastraff ac Ailgylchu;
- Teithio Llesol;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus.

4.2 Rwy'n fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni eleni, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pump blaenoriaeth yn Atodiad A.

## 5. PERFFORMIAD


Rwy'n amlinellu isod y prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr Adran yn y cyfnod diweddaraf. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar y materion rwy'n teimlo mae angen tynnu eich sylw atynt.

### 5.1 Gwastraff ac Ailgylchu

5.1.1 Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 64% o'r gwastraff sy'n cael ei gasglu. Fodd bynnag, mae'r perfformiad ailgylchu wedi lefelu ers ambell flwyddyn bellach, a gyda'r disgwyliad yn cynyddu i 70% erbyn diwedd y flwyddyn, mae cyrraedd y lefel yma yn annhebygol eleni. Ond fel yr amlinellwyd uchod, bydd Strategaeth Wastraff ar gyfer 2025-2030 yn gosod cyfeiriad clir i Wynedd fel sir i sicrhau gwelliannau yn lefelau ailgylchu a chyrraedd y targed 70%.

5.1.2 Rydym yn monitro'r nifer o ymholiadau sy'n ymwneud â methu casgliadau gwastraff a braf gallu ydi adrodd fod gwelliannau clir dros y flwyddyn bresennol (Gweler Ffigwr 1). Mae hynny yn cyd-fynd â cyflwyno system gyfrifiadurol newydd i hwyluso trefniadau'r swyddfa gefn, ac sy'n hwyluso gwaith y gweithlu ar y cylchdeithiau. Mae'r system yma yn cael ei gyflwyno ar draws y sir ar hyn o bryd, a bwriedir defnyddio trefniadau o'r fath ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol yn fuan i wella trefniadau cyfathrebu gyda chwsmeriaid.

**Ffigwr 1**




### 5.2 Gwarchod y Cyhoedd

5.2.1 Mae **Gwasanaeth Safonau Masnach** yn diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes (gan gynnwys ffermydd) sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes. Mae'r Gwasanaeth yn cyflawni hyn drwy fonitro, dylanwadu a sicrhau safonau


iechyd a lles anifeiliaid, atal heintiau peryglus a sicrhau ôl-rhain anifeiliaid fferm.

5.2.2 Eleni, mae mesurydd newydd wedi ei gyflwyno sy'n monitro canran achosion tor-cyfraith troseddol sydd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth sydd wedi eu datrys.

5.2.3 Mae achosion yn cael eu hadnabod drwy gyfuniad o adroddiadau neu gwynion sy'n dod i sylw'r gwasanaeth gan aelodau'r cyhoedd a busnesau, yn ogystal â gwaith rhagweithiol swyddogion fel rhan o archwiliadau i fusnesau.

5.2.4 Fel mae'r graff yn amlygu (Ffigwr 2), mae perfformiad y Gwasanaeth yn gadarnhaol iawn, ac yn cynnwys amrediad o waith sicrhau lles anifeiliaid fferm, ynghyd a gwaith gwarchod defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau/safonau perfformiad egni eiddo tai rhent preifat, cynnal archwiliadau o fusnesau sy'n cael trwydded i storio a gwerthu tân gwyllt i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion.

**Ffigwr 2**





5.2.5 Yn ogystal bu'r tîm yn cynnal ymarferion 'pryniant prawf' mewn sampl o siopau'r sir ar nwyddau sydd â chyfyngiad oedran yn perthyn iddynt -gyda sylw penodol ar geisio prynu 'tân gwyllt'. Roedd canlyniadau'r ymgyrch yn bositif, gyda dim gwerthiant yn cael ei gofnodi.

5.2.6 Mae'r **Gwasanaeth Llygredd a Thrwyddedu** yn sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn ymwneud â thacsis, alcohol, gamblo ac adloniant yn cael eu darparu mewn modd sy'n gwarchod y cyhoedd a chefnogi busnes.

5.2.3 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o geisiadau trwyddedu cerbydau tacsi yn cael eu cyflwyno trwy system ar-lein sydd wedi ei gyflwyno ar wefan y Cyngor. Mae lefel y perfformiad presennol yn dda, a gwelir o'r graff (Ffigwr 3) fod yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau yn gyflym iawn, gyda cheisiadau sydd wedi eu cyflwyno'n gyflawn yn cael eu prosesu yr un diwrnod.

**Ffigwr 3**





5.2.4 Mae addasiadau hefyd wedi eu cytuno i'r hawliau dirprwyedig gyda phenderfyniadau ar geisiadau trwyddedu'r Cyngor. Fe allai hyn arwain at lai o geisiadau yn gorfod cael eu cyfeirio i Bwyllgor am benderfyniad, ac felly yn arwain at gyflymu'r broses i ymgeiswyr. Mae yna oedi gyda rhai ceisiadau gan fod gwybodaeth yn cael ei gyflwyno yn anghyflawn neu angen rhagor o wybodaeth ar y ben y ffaith fod rhai ceisiadau dal i fod angen eu hadrodd i'r Pwyllgor Trwyddedu am benderfyniad.

5.2.5 Mae'r **Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch** yn sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed yn cael ei gynhyrchu, storio, dosbarthu a'i drin mewn modd diogel ac yn cydymffurfio gyda gofynion statudol

5.2.6 Tra bod 99% o fusnesau bwyd y sir yn cyrraedd safonau hylendid bwyd o sgôr o 3 neu uwch, mae yna ôl-groniad o ran yr archwiliadau safonau a hylendid bwyd ar hyn o bryd. Daw hyn yn sgil newidiadau sylweddol yn nhrefniadau'r Gwasanaeth dros y 18 mis diwethaf, gyda nifer o swyddogion profiadol yn ymddeol neu symud i swyddi eraill a heriau gyda recriwtio swyddogion cymwys.

5.2.7 Mae'r Gwasanaeth yn blaenoriaethu archwiliadau busnesau bwyd risg uchel/uwch (A/B yn y graff yn Ffigwr 4 isod), a busnesau newydd ac mae ymdrechion hefyd i geisio sicrhau adnoddau er mwyn recriwtio hyfforddai fyddai'n cynorthwyo gyda chapasiti a chynllunio gweithlu'r dyfodol.

**Ffigwr 4**




5.3 **Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu**

5.3.1 Mae perfformiad y **Gwasanaeth Cynllunio** o ran yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar gais cynllunio yn parhau yn eithaf sefydlog, er


mae yna gynnydd ceisiadau penodol eleni yn ymwneud â phympiau gwres ffynhonnell aer ac am ddatblygiadau amaethyddol. Mae'r cynnydd mewn ceisiadau amaethyddol oherwydd yr angen i ffermydd storio a thrin gwastraff mewn ffordd sydd yn gwarchod yr amgylchedd ac i gydymffurfio gyda deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â hynny.

5.3.2 Mae'r amser penderfynu ceisiadau ar gyfartaledd yn 105 diwrnod, gyda'r ffigyrau diweddaraf yn dangos fod 85% o benderfyniadau o fewn yr amser statudol (sef unai o dan 56 diwrnod neu gydag estyniad amser wedi ei gytuno). Mae hyn yn amlygu fod swyddogion ar y cyfan yn cyfathrebu'n effeithiol gydag ymgeiswyr ac maent yn deall pam nad yw'n bosib bob amser i ryddhau penderfyniad o fewn y cyfnod statudol.

5.3.3 Fel rhan o ymdrechion i gynllunio'r gweithlu, mae'n braf adrodd fod yna 4 hyfforddai yn y Gwasanaeth Cynllunio, gan ddatblygu sgiliau a phrofiad.

5.3.4 O ran y nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio, mae'n ymddangos fod y trefniadau i gryfhau'r adnodd yn y maes bellach yn cael effaith cadarnhaol ar berfformiad. Fel y gwelir o'r graff (Ffigwr 5), mae lefelau da o achosion bellach yn cael eu cau yn amserol.


**Ffigwr 5**




5.3.5 Mae'r **Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu** yn sicrhau bod gwaith adeiladu'n bodloni'r safonau iechyd a diogelwch disgwyliedig. Mae cyfrifoldebau ychwanegol wedi eu gosod ar y Gwasanaeth yn sgil Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 gan gynnwys yr angen i swyddogion gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu fel 'Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig'.

5.3.6 Er hyn, dengys y data perfformiad diweddaraf fod y Gwasanaeth wedi dangos cynnydd da o ran y penderfyniadau a wnaed ar geisiadau o fewn terfynau amser statudol (Gweler Ffigwr 6 isod). Mae hyn wedi ei gyflawni yn dilyn cynyddu capasiti yn sgil recriwtio 2 swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol, ac Arolygydd Adeiladu dan Hyfforddiant yr LABC. Mae hyn wedi profi i fod yn hwb mawr i'r gwasanaeth, a byddwn yn sicrhau bod aelodau newydd y tîm yn cael eu cefnogi'n llawn.

**Ffigwr 6**




5.4 **Trafnidiaeth**

5.4.1 Mae tîm gorfodaeth o 9 swyddog o fewn y **Gwasanaeth Parcio** sy'n gweithredu ar draws y sir, gyda swyddogion yn gweithio 7 diwrnod yr wythnos gyda'r bwriad o gael dylanwad cadarnhaol ar ymarferion modurwyr i barcio mewn modd cyfrifol, diogel ac yn unol â'r rheolau. Mae swyddogion yn ymateb i gwynion neu bryderon am barcio anghyfreithlon mewn lleoliadau penodol, ac ar gyfer y cyfnod diweddaraf, mae swyddogion wedi llwyddo ymweld â 70% o leoliadau o fewn 1 diwrnod, gyda phob lleoliad yn derbyn ymweliad o fewn tridiau.

5.4.2 Pan mae achosion o fodurwyr yn parcio'n groes i'r cyfyngiadau, mae'r swyddogion gorfodaeth yn ymdrin gyda phob achos mewn modd cyson, teg a thryloyw, gyda hawl i bawb sy'n derbyn dirwy i apelio pe baent yn teimlo unrhyw annhegwch neu gamgymeriad.


5.4.3 O fwrw golwg ar y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn bresennol fe welir fod rhaniad clir rhwng y rhybuddion sydd wedi eu cyflwyno i gerbydau ar y stryd ac oddi ar y stryd (meysydd parcio). Amlygir fod gwaith y tîm yn canolbwyntio ar y stryd (57%) , gyda 43% yn ymwneud â meysydd parcio'r Cyngor.

5.4.2 Fel y nodwyd dan Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni yn y maes **Trafnidiaeth Gyhoeddus** dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn adolygu a chyflwyno rhwydwaith cludiant cyhoeddus newydd i gymunedau ar draws y sir.

5.4.3 Mae mesurydd newydd wedi ei gyflwyno eleni er mwyn monitro prydlondeb a sicrhau fod y siwrneiau a gynlluniwyd yn teithio ar hyd y llwybrau yn amserol. Rwy'n gobeithio y bydd teithwyr yn gallu bod yn hyderus fod y bws yn cyrraedd ar amser ac y gallent ddibynnu ar y gwasanaeth ers y newid i'r rhwydwaith, gydag ymhell dros 80% o siwrneiau bws lleol yn cyrraedd ar amser (sef hyd at 1 munud yn gynnar neu 5 munud yn hwyr).

5.4.4 Yn ogystal, mae'n galonogol fod canran sylweddol (64%) o'r teithwyr ar y rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd yn talu i ddefnyddio'r bws yn hytrach nac yn defnyddio tocyn teithio rhad (Gweler Ffigwr 7 isod). Mae hyn eto yn adlewyrchiad fod y rhwydwaith presennol yn atyniadol, a gobeithio yn gymorth i sicrhau fod y gwasanaethau yn parhau i fod yn amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy.

**Ffigwr 7**




## 6. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

6.1 Adroddwyd i'r Cabinet ar 21 Ionawr (Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024), y rhagwelir gorwariant o £970,000 gan yr Adran Amgylchedd ar gyfer y flwyddyn bresennol.

6.2 Mae cyfuniad o resymau am hynny, yn cynnwys y tueddiad o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Er rhagwelir gorwariant o £667,000 ar gyfer y maes penodol yma eleni, mae gwelliannau'n cael eu cyflwyno ac mae lefelau'r gorwariant yn parhau i ostwng. Mae'r Cabinet wedi argymell fod £400,000 o refeniw parhaol yn cael ei glustnodi i gyfarch rhan o'r gorwariant sy'n parhau ac mae gan yr Adran gynlluniau i ailstrwythuro i geisio cyfarch y swm sy'n weddill.

6.3 Mae rhagolygon incwm parcio yn is na'r targed sydd wedi ei osod, ond mae effaith hynny yn cael ei leihau gan danwariant o feysydd eraill. Bydd aelodau hefyd yn ymwybodol fod y Cabinet wedi cymeradwyo cynnydd mewn ffioedd parcio a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2025 fel rhan o ymdrech i gyfarch hyn.

6.4 Yn eu cyfarfod 21 Ionawr, cymeradwyodd y Cabinet i ddileu cynllun arbedion casglu clytiau gwerth £146,910 ar gyfer 2025/26, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb er mwyn gwneud hynny. Yn ogystal, nodwyd bod cynlluniau amgen yn cael eu cynnig ar gyfer gwerth £300,000 o gynllun arbedion adolygu cytundebau gwastraff gwerth £400,000.

6.5 Rhagwelir risgiau i wireddu 4 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £388,000 - Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol (£150,000), cynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau (£120,000), Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor (£38,000) a Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 (£80,000). Mae oediad ar 8 cynllun gwerth £402,000 ond mae gwaith yn symud ymlaen, gydag 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.

---

**Sylwadau'r swyddogion statudol**

**Prif Swyddog Cyllid:**
Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Amgylchedd.

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb

---

**Atodiadau:**

**Atodiad A:** Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor (Amgylchedd)

**Dogfennau Cefndir:**

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028
Cyllideb Refeniw 2024/25 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2024
Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

# **Atodiad A** (Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd)

## Blaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028

**Gwynedd Glyd:**

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

**Gwynedd Werdd:**

- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus

# **Gwynedd Glyd:** Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

## **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr



Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i'r Llywodraeth yn amlygu'r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o'r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy'n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae'r Cyngor yn gweithredu newidiadau deddfwriaethol ac yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd briodol i ymateb i'r sefyllfa ar y pryd.

# **Prosiect:** Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / tebygol o gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** |
| --- | --- | --- |
| **1.** Paratoi adroddiad yn dilyn cyfnod ymgysylltu ar gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i'w gyflwyno i'r:<br>· Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 16 Mai 2024;<br>· Cabinet y Cyngor ym Mehefin / Gorffennaf 2024 gydag argymhelliad i gadarnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, i fod yn weithredol ar 1 Medi 2024. | **1.** Y Cabinet wedi cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 16 Gorffennaf 2024. | ✓ |
| **2.** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, defnyddio'r un dulliau ymgysylltu a wnaed yn haf 2023, i hysbysu trigolion Gwynedd y bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol o 1 Medi 2024. | **2.** Wedi gweithredu yn Awst 2024. | ✓ |
| **3.** Byddwn yn rhoi trefniadau mewn lle i ragbaratoi ar gyfer gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4. | **3.** Trefniadau mewn lle ac yn weithredol o 1 Medi 2024.. | ✓ |
| **4.** Ceisio cryfhau'r Tîm Erthygl 4 yn y cyfnod hyd at Medi 2024 drwy recriwtio a hyfforddi 2 swyddog cynllunio Cyfarwyddyd Erthygl 4 (gan ddefnyddio adnodd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd ag adnodd sydd eisoes wedi ei glustnodi gan y Cabinet). | **4.** Wedi recriwtio 2 Hyfforddai Cynllunio Erthygl 4 ers Gorffennaf a Medi 2024.. | ✓ |
| **5.** O ran y Premiwm Treth Cyngor:<br>·Gwaith ymchwil i effaith y Premiwm o ran unrhyw newid defnydd eiddo, gan gynnwys ymgysylltu a dadansoddi canlyniadau (Ebrill – Gorffennaf 2024).<br>·Y Cabinet i ystyried y canlyniadau ym Medi 2024 os yw am gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynyddu lefel y Premiwm ar gyfer 2025/26.<br>·Cynnal ymgynghoriad ar newid lefel y Premiwm - os bydd un – (Medi - Hydref 2024).<br>·Y Cyngor Llawn i ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2025/26 yn Rhagfyr 2024 (boed newid yn cael ei argymell neu beidio). | **5.** Y camau wedi eu cwblhau yn unol â'r amserlen. Yn dilyn y gwaith ymchwil, penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor llawn yn Rhagfyr 2024 i gadw'r Premiwm ar yr un lefel ar gyfer 2025/6. | ✓ |
| **6.** Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am fwriad i gyflwyno deddfwriaeth cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau erbyn diwedd 2024, ystyried goblygiadau y newid i'r Cyngor o ran gofynion gorfodaeth/rheoleiddio posib (disgwylir manylion pellach am y drefn newydd a'r disgwyliadau posib ar Gynghorau). | **6.** Y Cyngor wedi cyflawni'r gwaith sydd o fewn ein rheolaeth ar gyfer 2024/5, ac ystyried unrhyw ddatblygiadau pellach maes o law gan Lywodraeth Cymru. | ✓ |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

**Prosiect:**

Cynllun Datblygu Lleol newydd



Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.

# **Prosiect:** Cynllun Datblygu Lleol newydd

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / tebygol o gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** |
|---|---|---|
| **1.** Yn ddarostyngedig i sêl bendith Llywodraeth Cymru, cychwyn gweithredu ar y Cytundeb Cyflawni er mwyn hwyluso'r trefniadau ar gyfer y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i Wynedd. (Mae'n ofynnol paratoi Cynllun Datblygu Lleol o fewn cyfnod o dair mlynedd a hanner.) | **1.** Cytundeb Cyflawni wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru Ebrill 2024, ac wedi cychwyn cael ei weithredu. | ✓ |
| **2.** Gweithredu ar y cam cyn-adneuo sy'n cynnwys gwaith hel sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun newydd, fydd yn cynnwys:<br>· galw am safleoedd (Ebrill / Mai),<br>datblygu'r opsiynau strategol (yn dilyn o'r prif faterion, gweledigaeth ac amcanion strategol sydd wedi eu hadnabod yn 2023/24), paratoi papurau cefndir / testun penodol, asesiadau effaith (Ebrill 2024 ymlaen, gan barhau i mewn i 2025/26). | **2.** Galw am safleoedd wedi cychwyn Gorffennaf 2024 ac wedi ei ymestyn hyd at 15 Ionawr 2025. Datblygu'r opsiynau strategol ar waith. | Agweddau cam cyn-adneuo wedi cwblhau'n rhannol eleni, ac i barhau yn 2025/6. |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

Byddwn yn paratoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu newydd er mwyn mynd i'r afael â chynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.

Byddwn yn asesu pa mor effeithiol yw'n trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau), ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.



# **Prosiect:** Gwastraff ac Ailgylchu

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / tebygol o gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu a fydd yn gosod cyfeiriad am y blynyddoedd i ddod gyda'r nod o uchafu lefelau ailgylchu a chamau penodol i drawsnewid y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.<br><br>Gan fwydo i mewn i'r gwaith strategol, byddwn yn:<br>**i.** Adolygu asedau trin gwastraff presennol a pharatoi opsiynau uwchraddio i ddatblygu safleoedd sy'n fodern ac addas i bwrpas fydd yn ein cynorthwyo i brosesu mwy o wastraff ein hunain a gwella ansawdd y cynnyrch.<br>**ii.** Fel rhan o waith ehangach o adolygu trefniadau casglu, byddwn yn treialu'r defnydd o sachau hesian ar gyfer casgliadau ailgylchu mewn hyd at 2,000 o gartrefi, yn adolygu llwyddiant er mwyn ystyried addasrwydd ymestyn i ardaloedd eraill yn y sir.<br>**iii.** Bydd gwaith codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu yn cyd-fynd gyda'r treial sachau hesian, a bydd cynllun newid ymddygiad yn seiliedig ar ddata yn cael ei baratoi i gefnogi'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu.<br>**iv.** Trefniadau gwastraff masnachol newydd sy'n cydymffurfio gyda rheoliadau ailgylchu yn y gweithle Cymru-gyfan a hefyd trawsnewid y busnes i fod yn fwy effeithlon a modern.<br>**v.** Symud tuag at hybu economi gylchol drwy leihau tunelledd y gwastraff gweddilliol a gynhyrchir a chynyddu a chefnogi ailddefnyddio a thrwsio drwy ein canolfannau ailgylchu. | **1.** Strategaeth ddrafft wedi ei llunio, a disgwylir adrodd arno i Gabinet y Cyngor yn fuan yn 2025/6 am gymeradwyaeth i gynnal ymarferiad ymgysylltu/ymgynghori cyhoeddus.<br><br>**i.** Cydweithio â Wrap Cymru i baratoi cynlluniau cychwynnol ar gyfer cyfleusterau trin a phrosesu gwastraff modern ac addas i bwrpas ar gyfer safleoedd Caergylchu (Caernarfon) a Ffridd Rasus (Harlech).<br>**ii.** Cwmni arbenigol wedi eu penodi i arwain ar waith monitro'r treial a disgwylir i'r cynllun gychwyn yn ystod Chwefror/Mawrth 2025.<br>**iii.** Cynllun codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd o wasanaethau ailgylchu penodol yn targedu ardal wedi ei dreialu yn ardal Tanygrisiau, gyda'r bwriad i ymestyn i ardaloedd eraill yn y flwyddyn newydd.<br>**iv.** Ailstrwythuro ac ailedrych ar sut rydem yn rheoli a gweithredu gwastraff masnachol gan gynnwys prynu system swyddfa gefn newydd.<br>**v.** Nifer o brosiectau gan gynnwys asesu hygyrchedd ein canolfannau ailgylchu, annog mwy o ailgylchu a chydweithio efo partneriaid i ailddefnyddio'r defnyddiau a dderbynnir cyn eu hailgylchu. | Wedi cwblhau'n rhannol - Strategaeth ddrafft wedi ei pharatoi, gyda'r bwriad o gyflwyno am ystyriaeth buan y Cabinet. |
| **2.** Sicrhau rheolaeth ar y gorwariant, gan roi ystyriaeth i'r cynlluniau arbedion, yn ogystal â gosod strwythur staffio sy'n addas i allu cyflawni'r gwaith, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Fel rhan o gynlluniau arbedion ehangach, byddwn yn ystyried amlder casgliadau gweddilliol. | **2.** Cynnydd cadarnhaol yn parhau o ran rheolaeth o'r gorwariant.<br><br>Gwaith cychwynnol yn cael ei wneud ar hyn o bryd efo Wrap Cymru i fodelu gwahanol opsiynau. | Parhau i reoli'r cyllidebau yn ddarbodus<br><br>Disgwylir bydd yr asesiad yn barod erbyn haf 2025 a gellir dechrau newid trefniadau erbyn Ebrill 2026 |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Teithio Llesol



Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.

# **Prosiect:** Teithio Llesol

| Cerrig milltir 2024/5 | Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma | Wedi cwblhau / tebygol o gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn cyflwyno cynlluniau manwl i Lywodraeth Cymru am gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, gweithredu ar y cynlluniau llwyddiannus canlynol:<br><br>· Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd);<br>· Ysgol Rhostryfan;<br>· Ysgol Treferthyr, Cricieth. | **1.**<br>**· Ffordd Penrhos Bangor (ail wedd):**<br>Elfen cyntaf o'r ail wedd wedi ei gyflawni gyda'r bwriad o gwblhau'r ail elfen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br>**· Ysgol Rhostryfan:**<br>Mae'r gwaith o adeiladu llwybr newydd i gefn yr ysgol a gwelliannau o flaen yr adeilad allan i dendr gyda'r bwriad fod y gwaith yn cychwyn ym mis Chwefror 2025.<br>**· Ysgol Treferthyr, Cricieth:**<br>Gwaith wedi cychwyn ar safle ym mis Rhagfyr 2024 gyda'r prif gwaith yn cychwyn yn Ionawr 2025 ac wedi raglenni i'w gwblhau erbyn ganol Mawrth 2025. | ✓ |
| **2.** Hyrwyddo llwybrau i drigolion ac ymwelwyr i'r sir am y cyfleoedd cerdded a beicio ar rwydwaith teithio llesol Gwynedd. | **2.** Hyrwyddo'r rhwydwaith o lwybrau ar waith ac yr cyd gydag eraill (ee Croeso Cymru) | ✓<br><br>Gwaith parhaol |

# **Gwynedd Werdd:** Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

## **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus




Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.

# **Prosiect:** Trafnidiaeth Gyhoeddus

| **Cerrig milltir 2024/5** | **Diweddariad ar y cerrig milltir hyd yma** | **Wedi cwblhau / tebygol o gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** |
|---|---|---|
| **1.** Yn dilyn adolygiad a phroses caffael, gweithredu rhwydwaith bysiau cyhoeddus newydd ardal Meirionnydd. | **1.** Rhydwaith newydd yn weithredol ym Meirionnydd. | ✓ |
| **2.** Wedi adolygu rhwydwaith bysiau cyhoeddus yn ardal Dwyfor, cwblhau proses tendro a gweithredu ar hynny. | **2.** Adolygiad wedi ei gynnal yn Nwyfor, ac er tendro ar rwydwaith newydd, bu'n rhaid ail-dendro ar wasanaethau hanesyddol am 2 flynedd, a bwriad adolygu trefniadau'n y cyfnod yma. | ✓ Ydi/ Rhannol |
| **3.** Cynnal proses tendro ar gyfer gweddill Arfon (yn dilyn newidiadau sydd eisoes ar waith yn Nyffryn Nantlle a Chaernarfon), gan weithredu rhwydwaith newydd. | **3.** Adolygiad wedi ei gynnal a rhwydwaith yn weithredol. | ✓ |
| **4.** Fel rhan o'r uchod, ystyried opsiynau amgen fel Fflecsi i gyd-fynd efo gwasanaethau mwy traddodiadol fel rhan o rwydwaith integredig sy'n cynnig cyfleoedd teithio lleol a hirach. | **4.** Darpariaeth amgen fflecsi wedi eu cyflwyno mewn rhannau o Feirionnydd (Dyffryn Dulas a Dolgellau). Darpariaeth yn cael ei fonitro yn barhaus o safbwynt materion gweithredol, defnydd a chostau. | ✓ |
| **5.** Sicrhau darlun ariannol clir o ran y gost o ddarparu'r rhwydwaith a'r ffynonellau presennol amrywiol. | **5.** Mae'r prosesau pwrcasu sydd wedi mynd rhagddo fel rhan o'r adolygiad traws-sirol wedi adnabod y costau cysylltiedig â chynnal y rhwydwaith mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Hyn yn y cyd-destun fod wahanol elfennau i'r rhwydwaith tu hwnt i reolaeth y Cyngor (ee masnachol a wedi ei gomisiynu gan eraill – Trafnidiaeth Cymru: TrawsCymru T2, T3 a T10.)<br>Swyddogion yn cyd-weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru a LlC ar wahanol faterion cyllidol sy'n cynnal a chefnogi'r rhwydwaith yng Ngwynedd.<br>Mae newidiadau i'r cronfeydd, y symiau sydd ar gael a sut mae'r rhain yn cael eu gweinyddu, felly angen parhau yn fyw i hyn ac ymateb yn briodol. Mae hyn yn ymestyn a chynnwys y sefyllfa a heriau cyllidol sylweddol a chyffredinol mae'r Cyngor yn ei wynebu. | ✓ Ydi ond gydag adolygiad parhaus |

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. June Jones |
| **Swyddog Perthnasol:** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 11 Mawrth, 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canlynol:-

- Yr hyn sydd wedi ei gyflawni fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.
- Ble mae'r mesurau perfformiad arni.
- Diweddaraf ar sefyllfa ariannol a chynlluniau arbedion.

3.2. Yn gyffredinol rwy'n fodlon bod cynnydd sylweddol yn digwydd gyda phrosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran yn unol â Chynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Adran yn parhau i wynebu heriau, ond rwy'n hyderus fod gan yr Adran gynlluniau addas i gyfarch y sefyllfa hyd eithaf ei gallu.

3.3. Mae'r holl faterion a nodir yma yn cael eu trafod yn gyson, ac wedi'u craffu gennyf ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Adran ynghyd â Rheolwyr Gwasanaethau yr Adran.

**4. Prosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 (Blaenoriaethau Gwella)**

4.1 Mae'r tabl yn ATODIAD 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd tri prosiect blaenoriaeth yr Adran sydd wedi cael eu hadnabod yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

4.2 O'r wybodaeth yma, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y Cynllun. Sut bynnag, mae llithriad wedi bod yng nghynnydd blaenoriaeth gwella 3, sef 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir'. Yn anffodus ni fu cefnogaeth i'n bid am arian cyfalaf, ac yn unol byddwn yn gweithredu ar gynllun i wneud y gorau o'r arian refeniw er ceisio cyflwyno gwelliant i'r asedau.

## 5. Perfformiad Gwasanaethau'r Adran

Dyma amlinellu rhai o'r prif faterion sy'n deillio o'r adroddiad perfformiad diwethaf a gyflwynwyd gan yr Adran ar berfformiad mis Gorffennaf 2024. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt. Hoffwn ddweud fy mod yn fodlon gyda pherfformiad y Gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

### 5.1 Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd

5.1.1 Adroddwyd y llynedd ein bod wedi mabwysiadu Llawlyfr Cynnal Priffyrdd newydd. Mae'r gwasanaeth bellach wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno trefniadau o fewn eu system asedau ffyrdd (WDM) er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'r canlynol:


5.1.2 **Adolygu Hierarchaidd y Rhwydwaith**

Roedd rhaid diwygio hierarchaidd blaenorol ein ffyrdd yn ôl argymhellion cod ymarfer Cynnal Asedau Ffyrdd cyfredol. Mae'r newidiadau wedi eu cwblhau a'u cynnwys o fewn y Llawlyfr Cynnal Priffyrdd newydd.

5.1.3 **Categorïau Diffygion**

Defnyddir y wybodaeth a gofnodir yn ystod archwiliadau ffordd i bennu categorïau diffyg. Prif newid y llawlyfr yw gweld diffyg diogelwch (categori 1 yn flaenorol), yn cael ei weithredu erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf. Mae'r newidiadau yma mewn adrodd diffygion yn llawn weithredol ac mae'r niferoedd yn cael eu hadrodd fel rhan o'r cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad.

Weler isod y mesurau sy'n gysylltiedig â'r Categorïau Diffygion:




5.1.4 **Dyraniad y Gyllideb**
Mae'r gyllideb cynnal priffyrdd yn cael ei rannu rhwng gwaith rheolaidd a gwaith wedi ei gynllunio. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at sefydlu trefn/rhaglen waith ar sail blaenoriaeth y ffyrdd gwaethaf ar draws Gwynedd fydd yn weithredol o Ebrill 2025 ymlaen.

### 5.2 Gwasanaeth Edrychiad Stryd

5.2.1 Rydym bellach wedi ymgorffori'r gwasanaethau canlynol o fewn un gwasanaeth (Gwasanaeth Edrychiad Stryd) mae hyn wedi galluogi i'r adran ganolbwyntio ar edrychiad a delwedd ein strydoedd a ffyrdd. Y tair uned o fewn Edrychiad Stryd ydyw:

- Glanhau Strydoedd
- Gorfodaeth Stryd
- Timau Tacluso Ardal Ni

**Glanhau Strydoedd**

5.2.2 Cynhaliwyd adolygiad lefel uchel o'r Gwasanaeth er mwyn darganfod a oedd unrhyw rwystrau yn ei atal rhag gweithio'n effeithiol ac effeithlon gan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ffrydiau gwaith amrywiol i edrych ar y sefyllfa gorwariant, goramser, iechyd a diogelwch ac effeithlonrwydd cylchdeithiau.

5.2.3 Wrth gynnal yr adolygiad, amlygwyd yr angen i fuddsoddi mewn system optimeiddio cylchdeithiau, a chyflwynwyd bid fewnol i ariannu'r buddsoddiad yma. Ers hyn, mae system o'r enw Bartec wedi ei bwrcasu a fydd yn chwarae rhan annatod yng nghynllun gwella'r gwasanaeth.


**Tîm Tacluso 'Ardal Ni'**


5.2.4 Mae'r Timau yn parhau i fynd o nerth i nerth gan weithio'n agos gydag aelodau lleol i harddu'r Sir. Mae nifer fawr o geisiadau am waith yn cyrraedd y timau ac maent yn ymdopi â'r galw gan weithredu ar y ceisiadau pan yn ymweld â'r ardaloedd gwahanol.

**Gorfodaeth Stryd**

5.2.5 Mae'r Tîm Gorfodaeth yn parhau i gynnal ymgyrchoedd ac ymateb i unrhyw achosion sy'n effeithio ar lendid y Sir. Mae'r tîm yn rhagweithiol iawn yn delio gyda chwynion ac ymholiadau sy'n cael eu derbyn gan y cyhoedd gan sicrhau archwiliadau amserol i'r digwyddiadau.

Dros y flwyddyn diwethaf mae'r nifer o hysbysiadau cosb benodedig wedi cynyddu. Credir fod hyn i lawr i berchnogaeth y Swyddogion Gorfodaeth sy'n frwdfrydig yn eu rôl er sicrhau gwellhad yn edrychiad ein hamgylchedd. Amlygir isod y niferoedd o hysbysiadau cosb a gyflwynwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf:






**5.3 Gwasanaeth Cynnal Tiroedd**

5.3.1 Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am amrywiaeth eang o leoliadau o fewn trefi a phentrefi, yn bennaf o fewn y parthau 20 a 30mya, ledled y Sir yn ystod y tymor tyfu. Cynnwys ymylon ffyrdd, mynwentydd, mannau agored, mannau chwarae, cartrefi gofal a chyfleusterau chwaraeon. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am 16 mynwent ar draws y Sir ac yn cydlynu agor a chau beddi mewn 12 mynwent yn ardaloedd Arfon a Meirionnydd gyda threfniadau gwahanol yn ardal Dwyfor lle gwelir y trefnwyr angladdau yn ymgymryd â'r gwaith.

5.3.2 Yn ogystal â hyn mae'r gwasanaeth yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith ychwanegol yn ystod misoedd y gaeaf, megis gwaith contractio ar gyfer adrannau eraill, gwaith ffensio a choncrit, gosod meinciau, gosod biniau stryd, adnewyddu a phaentio toiledau cyhoeddus, adnewyddu a phaentio offer mannau chwarae, cynnal a chadw meinciau promenadau yn Nhywyn ac Abermaw, cynnal a chadw parciau cyhoeddus fel Parc Dre, Caernarfon.

5.3.3 Mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio gyda'r Adran Amgylchedd ar brosiect ymylon ffordd, er hybu bioamrywiaeth y byd natur yn enwedig peillwyr.


5.3.4 Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd gan edrych ar y gwasanaeth drwy lygaid y defnyddiwr. Byddwn nawr yn symud ymlaen i'r ail gam gan adnabod y camau sydd angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth ac yn ddilynol weithredu'r newidiadau.

**5.4 Gwasanaeth Fflyd**

5.4.1 Ers mabwysiadu'r Cynllun Fflyd Werdd (2023/2029), mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi gweithredu ar gynnal trafodaethau gyda'r adrannau/gwasanaethau, er gwir adnabod maint y fflyd/gwir anghenion y gwasanaethau. Roedd hyn yn gam hanfodol i'w gario allan cyn edrych ar newidiadau i'r math o fflyd byddwn ei angen. Un o gerrig milltir y cynllun yw symud oddi-wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil, gan gyflwyno fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (Ultra Low Emission Vehicles).

5.4.2 Mae cynnydd wedi bod yn y gwaith yma gan weld 70 (30%) o'r 232 ceir neu faniau'r Cyngor bellach yn rhai gwyrdd.

5.4.3 Mae’r gwaith yma o drosglwyddo i ynni gwyrdd yn mynd law yn llaw gyda rhaglen gosod pwyntiau gwefru mewnol sy’n cael ei arwain gan yr Adran, ac mae’r rhaglen wedi ei lunio o gwmpas archebion cerbydau fflyd presennol.




5.4.4 Mae’r Gwasanaeth hefyd yn edrych ar sefydlu system bŵl gorfforaethol a bydd y tîm Technoleg Gwybodaeth yn cefnogi datblygu’r system gan edrych i gynnal treial yn fuan yn y eleni.

**5.5 Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng (TCC)**

5.5.1 Mae'r arian grant yn brysur cael ei dynnu i lawr gyda'r gwaith parhaus o gyflwyno ac uwchraddio meddalwedd ac offer chaledwedd TCC, yn dilyn y broses tendro. Mae camerâu TCC yn cael eu defnyddio mewn mannau cyhoeddus yng Ngwynedd i helpu cadw ein cymunedau’n ddiogel drwy helpu i atal ac ymladd trosedd, i helpu atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, i ddarparu tystiolaeth wedi’i recordio i Heddlu Gogledd Cymru, i hybu lles economaidd o fewn cymunedau ac i roi ymdeimlad o ddiogelwch i'r cyhoedd.

5.5.2 Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi gosod camerâu sy'n gysylltiedig â'r un system mewn llawer o'i depos gwaith, i helpu gyda chyfrifoldebau iechyd a diogelwch a gweithrediad dydd i ddydd.

5.5.3 Eleni, roeddem yn llwyddiannus yn derbyn cais am arian (£450,000) drwy’r gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) er mwyn ymestyn ar ein darpariaeth bresennol o systemau TCC mewn mannau cyhoeddus. Roedd y prosiect yn cynnwys cyflogi ymgynghorwyr technegol arbenigol i helpu i ysgrifennu briff gofyniad cynhwysfawr iawn ar gyfer ymweld â'r farchnad agored. Mae'r cynigydd buddugol bellach yn tynnu at ddiwedd y cyfnod cyflwyno, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr wythnosau nesaf i gwblhau'r contract.

### 5.6 Gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus

5.6.1. Mae gan y Cyngor 61 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd sydd, o ran niferoedd, y ddarpariaeth uchaf yng Nghymru sy’n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol ynghyd a 37 o doiledau ar gael i’r cyhoedd ddefnyddio fel rhan o’r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus sy’n caniatáu i aelodau o’r cyhoedd ddefnyddio toiledau mewn amryw o sefydliadau lleol yn yr oriau y maent ar agor. Gellir defnyddio’r toiledau yn rhad ac am ddim ac nid oes unrhyw ddisgwyliad i’r sawl sy’n eu defnyddio brynu nwyddau neu wasanaethau yn ystod y cyfnod y byddent yn yr adeilad. Uchafswm y grant am flwyddyn yw £500 fesul lleoliad. Mae canllawiau’r grant ar wefan corfforaethol y Cyngor yn amlygu pwrpas y Cynllun a sut i wneud cais am y grant.

5.6.2. Rydym yn ymdrechu i wella cyflwr yr asedau a pharhau i gwrdd ag anghenion pobl a ymwelwyr Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Mae gwaith uwchraddio eleni ar gyfer toiledau Y Maes, Pwllheli a Toiledau Y Cei, Aberdyfi gyda thoiled Criccieth wedi cael ei uwchraddio llynedd drwy'r Gronfa Pethau Pwysig gyda buddsoddiad o £135,860.

5.6.3. Y llynedd, fe wnaethom lwyddo i ddenu arian mewnol yn dilyn bid ar gyfer amnewid drysau talu o'r rhai arian parod presennol er mwyn cynnig yr opsiwn o dalu’n di gyffwrdd. Mae’r broses gaffael bellach wedi ei gwblhau gan weld drysau talu o’r newydd yn cael eu cyflwyno ym Mhwllheli cyn yr haf.

5.6.4. Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ôl yn 2017. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yma oedd sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran darpariaeth toiledau cyhoeddus. Yn unol â’r cyfrifoldebau yma, lluniwyd Strategaeth ‘Toiledau Lleol Gwynedd’ ym mis Mai 2019. Mae’n amserol i adolygu’r Strategaeth bresennol gan asesu ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion ein Cymunedau erbyn heddiw. Byddem yn cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Craffu ar Strategaeth Toiledau Cyhoeddus ac yna i’r Cabinet.

### 5.7 Gwasanaeth Busnes a Chyflawni Prosiectau Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

5.7.1 Ers i Ymgynghoriaeth Gwynedd ymuno â’r Adran, bu cyfle i ail-edrych ar y ddwy Uned Busnes oedd yn bodoli gan ganoli gwasanaethau gweinyddol. Ers hyn, yr ydym wedi adolygu prosesau gan ddilyn egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith. Drwy hyn yr ydym yn ysgogi a gwella defnydd technoleg gan drosi prosesau o fod yn un papur i fod yn ddigidol. Bu cyfle hefyd i ganoli goruchwyliaeth a gweinyddiaeth systemau Technoleg Gwybodaeth craidd yr Adran. Weler yma gynnydd sydd wedi bod dros y flwyddyn diwethaf:

- Prosesu Archebion a Thaliadau - system yn weithredol ac wedi lansio i 80% o’r Adran Priffyrdd a Pheirianneg. Mi fydd y system yn weithredol i’r adran gyfan erbyn diwedd Mawrth 2025.
- Bilio Dyledwyr a Chleientiaid – system newydd mewn lle er mwyn bilio yn electroneg. Yn weithredol i waith Bwrdeistrefol a gwaith Priffyrdd (Cefnffyrdd) yn unig ar hyn o bryd.
- System Digwyddiadau / Hawliadau – system canolig yn y broses o gael ei ddatblygu, ac yn anelu i gael yn weithredol erbyn diwedd Mawrth 2025.
- Rheoli Prosiectau a Gwaith Dyddiol - system newydd mewn lle er mwyn tracio pecynnau o waith. Yn weithredol i waith Bwrdeistrefol yn unig ar hyn o bryd.

- System Asedau - system craidd yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio i dracio asedau Iechyd a Diogelwch (Citiau Cymorth Cyntaf, Defibrilators ayb)
- System Hyfforddiant – rydym yn y broses o waredu a'r hen systemau papur a symud i ddefnyddio MODS yn llawn.

**5.8 Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)**

5.8.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac mae'r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. O ganlyniad i hyn, mae'r Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd wedi llunio Strategaeth Llifogydd Lleol sy'n cyd-redeg â'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd, ac yn helpu i wireddu targedau'r naill a'r llall.

5.8.2 Bu i'r Adran gyflwyno'r strategaeth i Lywodraeth Cymru er derbyn cymeradwyaeth ac yn disgwyl eu hymateb cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

5.8.3 Rydym yn cydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar sawl prosiect er enghraifft Pwllheli a Porthmadog er cyfarch amcanion ein Strategaeth Llifogydd Lleol.

5.8.4 Mae dau gynllun sylweddol yn symud yn eu blaenau yn ardal Bermo gyda chefnogaeth arian grant gan Llywodraeth Cymru.

**6. Cynllun Busnes/Achrediadau'r Adran**

6.1 **Cynllun Busnes -** Mae'r gwaith o ddiweddaru Cynllun Busnes Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) er mwyn ei ymgorffori i Gynllun yr adran gyfan (PP/YGC) yn parhau. Y bwriad yw lansio'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2025.

6.2 **Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) -** Bu i'r Gwasanaeth YGC dderbyn achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am y trydydd tro. Mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes y Gwasanaeth.

6.3 **Achrediadau BSI -** Mae'r Adran wedi llwyddo i gadw'r achrediadau isod yn dilyn archwiliad rheolaeth dros y flwyddyn gan BSI:

- BSI 9001
- BSI 1401
- BSI 4501

6.4 Mae'r achrediadau yma yn hanfodol ac yn ofynnol i waith nifer o wasanaethau o fewn yr Adran.

## 7. Sefyllfa Ariannol

7.1 Yn dilyn adolygiad diweddar o sefyllfa gyllidebol yr Adran a gyflwynwyd i'r cabinet (23/01/24) rhagwelir gorwariant o tua £699k eleni. Nodwyd fod leihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus.

7.2 Gwelir colledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus, ond ceir incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

7.3 Cyfanswm cynlluniau Arbedion 2024-25 yw £419,500. Mae'r Adran wedi neu ar drac i gyflawni gwerth £278.5k gyda gwerth 141k yn llithro neu a risg o beidio cael eu gwireddu.

## 8. Barn Y Swyddogion Statudol

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.

**ATODIAD 1**

| Prosiectau | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn yr ail flwyddyn 2024-25 (cerrig milltir) | Diweddariad Mis Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|
| **1. Cymunedau Glan a Thaclus** | • Gwireddu'r hyn addawyd o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 sef 'gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'u bod fel pobl yn 'mwynhau bywyd hapus, iach a diogel' trwy 'fanteisio ar harddwch naturiol y Sir'.<br><br>• Hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus, e.e. ffyrdd, strydoedd, parciau, promenadau, a.y.b.<br><br>• Hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel traws-wasanaeth gan fagu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector. | 1. Cynnal lansiad ffurfiol o'r Gwasanaeth 'Edrychiad Stryd' er mwyn hysbysu'r staff a'r aelodau lleol o'r datblygiad yma. | Mae lansiad o'r gwasanaeth eisoes wedi cymryd lle. Rydym wedi gweld unedau o fewn y gwasanaeth yn plethu a chyd-weithio ers y newid sy'n dangos gwerth yr ail-strwythuro o dan Rheolwr newydd 'Edrychiad Stryd' |
| | | 2. Cyflwyno system optimeiddio cylchdeithiau fydd yn sicrhau cylchdeithiau glanhau gwasanaethau biniau stryd effeithiol ac effeithlon. Mae'r buddsoddiad yma yn gysylltiedig â'r targedau toriadau/arbedion a'r sefyllfa gorwariant. Felly, bydd disgwyliad i'r system gyfarch y sefyllfa yn rannol yn ystod y flwyddyn ariannol 24/25. | Mae system Bartec wedi ei bwrcasu bellach ac mae amlinelliad clir o waith y prosiect wedi ei rannu gyda'r grŵp tasg. Cawsom sgwrs cychwynnol gyda'r cwmni ar y 07/01/25 ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu fesul pythefnos gyda'r Rheolwr Prosiect a'r grŵp tasg. |
| | | 3. Cyflwyno glanhawyr trefi 'dyn a chart' yng Nghaernarfon a Bangor fel rhan o'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd. | Drwy'r bid ariannol mewnol rydym wedi penodi Glanhawyr Tref ym Mangor a Chaernarfon sy'n weledol i'r cyhoedd ac yn cadw'r ardaloedd yn lan ac yn daclus gyda ysgubwr trydan a chart. |
| | | 4. Cryfhau perthnasau'r Timau Tacluso drwy gyd-weithio gyda mudiadau/cymunedau lleol gan roi | Mae'r Timau Tacluso yn parhau i gydweithio gyd mudiadau/cymunedau lleol. Enghraifft diweddar cawsom |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sylw penodol i ardaloedd agored cyhoeddus. | oedd cais gan y gymuned yn Blaenau Ffestiniog i dacluso ardal ger y murlun newydd sydd wedi ei osod yno. |
| **2. Gweithredu ar Risgiau Llifogydd** | <u>**Risgiau Llifogydd Arfordirol**</u><br><br>Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sydd yn eu gwasanaethu nhw, ar yr arfordir.<br><br>Yn naturiol, mae risgiau yn codi yn sgil codiad yn lefelau môr yn ogystal â stormydd mwy dwys, sy'n digwydd mwy aml ac sy'n cael gwaeth effaith ar ein cymunedau.<br><br>Mae'r prosiect yn ceisio ymrwymo i'r drefn o flaenoriaethu risgiau llifogydd.<br><br><u>**Risgiau Llifogydd Mewndirol**</u><br><br>Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a stormydd, chyfnodau o law sydd yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd mwy aml.<br><br>Mae Gwynedd wedi ei rannu yn 15 dalgylch afonol. Mae posib blaenoriaethu'r dalgylchoedd yn ôl risg damcaniaethol o wybodaeth mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru, | 1. Cwblhau y Strategaeth Llifogydd Lleol. | Strategaeth Llifogydd Lleol wedi ei gwblhau ac wedi ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Ers hyn, cyflwynwyd yr un adroddiad i sylw Llywodraeth Cymru ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gynigion o welliant i'r cynnwys hyd yma. |
| | | 2. Ffurfio a chynnal trefn o ymgysylltu ar y gynnwys y strategaeth gyda thrigolion a rhanddeiliaid perthnasol. | Rydym bellach yn cwrdd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson i drafod ein strategaeth ynghyd materion eraill. |
| | | 3. Ymgorffori neu cyfarch unrhyw adborth ble yn bosib. | Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ac wrthi'n paratoi rhaglen weithredu ar sail yr arweiniad a gafwyd. |
| | | 4. Mabwysiadu'r strategaeth a chyflwyno'r ddogfen i Llywodraeth Cymru yn unol â'r gofyn | Rydym yn disgwyl adborth terfynol gan Llywodraeth Cymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gan hefyd gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth mae'r adran yn ei gasglu ar ôl pob digwyddiad o lifogydd mewn tai yng Ngwynedd (Mae casglu'r wybodaeth yma yn rôl statudol o dan Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - fe'i gelwir yn adroddiadau Adran 19).<br><br>Mae'r prosiect yn ceisio ymrwymo i'r drefn o flaenoriaethu risgiau llifogydd mewndirol. | | |
| **3. Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir** | Ers ail agor canolfannau wedi'r pandemig, mae gofyn ar ein darpariaeth caeau chwarae y Sir wedi cynyddu. Mae disgwyliad trigolion y Sir hefyd yn uwch ac eisiau gweld cyfarpar chwarae o radd uchel er sicrhau cyfleon chwarae cyfartal. Ers blynyddoedd lawer nid oes buddsoddiad wedi bod yn newid/ychwanegu at yr offer chwarae ac ond cyllideb refeniw fychan iawn sydd ar gael i'w cynnal. Mae sawl her yn ein wynebu er sicrhau cyfleon a chyfarpar chwarae o safon i'n cymunedau. Bydd y cynllun felly yn ein galluogi i ddatblygu'r asedau cyfredol gan sicrhau ardal ddiogel a braf i'n cymunedau ei ddefnyddio. | 1. Adnabod y caeau chwarae delwedd uchel gan adolygu stoc y gwasanaeth. | Bydd ein tîm dros y 3 mis nesaf yn adolygu'r stoc gan amlygu'r caeau chwarae delwedd uchel er ystyried cynllun gweithredu. |
| | | 2. Darparu rhaglen waith ar sail blaenoriaeth fydd yn gysylltiedig â'r bid ariannu.<br>Gweithredu ar y rhaglen waith yn rannol (yn ddibynnol ar llwyddiant y bid ariannol) | Ni fu ein bid am arian dderbyn cefnogaeth. Wedi cwblhau rhan 1 uchod byddwn yn gweithredu ar gynllun i wneud y gorau o'r arian refeniw er cyflwyno gwelliant. Mae'r egwyddor yma yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd. |
| | | 3. Ail-ymweld â trefniadau cydweithio gyda partneriaid drwy gefnogi partneriaethau i fanteisio ar unrhyw gyfleon grant | Mae'r gwaith yma yn parhau a byddwn yn gweithredu ar unrhyw gyfle fel yma sydd yn dod i'n sylw. Mae'r enghreifftiau canlynol yn cadarnhau yr hyn sydd yn cael ei weithredu arno ar hyn o bryd:<br>• Bangor- Cae Chwarae Maes Tryfan<br>• Prosiect Cymunedol Gardd Cae Doctor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Trafodaethau parhaus gyda Cyngor Dinas Bangor am leoliadau eraill o fewn y ddinas |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2025 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Menna Trenholme |
| **Swyddog Cyswllt:** | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru'r aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd Plant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd ar ddiwedd blwyddyn 23/24 a'r gwaith hyd yma yn 2024-25 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Pwrpas Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd ydi sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi plant, pobl ifanc a phobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei fesur drwy'r gyfundrefn Herio a Chefnogi Perfformiad. Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth bod lleisiau a phrofiadau unigolion sydd yn derbyn ac yn defnyddio ein gwasanaethau yn cael eu clywed er mwyn sicrhau'r profiad gorau iddynt.

1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan.

## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif risgiau'r adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan

Rydym am wella profiadau plant sydd yn derbyn gofal ac sydd ag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant, a fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

Erbyn hyn rydym wedi prynu eiddo ym Morfa Bychan (Dwyfor), Deiniolen (Arfon) ac Edern (Llŷn) .

Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu ar gyfer y gwaith ac yn cyfarfod yn fisol. Mae'r grŵp prosiect yn cynnwys aelodaeth o addysg, Tai ac Eiddo ac Iechyd. Mae'r broses recriwtio ar gyfer y cartref Golygfa'r Gest (Morfa Bychan) wedi ei chwblhau. Mae swydd rheolwr, dirprwy rheolwr a 6 gweithiwyr preswyl, a gweithwyr achlysurol wedi'u llenwi. Mae'r gweithwyr yma wedi cychwyn ag yn derbyn hyfforddiant mandadol, ac yn cysgodi shifftiau yn Hafan y Sêr i gael profiad gwasanaeth preswyl mewnol o fewn y Cyngor. Mae cais cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer Golygfa'r Gest (Morfa Bychan) wedi ei chyflwyno ag rydym yn disgwyl ymateb yn fuan.

Byddwn yn lleoli'r plentyn cyntaf yng Ngolygfa'r Gest (Morfa Bychan) ym mis Chwefror, 2025.

Rydym yn bwriadu cychwyn tendro am waith ar gyfer yr ail a'r trydydd eiddo yn yr wythnosau nesaf, yn y gobaith o gychwyn y gwaith ym mis 1 o'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd recriwtio i'r ail a'r trydydd cartref yn cychwyn rhwng Chwefror a Mawrth, 2025. Rydym hefyd yn parhau i chwilio am bedwerydd eiddo yng Ngwynedd. Bydd hyn er mwyn lleoli plentyn penodol sydd ar hyn o bryd yn byw yn Hafan y Sêr. Rydym hefyd wedi cael cynnig wedi ei dderbyn ar dŷ yn Ffordd Farrar, Bangor, yn Rhagfyr, 2024. Bwriad y tŷ hwn yw cefnogi plant / phobl ifanc sydd yn gadael gofal.

2.3 Cynllun Awtistiaeth

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen arnynt. Byddwn felly yn gwella'r ddarpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. Mae'r tîm bellach yn cynnig gwasanaeth IAA (Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth). Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd a chyfrinachol i unigolion awtistig a'u teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus am les; archwilio'r opsiynau sydd ar gael a'u cefnogi i gael mynediad at wasanaethau priodol. Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o beth ydi'r angen o ran ymholiadau yn dilyn y 12 mis diwethaf gan y tîm felly mae angen gweithio yn agos gyda gweithwyr SPOA/ IAA er mwyn datblygu hyn yn unol â'r cod ymarfer awtistiaeth. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r llywodraeth ac mae uwch reolwyr Plant wedi mynychu diwrnod gwybodaeth **Neurodivergence Improvement Programme - Information, Advice & Assistance in-person** er mwyn dechrau rhoi hyn ar waith.

Mae'r tîm yn derbyn nifer o gyfeiriadau gan oedolion awtistig, rhieni/ gofalwyr plant/ pobl ifanc awtistig, addysg, iechyd, cynnal gofalwyr ayyb. Mae nifer o'r cyfeiriadau yn cael eu trin drwy ymgynghoriad gyda'r gweithiwr sydd yn cyfeirio a thrwy hyn yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a'i gallu hwy i ymdrin ag unigolion awtistig. Nid bwriad y tîm yw gwneud y gwaith dros weithwyr eraill ond i'w uwch sgilio.

Mae'r tîm yn parhau â'i rôl ymgynghorol ac yn gweithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol i ddarparu cyngor ac arweiniad. Mae'r tîm wedi datblygu cyfoeth o adnoddau y gallant eu rhannu yn ogystal ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu dystiolaeth sy'n seiliedig ar ymarfer i gefnogi ymyrraeth. Fel rhan o'r cynnig ymgynghori, gall gweithwyr allweddol gynnig cymorth uniongyrchol tymor byr yn seiliedig ar ganlyniadau i unigolion a chynnal ymyriadau 1-1. Mae cynnydd a newid yn cael eu mesur drwy ddefnyddio canlyniad y seren ganlyniadau.

Mae'r tîm yn parhau i ddatblygu ac yn cael mynediad i ystod eang o hyfforddiant sydd yn seiliedig ar y gwaith rydym yn ei ddarparu. Mae Cygnet argraffiad 4 (2024) hyfforddiant integreiddio synhwyraidd, diet / cylchedd synhwyraidd yn profi i fod yn llwyddiannus.

Mae gwaith yn parhau gyda Derwen i adnabod pobl ifanc 14+ sydd â diagnosis o awtistiaeth ond na fyddant yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer gwasanaethau oedolion. Mae gweithiwr cymdeithasol yn gweithio ar y cyd gyda gweithwyr Derwen i ddatblygu cynlluniau llwybr sydd yn seiliedig ar ganlyniadau i gynyddu annibyniaeth er mwyn sicrhau bod anghenion yn cael eu cyfarch ond yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau, cyfleoedd i gymdeithasu, uwchsgilio a darparu gwybodaeth ac addysg i rieni er mwyn paratoi yn realistig at pan mae'r unigolyn yn troi yn 18.

Mae'r tîm yn parhau i weithio ar brosiect Llwybrau Ni, sydd yn darparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc, egwyl i rieni a gofalwyr unigolion sydd â diagnosis o awtistiaeth, yn aros am asesiad/ diagnosis ac unigolion na fydd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau arbenigol pan maent yn pontio i oedran oedolyn. Mae'r grwpiau yn profi i fod yn llwyddiannus.

Mae'r tîm wedi datblygu gweithdy hyfforddi awtistiaeth eu hunain gyda chefnogaeth y gwasanaeth niwro ddatblygiadol ac wedi ei gyd-gynhyrchu â'r gymuned niwro amrywiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Gwaith cymdeithasol drwy lens niwro amrywiol' wedi ei gynnal ddwywaith. Mae'r hyfforddiant yma yn eistedd ar y fframwaith hyfforddi awtistiaeth genedlaethol o dan 'autism enhanced training', felly ymarferwyr sydd yn asesu anghenion ac yn gweithio yn uniongyrchol ac unigolion awtistig a'u teuluoedd sydd yn cael eu targedu i fynychu.

Mae Grŵp Tasg a Gorffen ar y Cynllun Awtistiaeth wedi cymryd lle yn deillio o argymhelliad o'r Pwyllgor Craffu Gofal. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ym mis Ebrill 2025.

**3. PERFFORMIAD A MESURAU**

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

3.2 Capasiti'r Gweithlu - Mae'r sefyllfa gweithlu'n parhau'n fater o bryder. Drwy'r prosiect Cynllunio'r Gweithlu a Gofalwn Cymru rydym wedi dechrau rhoi ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar waith. Cyfeiriwyd 40 enw ymlaen i'r gwasanaethau trwy ymgyrch SOS yn ystod y cyfnod yma. Hefyd, cafwyd ymgyrch recriwtio llwyddiannus iawn ym Mhorthmadog ddechrau mis Mehefin, 2024 ble bu llwyddiant yn denu gweithwyr preswyl plant ar gyfer y Cartrefi Grŵp Bychan. Llwyddwyd i ddenu 36 unigolyn i'r digwyddiad a balchder yw nodi fod y swyddi oll wedi eu llenwi erbyn hyn.

3.3 Y Galw a'r Math o Gefnogaeth - Mae'r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cyfeirio a'u cefnogi yn dangos fod anghenion plant a theuluoedd yn cymhlethu ac yn dwysau, i'r graddau lle bod angen pecyn cefnogaeth a gofal eang, cynhwysfawr ac arbenigol tu hwnt. Mae hyn i weld ar gyfer pob gwasanaeth o fewn yr Adran Blant. Mae'r galw am wasanaeth yn codi, gyda niferoedd sydd yn agored i dimau ar ei uchaf. Mae'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau wedi derbyn 1906 o gyfeiriadau / ymholiadau yn chwarter 1, sydd yn 200 yn fwy na'r un cyfnod y llynedd. Nodir hefyd fod cynnydd sylweddol mewn Materion Adran 5 (honiadau yn erbyn unigolion mewn swyddi o ymddiriedaeth). Mae'r Tîm 16+ hefyd yn parhau i adrodd fod galw am wasanaethau ar ei uchaf, a bod 210 achos yn agored iddynt yn bresennol. Yn ogystal mae'r galw am wasanaeth Derwen, yn enwedig yr elfen gefnogol wedi cynyddu. Nodwyd pryder am yr elfen hon a llwyth gwaith uchel y staff. Nid yw'r llwyth gwaith yn gynaliadwy na iach yn y tymor hir.

3.4 O ran mesurau'r adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Nid oes unrhyw fesurau ar hyn o bryd yn peri pryder i mi ond byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth drwy drefniadau arferol herio perfformiad.

**4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

4.1 Ers yr adolygiad ariannol blaenorol pryd adroddwyd ar orwariant o £3.2 miliwn, mae bellach wedi cynyddu i £3.7 miliwn; yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol. Gwelwyd cynnydd yng nghymhlethdodau pecynnau a defnydd cynyddol ddiweddar o leoliadau heb eu cofrestru oherwydd diffyg lleoliadau addas i gyfarfod ag anghenion pobl ifanc. O ganlyniad i'r gorwariant eithriadol gan yr Adran Plant a Theuluoedd, mae'r Prif Weithredwr wedi comisiynu gwaith i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.2 Mae 2 gynlluniau arbedion yn yr adran ar gyfer 2024-25. Y cyntaf am £7,960 sydd yn ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae hwn wedi ei wireddu. Yr ail am £150,000 yn ymwneud â sefydlu tai grwpiau bychain.Mae 3 tŷ wedi cael eu prynu erbyn hyn gyda'r bwriad fod un yn weithredol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**5. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

   i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

   i. Dim i'w nodi.

---